

wavehill

Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

Mesur Budd Cymdeithasol Radio Cymunedol

Mehefin 2025



Ofcom

Wavehill: Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd

Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: St Nicholas House, 31-34 Stryd Fawr, Bryste, BS1 2AW
- Swyddfa Gogledd Lloegr: The Corner, 26 Mosley Street, Newcastle, NE1 1DF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, Llundain, N4 3EY

Manylion Cyswllt

Ffôn: 0330 1228658

E-bost: wavehill@wavehill.com

Rhagor o wybodaeth

www.wavehill.com

© Wavehill: ymchwil gymdeithasol ac economaidd.

Mae hawlfraint ar yr adroddiad hwn. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil gymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn at Ofcom yn y lle cyntaf.

Rhestr o dalfyriadau

CIC	Cwmni Budd Cymunedol
CIO	Sefydliad Corfforedig Elusennol
Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd	Cymdeithas Cyfryngau Cymunedol
CV	Curriculum Vitae
DAB	Darlledu Sain Digidol
DCMS	Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Trysorlys EF	Trysorlys Ei Fawrhydi
LHDTG+	Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws a Chwiar
NEET	Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
NCVO	Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol
OECD	Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
OFCOM	Y Swyddfa Gyfathrebiadau
RAJAR	Ymchwil Cyd-gynulleidfa Radio
SCBA	Dadansoddiad o'r Manteision a'r Anfanteision Cymdeithasol
SCIO	Sefydliad Corfforedig Elusennol yr Alban
SHMU	Uned Cyfryngau Station House
ToC	Damcaniaeth Newid
TOMS	Themâu, Canlyniadau a Mesurau
UKCRN	Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU
VCSFE	Gwirfoddol a chymunedol, ffydd a menter gymdeithasol
WCRN	Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU

Tudalen gynnwys

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	v
1. Cyflwyniad	1
1.1 Amcanion yr Ymchwil.....	2
1.2 Dull yr Ymchwil.....	3
1.3 Nodiadau Methodolegol.....	5
2. Y cefndir a'r cyd-destun	7
2.1 Adolygiad Llenyddiaeth.....	7
3. Mewnwelediad gan y Sector	12
3.1 Mathau o Orsafoedd.....	13
3.2 Sicrhau Budd Cymdeithasol.....	14
3.3 Mesuriadau presennol o fudd cymdeithasol.....	16
3.4 Rhwystrau i Fesur Budd Cymdeithasol.....	21
3.5 Mesur Budd Cymdeithasol: Anghenion y Sector.....	23
4. Canllawiau Gwerthuso	26
4.1 Arolwg Gwrandawyr.....	29
4.2 Arolwg gwirfoddolwyr.....	37
4.3 Templed Astudiaeth Achos.....	39
4.4 Cyfrifiannell Gwerth Cymdeithasol.....	42
4.5 Damcaniaeth Newid.....	47
5. Gweithredu a Gwaddol	53
6. Casgliadau	54
7. Llyfryddiaeth	55
Atodiad 1 Cwestiynau arolwg gwrandawyr.....	57
Atodiad 2 Dadansoddiad arolwg gwrandawyr.....	61
Atodiad 3 Cwestiynau arolwg o'r sector.....	72
Atodiad 4 Canlyniadau arolwg gwrandawyr.....	77
Atodiad 5 Arolwg Gwirfoddolwyr.....	78
Atodiad 6 Astudiaethau achos enghreifftiol.....	81

Rhestr o dablau

Tabl 4.1: Mesurau Dangosol o Werth Cymdeithasol mewn Radio Cymunedol	44
Tabl 4.2: Gwerth amser ar yr awyr i sefydliadau VCSFE lleol	46
Tabl 4.3: Damcaniaeth Newid Budd Cymdeithasol Radio Cymunedol	49

Rhestr ffigurau

Ffigur 2.1: Budd cymdeithasol a ddarperir gan radio cymunedol	7
Ffigur 3.1 Math o sefydliad	13
Ffigur 3.2. Sut mae gorsafoedd yn mesur eu budd cymdeithasol	17
Ffigur 3.3 Sut y gwnaeth gorsafoedd sgorio eu profiad o fesur budd cymdeithasol	18
Ffigur 3.4 Amcangyfrif faint o wrandawyr mae gorsafoedd yn eu cael bob mis.....	19
Ffigur 3.5: Rhwystrau i Fesur Budd Cymdeithasol	21
Ffigur 3.6: Anghenion Cefnogaeth o ran Mesur Budd Cymdeithasol.....	23
Ffigur 4.1: Canllawiau ymarferol radio cymunedol – adran symud i werthuso – mae’r dull ymchwil yn seiliedig ar wybodaeth.....	28
Ffigur 4.1 Post Cyfryngau Cymdeithasol X/Twitter Seahaven FM.....	30
Ffigur 4.2 Post Cyfryngau Cymdeithasol Facebook Bro Radio.....	31
Ffigur 4.3: Crynodeb o ganfyddiadau’r arolwg gwrandawyr	32
Ffigur 4.4: Y broses o ddatblygu a dosbarthu arolygon.....	36
Ffigur 4.5: Templed astudiaeth achos.....	40
Ffigur A2.1 Ers faint mae gwrandawyr wedi bod yn gwrando ar eu gorsaf	61
Ffigur A2.2 Pa mor aml mae gwrandawyr yn gwrando ar eu gorsaf	62
Ffigur A2.3 Sut mae gwrandawyr yn cymryd rhan yn eu gorsaf.....	63
Ffigur A2.4 Cymhellion gwrandawyr dros wrando ar eu gorsaf	64
Ffigur A2.5 Cysylltedd a Deall Deilliannau	65
Ffigur A2.6 Canlyniadau Busnesau a Sefydliadau Lleol.....	67
Ffigur A2.7 Deilliannau cyflogaeth a sgiliau	68
Ffigur A2.8 Deilliannau iechyd	69
Ffigur A2.9 Deilliannau Ymgysylltu Diwylliannol	70
Ffigur A2.10 Deilliannau Gwirfoddoli, Ymgysylltu Dinesig a Democrataidd.....	71

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad ac amcanion yr ymchwil

Mae gorsafoedd radio cymunedol yn chwarae rhan bwysig o ran rhoi llais i gymunedau lleol ledled y DU. Maent yn llwyfan i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, gan annog hunaniaeth leol, diwylliant ac ymgysylltu cymdeithasol. Mae'r gorsafoedd hyn yn cael eu gweithredu'n bennaf gan wirfoddolwyr ac maent yn cynnig cymysgedd unigryw o gynnwys wedi'i gynhyrchu'n lleol sy'n adlewyrchu diddordebau ac anghenion amrywiol eu cymunedau targed. Yn ogystal â darparu adloniant, mae radio cymunedol yn cyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol, addysg, cyfranogiad dinesig, a datblygu economaidd lleol.

Er bod budd cymdeithasol yn rhan allweddol o ddiben radio cymunedol, nid oes dull safonol o fesur na ddarparu tystiolaeth ohono o hyd. Mae budd cymdeithasol yn cyfeirio at y canlyniadau cadarnhaol y gall radio cymunedol eu creu i unigolion a chymunedau – fel gwella sgiliau a hyder, cynyddu cyfranogiad cymunedol, rhoi llais i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Prif amcan yr ymchwil, a gomisiynwyd gan Ofcom, oedd awgrymu dull gweithredu sy'n ymarferol i orsafoedd radio cymunedol fesur a dangos eu manteision cymdeithasol.

Dull yr ymchwil

Er mwyn deall sut gall gorsafoedd radio cymunedol fesur a dangos tystiolaeth o'u budd cymdeithasol, fe wnaethom fabwysiadu dull ymchwil cymysg. Dechreuodd hyn gydag adolygiad llenyddiaeth ac arolwg ar draws y sector o orsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom i ganfod heriau, bylchau a blaenoriaethau allweddol o ran mesur manteision cymdeithasol. Roedd mewnwelediadau o'r ymchwil cychwynnol hwn wedi llywio'r gwaith o ddatblygu set o offer ac adnoddau ymarferol, a ffurfiodd allbynnau'r prosiect.

Adolygu llenyddiaeth

Datgelodd yr adolygiad llenyddiaeth gorff cyfoethog a chynyddol o lenyddiaeth ar radio cymunedol mewn cyd-destunau rhyngwladol, yn enwedig yn India ac Awstralia. Fodd bynnag, mae astudiaethau penodol i'r DU yn parhau i fod yn gyfyngedig. Yn bwysig, ni ddylid gweld y diffyg tystiolaeth gyhoeddedig ar yr enillion cymdeithasol a gyflawnir gan radio cymunedol y DU fel tystiolaeth o ddiffyg effaith - yn hytrach, mae'n tynnu sylw at yr angen am ddulliau mesur mwy cadarn a chyson.

Mae gwybodaeth gan y sector hefyd yn darparu cyd-destun gwerthfawr. Ar hyn o bryd, mae ychydig dros hanner y gorsafoedd yn mesur eu manteision cymdeithasol. Fodd bynnag, mae arbenigedd yn amrywio gyda dim ond 25% yn ystyried eu hunain yn brofiadol iawn. Mae cyfran debyg hefyd heb hyfforddiant ffurfiol na phrofiad mewn mesur budd cymdeithasol ymysg staff a gwirfoddolwyr.

Mae gorsafoedd hefyd yn wynebu ystod eang o ofynion adrodd gan gyllidwyr — mae rhai yn gofyn am astudiaethau achos ansoddol, mae eraill yn ceisio data canlyniadau strwythuredig, ac nid yw rhai yn nodi sut y dylid dangos tystiolaeth o fudd cymdeithasol. Er bod rhai

cyllidwyr yn canolbwyntio ar fuddion oddi ar yr awyr megis addysg neu ymgysylltu â'r gymuned, mae eraill yn blaenoriaethu cyrhaeddiad ar yr awyr neu fudd cymunedol cyffredinol.

Mae cyfyngiadau gweithredol yn her allweddol. Mae llawer o orsafoedd yn dibynnu'n fawr ar wirfoddolwyr ac yn gweithredu o fewn terfynau ariannol tynn. O ganlyniad, yn aml nid oes ganddynt yr amser, y staff na'r adnoddau i flaenoriaethu mesur budd cymdeithasol. Mae casglu adborth gan wrandawyr yn her benodol, yn enwedig yn absenoldeb rolau neu systemau pwrpasol i gefnogi'r gwaith hwn.

Arweiniad gwerthuso ar gyfer gorsafoedd

Gan ddefnyddio canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth a mewnwelediadau o'r sector, rydym wedi datblygu pum offeryn i helpu gorsafoedd i ddeall, cofnodi a chyfleu'n well y gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud:

1. Arolygon Gwrandawyr

Mae arolygon gwrandawyr yn helpu gorsafoedd radio cymunedol i ddeall eu cynulleidfaoedd, asesu ymgysylltiad, a chasglu tystiolaeth o ganlyniadau cymdeithasol fel cysylltiad â'r gymuned, mynediad at wybodaeth leol, a chynhwysiant. Mae'r arolwg gwrandawyr a dreialwyd ar gyfer yr ymchwil hwn yn dangos potensial y dull hwn o gasglu gwybodaeth am arferion gwrandawyr a'r manteision cymdeithasol sy'n deillio o wrando. Mae hefyd yn nodi anghenion cymorth gorsafoedd i'w galluogi i weithredu'r dull hwn yn effeithiol.

2. Arolwg Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr yn ganolog i weithrediadau radio cymunedol a manteision cymdeithasol, ond yn aml nid yw eu profiadau'n cael eu cofnodi'n ddigonol mewn astudiaethau gwerthuso ac ymchwil. Mae arolwg gwirfoddolwyr pwrpasol wedi cael ei gynhyrchu gan yr ymchwil hon i fynd i'r afael â'r bwlch hwn. Mae'r arolwg gwirfoddolwyr yn adnodd ymarferol i fesur cyfraniadau amrywiol a chanlyniadau personol gwirfoddoli, gan gynnwys datblygu sgiliau, gwella llesiant, a gwell cysylltiad cymunedol, yn ogystal â chefnogi gorsafoedd i gryfhau cymorth a chynhwysiant i wirfoddolwyr.

3. Templed Astudiaeth Achos

Mae templed astudiaeth achos syml a hyblyg wedi cael ei greu i helpu gorsafoedd i gofnodi a chyfleu straeon diddorol am eu buddiannau cymdeithasol. Wrth ddefnyddio'r templed ar raddfa fawr ar draws y sector, mae gan hyn y potensial i greu cronfa o astudiaethau achos i gefnogi dadansoddiad thematig manylach ar draws amrywiaeth o feysydd budd cymdeithasol.

4. Cyfrifiannell Gwerth Cymdeithasol

Mewn ymateb i adborth gan y sector, mae cyfrifiannell gwerth cymdeithasol syml a hygyrch wedi cael ei chreu i helpu gorsafoedd radio cymunedol i fesur a chyfleu eu budd cymdeithasol gan ddefnyddio technegau prisio credadwy sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol. Mae'r gyfrifiannell yn defnyddio mesurau o'r Fframwaith Mesur Gwerth

Cymdeithasol Cenedlaethol (TOMS)¹ i sicrhau cysondeb a phrasiad economaidd o weithgareddau sy'n ymwneud â sgiliau a chyflogaeth leol a chefnogaeth y trydydd sector.

Mae Damcaniaeth Newid Iefel uchel wedi cael ei darparu i ddangos sut mae gweithgareddau radio cymunedol yn arwain at ganlyniadau cymdeithasol ehangach fel cydlyniant cymunedol, cyflogadwyedd a chyfranogiad dinesig. Mae hyn yn defnyddio'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth a'i nod yw helpu gorsafoedd i fynegi'r canlyniadau cymdeithasol a'r manteision cymdeithasol maen nhw'n eu creu.

Gweithredu a gwaddol

Bydd gweithredu unrhyw un o'r opsiynau neu fabwysiadu'r adnoddau a awgrymir yn gofyn am gytundeb yn y sector ar sut y bwrir ymlaen â hyn. Mae gan rai o'r adnoddau a'r dulliau a amlinellir yn yr ymchwil hwn oblygiadau ariannol. Bydd angen arbenigedd a chapasiti technegol hefyd i gefnogi ymdrechion i gasglu a dadansoddi data a gesglir gan orsafoedd unigol.

O ystyried y bylchau yn y sylfaen dystiolaeth bresennol, mae achos cryf dros sicrhau cyllid ymchwil neu gymorth grant i adeiladu ar yr ymchwil hon a chael dealltwriaeth ddyfnach o'r manteision cymdeithasol a ddarperir gan y sector, ac i brofi a mireinio ymhellach yr offer a'r canllawiau a ddatblygwyd.

¹ Mae Fframwaith TOMS — sy'n sefyll am Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol — yn ddull a ddefnyddir yn eang a ddatblygwyd gan y Porth Gwerth Cymdeithasol i helpu sefydliadau i fesur ac adrodd ar y gwerth cymdeithasol maen nhw'n ei greu.

1. Cyflwyniad

Mae gorsafoedd radio cymunedol yn chwarae rhan bwysig o ran rhoi llais i gymunedau lleol ledled y DU. Maent yn llwyfan i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, gan annog hunaniaeth leol, diwylliant ac ymgysylltu cymdeithasol. Mae'r gorsafoedd hyn yn cael eu gweithredu'n bennaf gan wirfoddolwyr ac maent yn cynnig cymysgedd unigryw o gynnwys wedi'i gynhyrchu'n lleol sy'n adlewyrchu diddordebau ac anghenion amrywiol eu cymunedau targed. Yn ogystal â darparu adloniant, mae radio cymunedol yn cyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol, addysg, cyfranogiad dinesig, a datblygu economaidd lleol.

Mae fframwaith rheoleiddio Ofcom ar gyfer radio cymunedol, a amlinellir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a [Gorchymyn Radio Cymunedol 2004](#), a'r un mwyaf diweddar sef [Gorchymyn Radio Cymunedol 2025](#), yn mynnu bod gorsafoedd yn sicrhau 'budd cymdeithasol', sef manteision amlwg i unigolion a chymunedau y tu hwnt i fuddiannau masnachol. Mae hyn yn cynnwys cynnig hyfforddiant, rhannu newyddion lleol, creu cyfleoedd i wirfoddoli, neu helpu pobl i gymryd rhan yn eu hardal leol.

Er bod budd cymdeithasol yn rhan allweddol o ddiben radio cymunedol, nid oes dull safonol o fesur na ddarparu tystiolaeth ohono o hyd. Mae termau fel gwerth cymdeithasol, budd cymdeithasol ac effaith gymdeithasol yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol â budd cymdeithasol. Rydym yn dilyn Ofcom a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) o ran eiriol dros ddefnyddio'r term 'budd cymdeithasol' yn gyson ar draws y sector i hyrwyddo eglurder, cymaroldeb a chyd-ddealltwriaeth.

Cafodd yr ymchwil hon ei harwain gan Wavehill gyda chymorth amrywiaeth o arbenigwyr yn y sector, gan ddefnyddio perthnasoedd sefydledig a gwybodaeth leol i sicrhau perthnasedd ac ymgysylltiad â'r sector. Roedd hyn yn cynnwys cydweithio â Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU (UKCRN) a oedd, ynghyd â'r Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol (CMA) a Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru, yn gweithredu fel grŵp cyfeirio a oedd yn cynnig adborth a chynghor drwy gydol y prosiect.

Rhannodd y grŵp enghreifftiau a thystiolaeth ddefnyddiol o'u gwaith eu hunain, ac roeddent yn gwneud yn siŵr bod y dull ymchwil yn adlewyrchu profiadau go iawn gorsafoedd ar draws y sector. Roedd cyfraniad y sefydliadau hyn wedi helpu i hwyluso ymrwymiad a chyrhaeddiad cryf gan y sector. Yn benodol, fe wnaethant helpu gyda'r canlynol:

- Hwyluso cyrhaeddiad i amrywiaeth eang o orsafoedd radio cymunedol ledled y DU, gan arwain at gyfradd ymateb gadarnhaol i'r arolwg ar draws y sector.
- Cefnogi'r broses o recriwtio i'r Grŵp Cyfeirio a helpu i hwyluso ymgysylltu ar draws y sector drwy gydol y prosiect.
- Cyfrannu'n uniongyrchol at ddylunio a datblygu'r fframwaith mesur buddiannau cymdeithasol, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu realiti darparu gorsafoedd.

Roedd y tîm ymchwil hefyd yn cynnwys mewnbwn academiaidd gan Dr Alison Hulme (Athro Cyswllt ym Mhrifysgol Northampton), a arweiniodd yr adolygiad o'r dystiolaeth bresennol ar fanteision cymdeithasol radio cymunedol. Helpodd y mewnbwn hwn i lunio sylfaen ddamcaniaethol y fframwaith effaith, gan ei wreiddio mewn dealltwriaeth ehangach o fudd cymdeithasol yn y cyfryngau lleol a datblygiadau cymunedol.

1.1 Amcanion yr Ymchwil

Prif amcan yr ymchwil oedd awgrymu dull gweithredu sy'n ymarferol i orsafoedd radio cymunedol fesur a dangos eu buddiannau cymdeithasol. Er gwaethaf ei bwysigrwydd o ran ceisiadau am gyllid ac ymdrechion i gynyddu cyfranogiad cymunedol, nid oes fframwaith safonol ar hyn o bryd i werthuso buddiannau cymdeithasol yn y sector radio cymunedol.

Nod yr ymchwil hwn oedd llenwi'r bwlch hwnnw drwy nodi dulliau ystyrlon ac addasadwy y gall gorsafoedd o bob maint eu defnyddio os ydynt yn dymuno. Fodd bynnag, dylid nodi na fwriedir i'r dulliau a awgrymir fod yn ganllaw diffiniol i gyfarwyddo sut y dylai gorsafoedd radio cymunedol fynd ati i ddangos buddiannau cymdeithasol. Bwriad yr adroddiad yw dangos rhai o'r ffyrdd y gall gorsafoedd fesur buddiannau cymdeithasol a gellir ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu dulliau amgen os bydd gorsafoedd yn dewis gwneud hynny. Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2025. Yn benodol, roedd yr ymchwil yn ceisio:

1. Deall Arferion Cyfredol

- Nodi sut mae gorsafoedd radio cymunedol yn diffinio, yn mesur ac yn rhoi gwybod am fuddiannau cymdeithasol.
- Edrych ar yr heriau y mae gorsafoedd yn eu hwynebu wrth gofnodi eu buddiannau cymdeithasol, gan gynnwys cyfyngiadau ar adnoddau a phroblemau methodolegol.

2. Cynnig Dulliau Mesur a Gwerthuso

- Darparu sail ar gyfer fframwaith y gall gorsafoedd radio cymunedol ei ddefnyddio i ddangos y buddiannau cymdeithasol y maent yn eu creu. Mae'r ymchwil wedi canolbwyntio ar y dulliau canlynol:
 - **Arolwg gwrandawyr** i asesu cyrhaeddiad, ymgysylltiad a manteision tybiedig cynulleidfaoedd.
 - **Dulliau gwerthuso gwirfoddolwyr** i fesur datblygiad sgiliau, hyder a chanlyniadau cyflogadwyedd.
 - **Templed astudiaeth achos safonol** i ddogfennu a dangos enghreifftiau o fuddiannau cymdeithasol.
 - **Cyfrifiannell gwerth cymdeithasol** i fesur manteision cymdeithasol mewn termau ariannol lle bo hynny'n bosibl.²

² Rydym yn cyfeirio ato fel y cyfrifiannell 'gwerth cymdeithasol' gan fod y fframwaith TOMS cenedlaethol yn cyfeirio at 'werth cymdeithasol'. Fodd bynnag, argymhellir bod y term 'budd cymdeithasol' yn cael ei ddefnyddio yn unol â chanllawiau Ofcom a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a

- **Dogfen adolygu llenyddiaeth** i ddarparu adnodd eirioli a chyfeirio ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol.

Bydd gorsafoedd radio cymunedol yn ymwybodol y dylai'r holl waith casglu a phrosesu data gydymffurfio â rheoliadau diogelu data perthnasol, gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Anogir gorsafoedd sy'n defnyddio'r offer hyn i sicrhau bod prosesau cydsynio priodol, mesurau diogelu data, a hysbysiadau preifatrwydd ar waith lle bo angen.

1.2 Dull yr Ymchwil

Er mwyn datblygu dealltwriaeth o sut gall gorsafoedd radio cymunedol fesur a dangos tystiolaeth o'u budd cymdeithasol, mabwysiadwyd dull ymchwil cymysg, gan gynnwys:

1. **Arolwg ar draws y sector** – gwahoddwyd 370 o orsafoedd radio cymunedol wedi'u trwyddedu gan Ofcom i lenwi arolwg a oedd wedi'i ddylunio i gasglu gwybodaeth am sut maent yn asesu eu budd cymdeithasol ar hyn o bryd, y mathau o fuddiannau cymdeithasol maent yn eu darparu, a'r heriau maent yn eu hwynebu wrth fesur ac adrodd ar fudd cymdeithasol.

Cafwyd cyfanswm o 104 o ymatebion, sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 28%. I gefnogi dosbarthu'r arolwg, dosbarthodd y tîm ymchwil [ddatganiad i'r wasg](#) i'r sector. Cafodd hyn ei rannu'n eang drwy lwyfannau ar-lein a chyrrff y sector, sef y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol (CMA), Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru (WCRN), a Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU. Roedd hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect ac yn annog cyfranogiad gan orsafoedd ledled y DU.

2. **Arolwg Gwrandawyr** – dewiswyd pedair gorsaf i ddosbarthu arolwg peilot i wrandawyr, gan helpu i gasglu safbwyntiau cynulleidfaoedd ar rôl a gwerth radio cymunedol yn eu bywydau. Dewiswyd y gorsafoedd hyn ar sail eu hymatebion i'r arolwg ar draws y sector, gan ddangos dull cryf presennol o fesur budd cymdeithasol a pharoddrwyd i gyfrannu ymhellach at yr ymchwil. Mae'r cwestiynau ymchwil a'r dadansoddiad data o'r ymatebion a gasglwyd drwy'r arolwg gwrandawyr i'w gweld yn [Atodiad 1](#) ac [Atodiad 2](#) yr adroddiad hwn.

Roedd y ddwy elfen gyntaf a restrir uchod—yr arolwg ar draws y sector a'r arolwg gwrandawyr—yn rhan o'r dull ymchwil a ddefnyddiwyd i gasglu tystiolaeth a gwybodaeth, ac mae'r eitemau sy'n weddill (offer gwerthuso gwirfoddolwyr, templed astudiaethau achos, a chyfrifiannell gwerth cymdeithasol) yn allbynnau a ddatblygwyd fel rhan o'r pecyn cymorth dilynol ar gyfer gorsafoedd:

3. **Offer Gwerthuso Gwirfoddolwyr** – Datblygwyd cyfres o gwestiynau gwerthuso gwirfoddolwyr y gall gorsafoedd eu defnyddio i olrhain effaith eu cyfleoedd hyfforddi ac ymgysylltu ar sgiliau, hyder a chyflogadwyedd gwirfoddolwyr.

Chwaraeon, gan hyrwyddo cysondeb ar draws y sector, ac felly mae'n cael ei ddefnyddio drwy gydol yr adroddiad oni bai ei fod yn cyfeirio at y gyfrifiannell gwerth cymdeithasol.

4. **Templed Astudiaeth Achos** – Cafodd fframwaith astudiaeth achos safonol ei greu hefyd i helpu gorsafoedd i ddogfennu ac arddangos enghreifftiau go iawn o sut maent yn cyfrannu at fudd cymdeithasol.
5. **Cyfrifiannell Gwerth Cymdeithasol** – Gan ddefnyddio methodolegau a llwyfannau gwerth cymdeithasol presennol, cynhyrchwyd cyfrifiannell gwerth cymdeithasol pwrpasol fel adnodd i helpu gorsafoedd i fesur agweddau ar eu budd cymdeithasol mewn termau ariannol. Nod hyn yw ei gwneud yn haws i orsafoedd radio cymunedol gyfleu eu gwerth i gyllidwyr a/neu randdeiliaid ehangach.

1.3 Nodiadau Methodolegol

Cafodd yr arolwg ar draws y sector lefel gref o ymatebion, gan roi cipolwg gwerthfawr ar arferion presennol gorsafoedd radio cymunedol o ran mesur manteision cymdeithasol ledled y DU. Roedd gan yr arolwg gwrandawyr gyfradd ymateb is na'r disgwyl, yn rhannol oherwydd yr amserlen gyfyngedig a oedd ar gael i gasglu ymatebion. Er ei fod yn dal i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol a dysgu gwerthfawr o'r gorsafoedd dan sylw, ei brif bwrpas oedd profi'r adnodd a dangos yr hyn y gallai ei gynnig, yn hytrach na chasglu data cynrychioliadol.

Yn yr un modd, roedd yr amserlenni ymchwil yn cyfyngu ar faint o astudiaethau achos effaith y gellid eu cynhyrchu. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ddangos potensial y templed a sut y gallai gorsafoedd ei ddefnyddio, yn hytrach nag adeiladu sylfaen dystiolaeth gyflawn. Er bod rhywfaint o ddata wedi cael ei gasglu drwy'r gweithgareddau hyn, y prif nod oedd dangos sut gallai gorsafoedd ddefnyddio'r adnoddau hyn yn y dyfodol, yn hytrach na dylanwadu ar ganfyddiadau craidd yr ymchwil.

1.3.1 Diffiniadau a thermâu

Pwrpas yr ymchwil hwn oedd datblygu canllawiau ymarferol i alluogi gorsafoedd radio i fesur a dangos eu manteision cymdeithasol. Fel y nodir yng Ngorchymyn Radio Cymunedol 2025, mae budd cymdeithasol yn golygu cyflawni, mewn perthynas â'r gymuned y mae'r gwasanaeth yn bwriadu ei gwasanaethu, neu mewn perthynas ag aelodau eraill o'r cyhoedd, yr amcanion canlynol:

- a) darparu gwasanaethau darlledu sain i unigolion nad ydynt fel arall yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan wasanaethau o'r fath,
- b) hwyluso trafod a mynegi barn,
- c) darparu (boed drwy gyfrwng rhaglenni a gynhwysir yn y gwasanaeth neu fel arall) addysg neu hyfforddiant i unigolion nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y person sy'n darparu'r gwasanaeth,
- d) deall y gymuned benodol yn well a chryfhau cysylltiadau yn y gymuned honno.

Gallai hefyd gynnwys cyflawni amcanion eraill o natur gymdeithasol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- a) cyflenwi gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill o natur gymdeithasol a dosbarthu'n gynyddol ac yn ehangach y wybodaeth am y gwasanaethau hynny ac am amwynderau cymdeithasol;
- b) hyrwyddo datblygiad economaidd a mentrau cymdeithasol;
- c) hyrwyddo cyflogaeth;
- d) hyrwyddo cyfleoedd er mwyn ennill profiad gwaith;
- e) hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol;
- f) hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol;
- g) hyrwyddo cyfranogiad dinesig a gwirfoddoli.

Fodd bynnag, defnyddir termau eraill hefyd i gyfeirio at fuddiannau cymaradwy, yn enwedig gwerth cymdeithasol, gwerth cyhoeddus a budd cymdeithasol. Er bod y termau hyn yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, mae'n ddefnyddiol i orsafoedd radio cymunedol ddeall y gwahaniaeth rhwng y rhain, yn enwedig pan fydd darpar gyllidwyr a buddsoddwyr yn cyfeirio at y rhain yn benodol.


- Gwerth Cymdeithasol: mae'n cynnwys yr holl gostau a manteision sylweddol sy'n effeithio ar les a llesiant y boblogaeth, nid dim ond effeithiau ar y farchnad. Er enghraifft, mae effeithiau amgylcheddol, diwylliannol, iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder a diogelwch wedi'u cynnwys. ([Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF 2022](#))
- Manteision Cymdeithasol: manteision i unigolion neu weithredwyr ar y cyd yn y gymuned sy'n gwella eu bywydau'n gymdeithasol, yn ddiwylliannol neu'n economaidd, neu o ran datblygiad, grymuso a/neu lesiant, na fyddai wedi digwydd fel arall. ([Nexus Research Cooperative](#))
- Dadansoddiad Manteision ac Anfanteision Cymdeithasol (SCBA): ffordd o fynegi gwerth polisi arfaethedig gan y llywodraeth i gymdeithas. Mae'n ceisio mynegi anfanteision cymdeithasol llawn a manteision cymdeithasol llawn polisiâu mewn termau ariannol fel y gellir cymharu canlyniadau ystod amrywiol o bolisiâu gan ddefnyddio metrig cyffredin. Mae'r manteision a'r anfanteision cymdeithasol llawn yn mynd y tu hwnt i ganlyniadau ariannol y polisi. Rhaid cynnwys effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach yn yr asesiad cyn belled ag y bo modd. Mae'r effeithiau ehangach hyn yn aml yn llawer anoddach eu hasesu. Ni ellir casglu gwerth llawn nwyddau fel sefydlogrwydd iechyd, teuluol a chymunedol, llwyddiant addysgol, nac asedau amgylcheddol o brisiau'r farchnad yn unig. ([Technegau Prisio ar gyfer Dadansoddi Manteision ac Anfanteision Cymdeithasol](#)).

Mae ymwybyddiaeth o [Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus \(Gwerth Cymdeithasol\) \(2013\)](#) hefyd yn ddefnyddiol i orsafoedd radio cymunedol sy'n ceisio sicrhau cymorth ariannol gan sefydliadau'r sector cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad sector cyhoeddus a'u cyflenwyr edrych y tu hwnt i gost ariannol contract i ystyried sut gall y gwasanaethau y maent yn eu comisiynu a'u caffael wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ardal.

2. Y cefndir a'r cyd-destun

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r llenyddiaeth a gyhoeddwyd. Y bwriad yw darparu adnodd i orsafoedd radio cymunedol ei ddefnyddio a chyfeirio ato mewn ceisiadau i gyllidwyr a buddsoddwyr. Gall gweithredu'r adnoddau a'r dulliau a amlinellir yn yr adroddiad ddarparu cyfleoedd i gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth hon mewn ffordd gydlynol a systematig. Mae corff cyfoethog a chynyddol o lenyddiaeth ar radio cymunedol y tu allan i'r DU, gydag astudiaethau a sylwebaethau o gyd-destunau India ac Awstralia yn arbennig o gyffredin. Fodd bynnag, mae llenyddiaeth sy'n ymwneud yn benodol â radio cymunedol yn y DU yn brin o'i chymharu. Mae eithriadau nodedig dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys '[Listening Locally Across the UK](#)' ac astudiaeth [Marsh \(2020\)](#) o effaith darlledu sain digidol ar raddfa fach. Mae'r sylfaen dystiolaeth wedi'i strwythuro'n bedair thema allweddol fel yr amlinellir yn Ffigur 2.1 isod.

Ffigur 2.1: Budd cymdeithasol a ddarperir gan radio cymunedol



2.1 Adolygiad Llenyddiaeth

Er iddo gael ei gynnal dros ddegawd yn ôl, mae astudiaeth [Llywodraeth yr Alban \(2010\)](#) yn werthfawr, ac er nad yw wedi'i leoli yn y DU, mae adroddiad Awdurdod Darlledu Iwerddon (2020) '[Community Radio: Delivering Social Benefit](#)' hefyd yn ddefnyddiol ac yn berthnasol iawn i gyd-destun y DU. Mae'r rhan fwyaf o'r erthyglau a'r astudiaethau presennol sy'n seiliedig ar gyd-destun y DU yn tueddu i ganolbwyntio ar agwedd benodol ar radio cymunedol, fel ei allu i fynd i'r afael â materion llesiant, yn hytrach na darparu astudiaethau

achos o orsafoedd penodol. Mae hyn yn wahanol i'r amrywiaeth gyfoethog o astudiaethau sy'n seiliedig ar orsafoedd radio cymunedol penodol yn India, Awstralia, ac i ryw raddau yn yr Unol Daleithiau.

2.1.1 Thema: 1. Cyflogaeth a'r Economi

Mae llawer o orsafoedd radio cymunedol yn y DU yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a phrofiad gwaith. Mae prosiectau radio cymunedol yn galluogi aelodau o'r gymuned i ddysgu sgiliau newydd mewn meysydd technegol, gweinyddol, newyddiadurol a chreadigol. Mae tystiolaeth anecdotaidd bod cyfleoedd o'r fath yn aml yn arwain at gyflogaeth a gyrfaedd cyflogedig yn y diwydiant radio a'r tu allan iddo. Yn fwy cyffredinol, mae gwaith o'r tu allan i'r sector yn tynnu sylw at y cyfraniad gwerthfawr y mae profiad gwaith o ansawdd yn ei wneud i gefnogi symudedd cymdeithasol a galluogi talent i ffynnu ([Waite et al., 2024](#)).

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod radio'n fwy cyffredinol yn effeithiol o ran ailgysylltu pobl ifanc yn benodol ag addysg a chyflogaeth. Yng nghyd-destun y DU, mae ymchwil [Podkalicka a Staley \(2009\)](#) gyda Youthworx yn dangos sut mae pobl ifanc yn cael eu grymuso i ddod yn ddinasyddion mwy gweithredol drwy ennill sgiliau cyfryngau gwerthfawr. Daw [Bloustien, et al \(2008\)](#) i gasgliadau tebyg yng nghyd-destun Awstralia. Felly, rhan o waith yr adroddiad hwn yw helpu gorsafoedd radio cymunedol i ddangos y cysylltiad rhwng y cyfleoedd a gynigir, yr wybodaeth a ddarperir gan radio cymunedol, a chynnydd mewn gwaith â thâl ar ran gwrandawyr a gwirfoddolwyr.

Mae hyn yn tynnu sylw at botensial radio cymunedol fel llwybr dibynadwy i gyflogaeth, datblygu sgiliau a symudedd cymdeithasol—yn enwedig ar gyfer unigolion sy'n wynebu rhwystrau i fathau mwy traddodiadol o hyfforddiant neu waith.

2.1.2 Thema: 2. Iechyd a Llesiant

Mae sawl ffordd y gall radio cymunedol effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a llesiant aelodau'r gymuned. Yn gyntaf, gall gorsafoedd radio cymunedol chwarae rhan hanfodol a lleol iawn wrth ledaenu gwybodaeth am iechyd. Fel y dengys yr adroddiad '[Gwrandu'n Lleol](#)', mae ymddiriedaeth mewn gwybodaeth am iechyd a glywir ar radio cymunedol yn uchel, ond yn bwysig, felly hefyd y tebygolrwydd o weithredu arni o'i chymharu â phan glywir hi mewn mannau eraill. Canfuwyd yr un peth yng nghyd-destun yr Unol Daleithiau (gweler [Smith et al, 2011](#)). Mae gorsafoedd cymunedol mewn sefyllfa unigryw i ddefnyddio'r ffactor ymddiriedaeth sydd ganddynt, i feithrin cysylltiadau rhwng y cyhoedd a darparwyr gofal iechyd lle nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd.

Yn ail, gellir gwella iechyd aelodau'r gymuned drwy fynd i ddigwyddiadau cymdeithasol sy'n cael eu hysbysebu gan yr orsaf. Mae hyn yn helpu i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a meithrin ymdeimlad o le. Daw hyn yn gryf iawn yng nghyd-destun Awstralia (gweler [Meadows a Foxwell, 2011](#)), ac yn fwy diweddar yng nghyd-destun y DU (gweler [Hulme, 2024](#)). Ceir corff o ymchwil sy'n archwilio gwerth cymdeithasol digwyddiadau cymunedol, y mae'r sector radio cymunedol yn cyfrannu'n helaeth atynt. Mae enghreifftiau'n cynnwys yr adolygiad llenyddiaeth ar werth cymdeithasol digwyddiadau cymunedol ([Smith et al., 2021](#)) a'r adroddiad 'Pŵer Digwyddiadau' ([Vine ac Oveson, 2024](#)) a gomisiynwyd ill dau gan Spirit of 2012.

Yn olaf, gall bod yn rhan o redeg yr orsaf fod yn ffynhonnell gyfoethog o ryngweithio a chydlyniant cymdeithasol a all greu budd enfawr i iechyd a llesiant. Gweler er enghraifft adroddiad 'Time Well Spent' NCVO (Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol) ([Jochum et al., 2019](#)), sy'n canfod bod dros dri chwarter y gwirfoddolwyr (77%) wedi dweud bod gwirfoddoli wedi gwella eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Roedd y budd hwn yn fwy eang na manteision iechyd corfforol, ond roeddent hefyd yn gadarnhaol iawn (53%).

Mae radio cymunedol yn cefnogi iechyd a llesiant drwy rannu gwybodaeth leol a dibynadwy am iechyd a thrwy feithrin cysylltiad cymdeithasol a chyfranogiad gwirfoddolwyr sy'n mynd i'r afael ag arwahanrwydd ac yn gwella llesiant meddyliol.

2.1.3 Thema: 3. Gwirfoddoli, Ymgysylltu Dinesig a Democratiaeth

Ceir cyfoeth o dystiolaeth sy'n profi effaith gadarnhaol gwirfoddoli ar yr unigolion hynny sy'n ei wneud ac ar gymdeithas yn fwy cyffredinol ([Jochum et al., 2019](#)). Does dim rheswm i feddwl bod hyn yn wahanol o ran gwirfoddoli mewn gorsaf radio gymunedol. Un enghraifft dda yw astudiaeth [Kyneswood \(2014\)](#) o 14 o wirfoddolwyr ifanc yn darlledu mewn gorsaf radio gymunedol yn y DU, yr ymgysylltodd â nhw am dri mis gan ddefnyddio blogiau a chyfweiliadau grŵp yn rheolaidd. Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar wirfoddoli a dysgu, gan dynnu sylw at sut roedd gwirfoddolwyr ifanc yn dylanwadu'n weithredol ar eu dysgu eu hunain drwy'r ffyrdd roeddent yn dewis cymryd rhan. Canfu hefyd fod y bobl roeddent yn rhyngweithio â nhw, a'r amgylchedd ffisegol, yn chwarae rhan bwysig wrth lunio eu profiadau dysgu.

Mae hyn yn awgrymu bod gwirfoddoli mewn gorsaf radio gymunedol wedi rhoi rhywfaint o rym i'r gwirfoddolwyr gan ei bod yn amlwg eu bod yn gallu gweithredu i siapia eu dysgu. Gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y rhan fwyaf o orsafoedd radio cymunedol felly mae'r budd cymdeithasol cadarnhaol yn y maes hwn yn enfawr, ond nid yw wedi cael ei fesur eto mewn termau meintiol. Mae astudiaethau eraill hefyd wedi dangos effeithiolrwydd dysgu o ran cyfranogiad pobl ifanc yn y cyfryngau.

Mae ymchwil [Chávez a Soep \(2006\)](#) yn arbennig o ddefnyddiol. Mae'n cyflwyno'r cysyniad 'addysgeg colegoldeb' i ddisgrifio'r broses y mae pobl ifanc yn ei defnyddio i weithio ochr yn ochr â chyfoedion ac oedolion sydd â phwrrpas cyffredin. Maent yn dadlau y gall partneriaethau o'r fath alluogi pobl ifanc i greu eu cynrychioliadau diwylliannol eu hunain. Yn yr un modd, mae [Kranich a Patterson \(2008\)](#) yn dadlau y gall partneriaethau o'r fath mewn prosiectau cyfryngau greu cyfleoedd dilys ar gyfer rolau arwain i bobl ifanc ar draws cymunedau.

Sefydlwyd cysylltiadau hefyd rhwng gwrando ar radio cymunedol a chymryd rhan ynddo ac ymgysylltu dinesig a democrataidd cadarnhaol, yn enwedig yng nghyd-destun India. Mae [Gaynor ac O'Brian \(2017\)](#) yn teimlo bod llai wedi cael ei wneud yng nghyd-destun Iwerddon ond bod potensial enfawr i radio cymunedol gael effaith gadarnhaol o ran cyfranogiad mewn arferion a phrosesau dinesig a democrataidd y gallai eu symbylu. Mae'n ddigon posibl bod yr un peth yn wir am y DU.

Mae'r dystiolaeth hon yn tanlinellu gallu unigryw radio cymunedol i feithrin cyfranogiad, dysgu a grymuso dinesig drwy wirfoddoli ystyrlon—yn enwedig ymysg pobl ifanc—gan dynnu sylw ar yr un pryd at yr angen am fesur ei effaith ddemocrataidd ehangach ymhellach.

2.1.4 Thema: 4. Cydgysylltedd a Dealltwriaeth

Yn gyffredinol, mae cysylltiad wedi'i sefydlu rhwng radio cymunedol ac ymdeimlad o gysylltiad a dealltwriaeth rhwng aelodau'r gymuned. Canfu'r astudiaeth Gwrando'n Lleol fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod gwrando ar radio cymunedol lleol wedi gwella eu dealltwriaeth ddiwylliannol. Roedd yn dangos bod 43% yn cytuno, a 13% yn cytuno'n gryf â'r datganiad 'Mae gwrando ar radio lleol wedi gwneud i mi ddeall safbwyntiau pobl eraill yn well' – sy'n profi bod radio cymunedol yn gallu bod yn rhan o weithio at gymuned gydnaws ([Hulme, 2024](#)). Mae hyn yn uniongyrchol berthnasol i amcanion polisi i adeiladu cyfalaf cymdeithasol. Mae ymchwil gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi dangos bod lefelau uwch o gyfalaf cymdeithasol yn fuddiol ac y gellir eu cysylltu â chanlyniadau gwell mewn iechyd, addysg, cyflogaeth ac ymgysylltu dinesig ([OECD, 2021](#)).

Fel yr amlinellwyd mewn adolygiad tystiolaeth a gynhaliwyd gan y [Ganolfan Llefydd Llewyrchus \(2022\)](#), mae perthnasoedd yn bwysig i'n llesiant unigol a chymunedol. Ar lefel unigol, mae teimlo'n agos at eraill yn elfen graidd o lesiant goddrychol personol a llesiant meddyliol. Gall ffactorau fel ymdeimlad o berthyn i gymdogaeth helpu i amddiffyn pobl rhag effeithiau unigrwydd. Ar lefel gymunedol, y ffactorau ar gyfer 'bod yn dda gyda'n gilydd' yw lle rydyn ni'n byw (lle), ein perthnasoedd (pobl) a llywodraethu (pŵer). Mae perthnasoedd yn ymwneud â chryfder rhwydweithiau a chefnogaeth rhwng pobl mewn cymuned. Ar lefel genedlaethol, mae cael rhywun i ddibynnu arno mewn cyfnodau anodd yn gysylltiedig â gwledydd llesiant uchel.

Ar sail ei hymchwil mewn gorsafoedd radio cymunedol sy'n cael eu harwain gan bobl ifanc, mae Wilkinson yn trafod sut mae rhai lleisiau lleol yn cael eu blaenoriaethu ar yr awyr, tra bod eraill yn cael eu tawelu. Mae hi'n dadlau, drwy ymgysylltu â grwpiau o bobl ifanc hyper-amrywiol mewn rhyngweithiadau ystyrlon o amgylch diddordeb a rennir, bod radio cymunedol yn datblygu perthnasoedd ar draws gwahaniaeth diwylliannol ([Wilkinson, 2019](#)). Mae Peterson hefyd yn dadlau y gall radio cymunedol wneud cymunedau'n fwy cydlynol, oherwydd ei fod yn darparu mannau ar gyfer cyfarfyddiadau ystyrlon lle mae amrywiaeth yn cael ei negodi'n ddiogel ([Peterson, 2016](#)).

Mae tystiolaeth o astudiaethau yn Awstralia yn dangos sut mae radio cymunedol yn galluogi pobl ifanc, yn benodol, i 'leoli eu hunain yn llawnach yng ngwead cymdeithasol a diwylliannol' eu hardal leol ([Baker, 2007](#)). Mae [Bloustien \(2007\)](#) yn cyfeirio at y ffyrdd y mae pobl ifanc yn dod o hyd i fathau newydd o rwydweithio a chydweithio drwy ymwneud â chyfryngau cymunedol, gan ei gwneud yn bosibl iddynt gael mwy o ymdeimlad o gynhwysiant mewn gweithgareddau cymdeithasol, teuluol a diwylliannol. Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc, drwy radio cymunedol, yn negodi ymleiddio drwy ddatblygu cymunedau newydd, arferion newydd, a dod o hyd i ffyrdd newydd o deimlo eu bod yn perthyn.


Yn ogystal â helpu cymunedau cydnaws, mae tystiolaeth gref hefyd fod radio cymunedol yn cael effaith nid yn unig ar ganfyddiad grwpiau ymylol mewn cymunedau, ond ar eu gallu i gael mwy o ymreolaeth dros eu cynrychioliadau eu hunain. Er enghraifft, canfu [Moylan \(2018\)](#) fod radio cymunedol nid yn unig yn siarad â'r gymuned leol y mae ei haelodau'n ei gynhyrchu, ond hefyd â chymunedau lleol (ac ymylol) eraill. Felly, mae'n gallu mynegi safbwynt ehangach, trawswladol.

Mae Moylan yn dadlau bod radio cymunedol nid yn unig yn galluogi rhoi llais i gymunedau hyperleol ac ymylol ond hefyd yn eu galluogi i herio portreadau prif ffrwd o'u cymunedau. Mae hyn oherwydd ei fod yn gallu 'hwyluso a chynhyrchu mynegiadau amgen o hunaniaeth a phrofiad, sydd, yn eu tro, yn negodi ac yn herio disgrifiadau disgrysiol normadol ynghylch hil sydd fel arall yn dominyddu cyfryngau prif ffrwd y DU'. Mae hyn yn hanfodol o ran cydnabod cynnwys lleol, wedi'i greu gan aelodau o'r gymuned leol, sy'n gallu adlewyrchu nid yn unig pwy ydyn nhw, ond pwy ydyn nhw yng nghyd-destun delweddau prif ffrwd o 'nhw'.

Mae radio cymunedol yn meithrin cysylltiadau dyfnach, dealltwriaeth ddiwylliannol, ac ymdeimlad cryfach o berthyn – yn enwedig ar gyfer grwpiau ymylol ac amrywiol – gan gynnig llwyfan pwerus i herio naratifau prif ffrwd a chreu cymunedau cynhwysol a chydlynol.

3. Mewnwelediad gan y Sector

Mae'r adran hon yn cyflwyno **prif ganfyddiadau ein harolwg o'r sector**. Mae'n tynnu sylw at y profiadau, yr heriau a'r blaenoriaethau a nodwyd gan orsafoedd radio cymunedol. Mae'r canfyddiadau'n rhoi mewnwelediad ar sut mae gorsafoedd yn mesur manteision cymdeithasol ar hyn o bryd, y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu wrth wneud hynny, a'r gefnogaeth maen nhw'n teimlo a fyddai'n cryfhau eu dull o fesur budd cymdeithasol. Mae'r wybodaeth hon wedi cyfrannu at ddatblygu ein canllawiau gwerthuso. Mae'r arolwg sector llawn i'w weld yn [Atodiad 3](#).



Strwythur sefydliadol

Mae gorsafoedd radio cymunedol yn amrywio'n fawr o ran strwythur sefydliadol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n ymateb i'r arolwg yn gweithredu fel Cwmnïau Buddiannau Cymunedol neu Gwmnïau Cyfyngedig drwy Warant.



Mesur budd cymdeithasol

Ychydig dros hanner y gorsafoedd sy'n mesur eu budd cymdeithasol. Fodd bynnag, mae arbenigedd yn amrywio gyda dim ond 25% yn ystyried eu hunain yn brofiadol iawn. Mae ychydig dros hanner hefyd heb hyfforddiant ffurfiol na phrofiad mewn mesur budd cymdeithasol ymysg staff a gwirfoddolwyr.



Gofyniad cyllidwr

Mae gorsafoedd yn nodi ystod eang o ofynion gan gyllidwyr, megis astudiaethau achos ansoddol a data canlyniadau strwythuredig. Er bod rhai cyllidwyr yn canolbwyntio ar fudd cymdeithasol oddi ar yr awyr (e.e. addysg ac ymgysylltu â'r gymuned), mae eraill yn gwerthfawrogi cyrhaeddiad ar yr awyr neu nid ydynt yn dangos unrhyw ffafriaeth, ar yr amod bod budd cymunedol yn cael ei ddangos.



Pwysau o ran amser a chapasiti

Mae'r rhan fwyaf o orsafoedd radio cymunedol yn dweud nad oes ganddynt yr amser, y cyllid na'r staff i flaenoriaethu'r gwaith o fesur manteision cymdeithasol, gyda llawer yn dibynnu'n drwm ar wirfoddolwyr ac yn gweithredu o fewn cyfyngiadau ariannol tynn.




Adborth gan wrandawyr

Mae casglu adborth gan wrandawyr yn her allweddol, yn enwedig heb rolau na systemau penodol. Mae grwpiau anodd eu cyrraedd yn wynebu rhwystrau ychwanegol fel allgáu digidol, iaith a materion hygrychedd.

3.1 Mathau o Orsafoedd

Mae canfyddiadau'r arolwg yn datgelu amrywiaeth eang o orsafoedd radio cymunedol o ran eu strwythurau sefydliadol a'u cysylltiadau. Mae Ffigur 3.1 yn dangos bod y rhan fwyaf o orsafoedd (55%) yn elusennau cofrestredig,³ **dywedodd 38% o'r ymatebwyr eu bod yn Gwmnïau Buddiannau Cymunedol, ac mae 6% yn Ymddiriedolaethau Elusennol.** Mae hyn yn dangos bod llawer o orsafoedd radio cymunedol sy'n cael eu trwyddedu gan Ofcom yn gweithredu gyda ffocws elusennol. O'r herwydd, maent eisoes yn darparu adroddiad blynyddol yn amlinellu eu hamcanion elusennol fel rhan o'u hadroddiadau i Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban yn yr Alban neu Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon. Gall hwn fod yn **adnodd na fanteisiwyd arno ar gyfer dangos y budd cymdeithasol** a gynigir gan y gorsafoedd hynny.

Ffigur 3.1 Math o sefydliad



Ffynhonnell: Arolwg o'r Sector Wavehill. N=77

O ran strwythur sefydliadol, **mae'r rhan fwyaf o orsafoedd (88%) yn endidau annibynnol**, gyda dim ond 11% yn gweithredu fel rhan o riant-gwmni ehangach. Mae hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o orsafoedd radio cymunedol yn cadw lefel uchel o annibyniaeth. Yn olaf, **dywedodd 67% o orsafoedd eu bod yn gysylltiedig â chyrff masnach fel y CMA, UKCRN, neu CRN Cymru**, sy'n dangos cysylltiad cryf â rhwydweithiau'r sector. Gallai hyn fod yn gyfle o ran opsiynau yn y dyfodol i weithredu'r dulliau a amlinellir yn yr adroddiad hwn ar draws y sector.

³Mae hyn yn cynnwys Cwmni Cyfyngedig drwy Warant gyda Statws Elusennol a Mudiad Corfforedig Elusennol, sydd ill dau wedi'u cofrestru fel elusennau.

3.2 Sicrhau Budd Cymdeithasol

Gan ddefnyddio ymatebion i'r arolwg o'r sector, mae'r adran hon yn edrych ar sut mae gorsafoedd radio cymunedol yn sicrhau budd cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau ar yr awyr ac oddi ar yr awyr.

3.2.1 Gweithgareddau ar yr Awyr

Darparu newyddion lleol a gwybodaeth



Mae llawer o orsafoedd yn gweithredu fel ffynonellau dibynadwy o newyddion hyperleol, gan gynnig diweddariadau cymunedol, rhestrau digwyddiadau, a chyfweiliadau gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol. Yn ystod cyfnodau o argyfwng, fel pandemig COVID-19, dibynnwyd ar orsafoedd i ddarparu gwybodaeth gywir a hanfodol sydd wedi'i theilwra i anghenion eu cymunedau.

Darlledu i gymunedau sy'n cael eu tanwasanaethu



Mae gorsafoedd radio cymunedol yn bwysig o ran cyrraedd cynulleidfaoedd sy'n aml yn cael eu diystyru gan gyfryngau prif ffrwd. Mae llawer o orsafoedd yn darparu ar gyfer cymunedau amrywiol, fel poblogaethau amlddiwylliannol, gwrandawyr hŷn, neu'r rheini sydd ag anabledau, gan ddarparu rhaglenni mewn ieithoedd cymunedol a rhoi sylw i bynciau sy'n adlewyrchu pryderon a hunaniaethau lleol.

Lleihau unigedd a hyrwyddo lles



Mae unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn bryderon allweddol sy'n cael sylw gan radio cymunedol. Mae gorsafoedd yn darparu cwmnïaeth, yn enwedig i wrandawyr hŷn a'r rheini nad ydynt yn gallu mynychu gwasanaethau crefyddol neu ddigwyddiadau cymunedol. Mae rhaglenni sy'n cynnwys cerddoriaeth hiraethus, sgysiau anffurfiol a chynnwys llesiant yn helpu i annog cysylltiad a chefnogi iechyd meddwl.

Cefnogi'r celfyddydau a diwylliant lleol



Mae llawer o orsafoedd radio cymunedol yn hyrwyddo cerddorion, theatr, barddoniaeth a'r celfyddydau gweledol yn lleol, gan gynnig sylw y mae allfeydd prif ffrwd yn aml yn ei ddiystyru. Mae gorsafoedd yn rhoi sylw i berfformiadau byw, yn dathlu digwyddiadau diwylliannol, a hyd yn oed yn trosglwyddo rhaglennu i sefydliadau celfyddydol, gan atgyfnerthu eu rôl fel canolbwynt ar gyfer creadigrwydd a threftadaeth leol.

Mynd i'r afael â materion cymunedol



Mae llawer o orsafoedd yn gweithredu fel llwyfan ar gyfer mynd i'r afael â materion lleol a chymdeithasol pwysig. O ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a chyngor ariannol i gymorth tai ac ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus, mae rhaglenni radio'n darparu gwybodaeth ac arweiniad sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau gwrandawyr. Mae rhai gorsafoedd wedi cael eu cydnabod am eu hymdrechion i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a herio eithafiaeth.

3.2.2 Gweithgareddau oddi ar yr Awyr

Gwirfoddoli



Mae llawer o orsafoedd radio cymunedol yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli i bobl lleol, yn enwedig y rheini sy'n chwilio am brofiad gwaith neu yrfaodd yn y cyfryngau. Mae hyn yn cynnwys cynnig hyfforddiant mewn darlledu, rheoli digwyddiadau, newyddiaduraeth a sgiliau technegol. Mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan weithredol ym mhob agwedd ar weithrediadau gorsafoedd, o gyflwyno sioeau i reoli cynnwys a chefnogi digwyddiadau cymunedol.

Allgymorth ac ymgysylltu â'r gymuned



Mae gorsafoedd radio cymunedol yn ymgysylltu'n weithredol â chymunedau lleol drwy raglenni allgymorth a digwyddiadau oddi ar yr awyr. Mae'r mentrau hyn yn aml yn cynnwys cydweithio ag elusennau, cynghorau lleol a darparwyr gwasanaethau. Drwy gynnal digwyddiadau, gweithdai ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, mae gorsafoedd yn cryfhau eu cysylltiad â'r cyhoedd, gan annog ymdeimlad o berthyn a chefnogaeth i achosion lleol.

Digwyddiadau a chodi arian



Mae llawer o orsafoedd radio cymunedol yn trefnu digwyddiadau, sioeau teithiol a gweithgareddau codi arian sy'n dod â phobl at ei gilydd ac yn ennyn cefnogaeth i achosion lleol. Mae'r digwyddiadau hyn nid yn unig yn codi ymwybyddiaeth ond hefyd yn creu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chydweithio.

Partneriaethau a chydweithio



Mae gorsafoedd radio cymunedol yn aml yn ffurfio partneriaethau a chydweithio gwerthfawr â sefydliadau lleol, elusennau, ysgolion a busnesau i wella eu budd cymdeithasol. Mae'r partneriaethau hyn yn galluogi gorsafoedd i gael gafael ar adnoddau, rhannu arbenigedd, ac ehangu eu cryhaeddiad yn y gymuned.



Ymgysylltu ag ieuenctid ac addysg

Mae rhai gorsafoedd radio wedi datblygu perthynas gref â sefydliadau addysgol, gan gynnig lleoliadau i fyfyrwyr sydd â diddordeb yn y cyfryngau a darlledu. Mae'r partneriaethau hyn nid yn unig yn cynnig profiad gwaith gwerthfawr ond hefyd yn helpu pobl ifanc i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau.


3.3 Mesuriadau presennol o fudd cymdeithasol

Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at dirwedd gymysg o ran profiad a chapasiti gorsafoedd radio cymunedol i fesur budd cymdeithasol. **Mae'r rhan fwyaf (56%, 55/99) o orsafoedd yn dangos eu bod ar hyn o bryd yn mesur y budd cymdeithasol** a ddarperir i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, nid yw 34% (34/99) yn gwneud hynny, ac mae 10% (10/99) yn ansicr. Mae hyn yn awgrymu, er bod llawer o orsafoedd yn cydnabod pwysigrwydd gwerthuso eu heffaith, bod cyfran uchel naill ai heb y mecanweithiau i wneud hynny neu heb sefydlu prosesau ffurfiol eto. Mae hyn yn **atgyfnerthu gwerth creu fframwaith** i arwain a chefnogi gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom i fesur a gwerthuso'r manteision neu'r budd cymdeithasol maen nhw'n eu creu.

Ymysg y gorsafoedd sy'n mesur eu budd cymdeithasol, defnyddir amrywiaeth eang o dulliau. Fel y dangosir yn Ffigur 3.2 dros y dudalen, mae'r dulliau mwyaf cyffredin yn cynnwys **tracio nifer y gwirfoddolwyr a'r oriau gwirfoddoli (91%), mynychu digwyddiadau cymunedol (82%), a chefnogi achosion lleol neu arddangos gwaith mudiadau gwirfoddol a chymunedol (69%)**. Mae llawer o orsafoedd hefyd yn canolbwyntio ar ddarparu llwyfannau ar gyfer lleisiau sy'n cael eu tangynrychioli, gyda **69% yn tracio nifer y rhaglenni neu'r eitemau nodwedd sy'n benodol i amrywiaeth a lleisiau newydd**.

Mae dulliau eraill a ddefnyddir yn eang yn cynnwys: mesur nifer y lleoliadau profiad gwaith (64%); munudau ar yr awyr a ddarperir i fudiadau gwirfoddol a chymunedol (64%); ac ymgyrchoedd lleol sy'n annog cyfranogiad cymunedol (58%). Er bod rhai gorsafoedd yn defnyddio mesurau meintiol, fel cyfrif nifer y busnesau lleol sy'n cael eu harddangos (53%) neu raglenni sydd â phwrpas cymdeithasol wedi'i ddiffinio (55%), mae eraill yn defnyddio dulliau ansoddol, fel astudiaethau achos gan wrandawyr (31%) neu arolygon a pholau ar-lein (44%).


Ffigur 3.2. Sut mae gorsafoedd yn mesur eu budd cymdeithasol



Ffynhonnell: Arolwg o'r Sector Wavehill. N=55

Er gwaethaf y dulliau amrywiol hyn, **mae'r data'n awgrymu bod arbenigedd o ran mesur budd cymdeithasol yn parhau i fod yn anwastad ar draws y sector.** Er bod 25% o'r ymatebwyr yn credu bod eu gorsaf yn brofiadol iawn o ran mesur budd cymdeithasol, **mae'r rhan fwyaf yn dweud bod eu profiad naill ai'n gymedrol (37%) neu'n gyfyngedig (30%)** (Ffigur 3.3 isod). Mae hyn yn dangos, er bod sylfaen wybodaeth gref mewn rhai meysydd, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar lawer o orsafoedd i ddatblygu dulliau gwerthuso mwy cadarn.

Ffigur 3.3 Sut y gwnaeth gorsafoedd sgorio eu profiad o fesur budd cymdeithasol



Ffynhonnell: Arolwg o'r sector Wavehill. N=100

Ymddengys mai un her allweddol yw **diffyg hyfforddiant ffurfiol mewn mesur effaith**. Dywedodd dros hanner (56%) yr ymatebwyr nad oedd staff na gwirfoddolwyr yn eu gorsaf wedi cael hyfforddiant nac wedi cael profiad blaenorol o ddulliau o fesur budd cymdeithasol. Mae hyn yn awgrymu bod angen cynlluniau meithrin gallu i gefnogi gorsafoedd i fabwysiadu arferion gwerthuso mwy effeithiol a chyson.

3.3.1 Data Gwrandawyr


Yn yr arolwg o'r sector, dywedodd 66% o'r ymatebwyr (56 gorsaf) fod ganddynt ryw fath o amcangyfrif o nifer eu gwrandawyr, ac nid oedd gan 34% (29 gorsaf) hynny. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu, **er bod llawer o orsafoedd yn ceisio tracio eu cynulleidfa, eu bod yn aml yn defnyddio dulliau anghyson neu nad oes ganddynt lawer o hyder yn eu data**. Wrth asesu sut mae gorsafoedd radio cymunedol yn mesur nifer a phroffil eu gwrandawyr, mae ymatebion i'r arolwg yn dangos bod **y rhan fwyaf o orsafoedd yn wynebu heriau o ran cael gafael ar ddata dibynadwy**.

Mae ymchwil yn dangos y gall gorsafoedd radio cymunedol wynebu heriau neu rwystrau o ran cael gafael ar wasanaethau mesur cynulleidfaoedd ffurfiol fel [RAJAR](#). Er enghraifft, mae adroddiad ‘Cyfryngau'r Genedl’ Ofcom yn datgan bod un orsaf radio cymunedol wedi tanysgrifio i'r gwasanaeth hwn yn 2024⁴. Mae'r rhwystrau canfyddedig hyn yn cyfyngu ar allu gorsafoedd i dracio eu sylfaen gwrandawyr mewn ffordd safonol. Mae hyn yn rhywbeth y mae darpar gyllidwyr a buddsoddwyr yn gofyn amdano'n aml. O ganlyniad, mae llawer o orsafoedd yn dibynnu ar amrywiaeth o ffynonellau data ansafonol, yn aml drwy ffrydiau ar-lein, dadansoddeg cyfryngau cymdeithasol, adborth gwrandawyr, ac arolygon achlysurol.

- 1. Data Ar-lein a Dadansoddeg Ffrydio:** Mae gan lawer o orsafoedd fynediad at ddata o'u ffrydiau ar-lein. Mae hyn yn cynnwys metrigau fel cyfansymiau gwrandawyr dyddiol, wythnosol a misol. Mae rhai gorsafoedd yn tracio ymwelwyr unigryw, dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i wrando (e.e. ffonau clyfar, seinyddion clyfar), a lleoliad daearyddol. Er enghraifft, mae rhai gorsafoedd yn amcangyfrif eu cynulleidfa ar sail nifer y “ffefrynnau” neu'r dilynwyr ar lwyfannau ffrydio fel Tuneln neu gyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid oes gan orsafoedd heb bresenoldeb ar-lein na llwyfan ffrydio ddata o'r fath. Mae gorsafoedd sy'n gallu tracio gweithgarwch ar-lein yn aml hefyd yn dadansoddi data demograffig eu gwrandawyr. Gall hyn gynnwys rhywedd, ystod oedran ac ethnigrwydd.
- 2. Data Sylfaenol (Anecdotaidd ac Arolwg):** Mae llawer o orsafoedd yn casglu data anecdotaidd o ryngweithio gwrandawyr drwy ffonio i mewn, negeseuon a sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol. Mae rhai gorsafoedd yn cynnal arolygon gwrandawyr o bryd i'w gilydd er mwyn deall ymgysylltiad, er bod cwmpas y rhain yn aml yn gyfyngedig.

Mae Ffigur 3.4 isod yn dangos ffigurau gwrandawyr y 49 gorsaf a ddarparodd ddata ar nifer eu cynulleidfaoedd misol. Er bod y rhan fwyaf yn perthyn i'r cromfachau ystod is i ganolig yn ein sampl (22 gorsaf yn adrodd am 10,001 – 49,999 o wrandawyr misol), roedd maint y gynulleidfa'n amrywio o lai na 10,000 i dros 500,000 ar draws y sampl. Mae'r ffigurau a gyflwynir isod yn adlewyrchu'r amrywiaeth ym maint y gynulleidfa ar draws y sector radio cymunedol, wedi'u siapio gan wahaniaethau o ran darpariaeth llwyfannau darlledu, presenoldeb digidol, a chwmpas daearyddol.

Ffigur 3.4 Amcangyfrif faint o wrandawyr mae gorsafoedd yn eu cael bob mis



Ffynhonnell: Arolwg o'r sector Wavehill. N=49

⁴[Ofcom 2024 - 'Cyfryngau'r Genedl:Y DU 2024'](#).

3.3.2 Gofynion Cyllidwyr

Mae gorsafoedd radio cymunedol yn adrodd am amrywiaeth eang o brofiadau a gofynion o ran dangos tystiolaeth o fudd cymdeithasol i gyllidwyr. Er bod yr arolwg yn gofyn i orsafoedd ddisgrifio'r gofynion cyllido roeddent wedi dod ar eu traws, roedd rhai gorsafoedd hefyd yn disgrifio disgwyliadau mwy anffurfiol a oedd yn ddymunol gan gyllidwyr. Mae gorsafoedd yn adrodd y gofynnir iddynt ddarparu data manwl, fel nifer y myfyrwyr neu grwpiau cymunedol sy'n mynychu gweithgareddau, oriau cyfranogi, oriau gwirfoddoli, a gwybodaeth ddemograffig. Ychydig iawn o ddisgwyliadau adrodd ffurfiol a wynebir gan eraill, os o gwbl. Cyfeirir yn aml at niferoedd gwrandawyr fel cais cyffredin, yn enwedig gan hysbysebwr a chyllidwyr yn y sector cyhoeddus.

Amlygodd rhai gorsafoedd fod cyllidwyr yn derbyn tystiolaeth ansoddol fel astudiaethau achos, tystebau cyfranogwyr, neu recordiadau sain, tra gofynnir i eraill am werthusiadau mwy strwythuredig, gan gynnwys adroddiadau cynnydd, canlyniadau a gyflawnwyd, a dysgu o brosiectau. Darparwyd rhaglen [Dechrau'n Ifanc Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Chronfa Effaith Bryste](#) fel enghreifftiau o gyllidwyr a oedd yn gofyn am adroddiadau chwarterol manylach ar weithgareddau, cyfranogwyr, effaith, a chynlluniau yn y dyfodol i'w helpu i asesu effeithiau ar lefel cronfa neu raglen.

Mae nifer o orsafoedd, yn enwedig y rheini sy'n gweithredu ar gyllidebau llai neu'r rheini sy'n dibynnu ar roddion gan wrandawyr, nawdd neu refeniw hysbysebu, yn dweud nad ydynt yn cael llawer o gyllid grant, os o gwbl. O'r herwydd, nid oes ganddynt lawer o brofiad gyda gofynion adrodd ar effaith gan gyllidwyr grantiau. Ar gyfer y rheini sy'n ymgysylltu â chyllidwyr grantiau, mae'r dystiolaeth y gofynnir amdani yn aml yn cynnwys dogfennau llywodraethu, cofnodion ariannol fel cyfriflenni banc neu gyfrifon blyneddol, a dangosyddion ymgysylltu â'r gymuned fel nifer y mudiadau sy'n cael sylw ar yr awyr neu ddigwyddiadau sy'n cael eu hyrwyddo.

Nododd rhai gorsafoedd fod angen data budd cymdeithasol neu addysgol penodol ar rai cyllidwyr, yn enwedig awdurdodau lleol, lle mae cyllid yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgu diffiniedig. Gall y rhain gynnwys tystiolaeth o welliannau mewn llythrennedd neu sgiliau digidol, adborth gan ysgolion ar y cyfraniad at y cwricwlwm neu nodau cyrhaeddiad, a straeon personol am ddilyniant i gyflogaeth neu fwy o hunanhyder.

Nododd gorsafoedd safbwyntiau cymysg ynghylch a yw cyllidwyr yn gwerthfawrogi budd cymdeithasol ar yr awyr neu oddi ar yr awyr yn fwy. Nododd llawer o ymatebwyr fod hyn yn aml yn dibynnu ar natur y cyllid neu flaenoriaethau penodol y cyllidwr. Er bod rhai cyllidwyr yn cydnabod gwerth cynnwys ar yr awyr, roedd ymatebwyr yn teimlo'n fwy cyffredin bod budd cymdeithasol oddi ar yr awyr—fel gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, prosiectau addysgol, datblygu gwirfoddolwyr, a digwyddiadau wyneb yn wyneb—yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy. Mae'r mathau hyn o weithgareddau'n aml yn cael eu hystyried yn haws eu mesur ac yn cyd-fynd yn gliriach â disgwyliadau cyllidwyr o ganlyniadau gweladwy sy'n canolbwyntio ar bobl.


Dywedodd eraill fod cyllidwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar ddarpariaeth ar yr awyr, yn enwedig lle mae grantiau'n gysylltiedig â chynhyrchu cynnwys a chyrhaeddiad cynulleidfaoedd. Fodd bynnag, nododd rhai gorsafoedd nad yw cyllidwyr weithiau'n dangos

unrhyw ffafriaeth benodol rhwng canlyniadau ar yr awyr ac oddi ar yr awyr cyn belled â bod yr orsaf yn gallu dangos budd cymunedol ehangach.

3.4 Rhwystrau i Fesur Budd Cymdeithasol

Roedd yr arolwg o'r sector yn gofyn i orsafoedd radio cymunedol am y rhwystrau roedden nhw'n eu hwynebu wrth fesur y budd cymdeithasol maen nhw'n ei ddarparu i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Amlinellir y prif rwystrau yn Ffigur 3.5 isod, ac amlinellir rhagor o fanylion yn yr adrannau canlynol.

Ffigur 3.5: Rhwystrau i Fesur Budd Cymdeithasol



3.4.1 Cyfyngiadau Adnoddau

Yr her yr adroddir amdani amlaf wrth fesur budd cymdeithasol yw diffyg capasiti. Mae gorsafoedd fel arfer yn cael eu rhedeg gan dimau bach neu'n gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, llawer ohonynt eisoes dan bwysau wrth ddarparu rhaglenni o ddydd i ddydd. Gydag amser, staff a seilwaith cyfyngedig, gellir dadflaenoriaethu mesur budd cymdeithasol yn aml, hyd yn oed pan fydd gorsafoedd yn cydnabod ei werth. Mae'r cyfyngiad hwn yn cael ei waethygu ymhellach gan ddiffyg cyllid, cefnogaeth ac arweiniad penodol.

Mae llawer o orsafoedd yn gweithredu ar gyllidebau tynn ac yn rhwym wrth gyfyngiadau o ran lefel yr incwm y gallant ei gynhyrchu. Er enghraifft, rhaid cydbwyso incwm o dros £15,000 o hysbysebu a nawdd ag incwm ychwanegol o ffynonellau eraill. Ar ôl cyflwyno [Gorchymyn Radio Cymunedol 2025](#), mae'r cyfyngiadau hyn wedi cael eu dileu ar gyfer y rhan fwyaf o orsafoedd radio cymunedol analog. Dim ond nifer fach sy'n dal i fod yn

ddarostyngedig i gap uwch o £30,000 y flwyddyn lle mae eu darpariaeth yn gorgyffwrdd â gorsafoedd masnachol annibynnol bach.

Bwriad y newid rheoleiddiol hwn yw gwella cynaliadwyedd ariannol a gall, dros amser, helpu gorsafoedd i ddyrannu mwy o adnoddau i weithgareddau nad ydynt yn weithgareddau darlledu, fel gwerthuso, casglu data ac adrodd. Serch hynny, mae llawer o orsafoedd yn dal i wynebu cyfyngiadau sylweddol o ran adnoddau, yn enwedig y rheini y mae eu cenadaethau neu eu hamgylchiadau'n cyfyngu ar eu gallu i gynyddu incwm masnachol.

3.4.2 Bylchau Gwybodaeth a Sgiliau

Rhwysr cysylltiedig yw'r wybodaeth a'r sgiliau cyfyngedig ynghylch sut i fesur effaith yn effeithiol. Nododd gorsafoedd yn aml nad oes ganddynt brofiad o ddulliau ymchwil, dadansoddi data, na defnyddio offer digidol i dracio ymgysylltiad. Er bod diddordeb cryf mewn dysgu sut i wneud hyn yn well, mynegodd llawer o orsafoedd ansicrwydd ynghylch beth mae mesur budd cymdeithasol yn ei olygu a sut i'w weithredu mewn ffordd ymarferol. Mae'r bwlch gwybodaeth hwn yn ymestyn i ddefnyddio canfyddiadau gwerthuso, gyda rhai gorsafoedd yn dweud nad ydynt yn siŵr sut mae dehongli'r data maen nhw'n ei gasglu na sut mae ei drosi'n dystiolaeth ar gyfer rhanddeiliaid, cyllidwyr neu reoleiddwyr. Cyfeiriodd rhai ymatebion hefyd at ddiffyg hunanhyder neu barodrwydd i gymryd rhan mewn dysgu sut i werthuso effaith, yn enwedig ymhlith gwirfoddolwyr unigol.

Tynnodd nifer o orsafoedd sylw at ddiffyg diffiniad clir a rennir o 'fudd cymdeithasol' fel mater craidd. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio termau sy'n aml yn gyfnewidiol, gan gynnwys 'effaith gymdeithasol', 'manteision cymdeithasol' a 'budd cymdeithasol'. Heb ddealltwriaeth y cytunwyd arni o'r hyn sy'n cael ei fesur, fe wnaethant nodi y gall fod yn anodd cynllunio neu weithredu prosesau gwerthuso. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i egluro ystyr budd cymdeithasol ac yn cefnogi gorsafoedd unigol i'w fabwysiadu'n gyson ar draws y sector i hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ac effaith gryfach ar draws y sector.

Mae rhai hefyd yn cael trafferth nodi methodolegau priodol a chywir, neu ble i ddechrau datblygu dull mesur. Nodwyd bod angen arweiniad neu gyfeiriad hefyd er mwyn galluogi gorsafoedd i ddewis yr offer neu'r dulliau cywir ar gyfer eu hamcanion mesur. O fewn hyn, er bod rhai offer ac adnoddau am ddim ar gael i'w defnyddio, mae gan eraill drwydded neu gost defnyddiwr sy'n gallu bod yn afresymol i orsafoedd.

3.4.3 Heriau o ran Ymgysylltu â'r Gymuned

Nododd gorsafoedd ei bod yn anodd casglu adborth gan wrandawyr a chymunedau mewn ffordd strwythuredig a pharhaus heb rolau na systemau penodol ar waith. Mae llawer o wirfoddolwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar greu cynnwys ac efallai nad oes ganddynt yr amser, yr hyder na'r adnoddau i hwyluso ymgysylltu ystyrion na thracio canlyniadau eu gwaith. O ganlyniad, mae'r sector yn ei chael hi'n anodd casglu data cyson a dibynadwy ar ei fudd cymdeithasol, er gwaethaf cydnabyddiaeth eang y gallai tystiolaeth o'r fath helpu gorsafoedd i eirioli'n well dros eu gwerth a sicrhau cynaliadwyedd tymor hir. Fel arfer, gellir cyfyngu adroddiadau ar weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned i amcangyfrifon o nifer y bobl sy'n mynychu digwyddiadau penodol yn hytrach na'r budd cymdeithasol a'r effeithiau sy'n deillio o'u presenoldeb a'u cyfranogiad.


Mae hyn yn arbennig o wir am grwpiau neu gymunedau anodd eu cyrraedd sydd â mynediad digidol cyfyngedig. Mae'r rhwystrau'n cynnwys amharodrwydd i gymryd rhan, diffyg amser, a chyfyngiadau ymarferol fel iaith, llythrennedd neu faterion hygrychedd.

Gan fod gorsafoedd radio cymunedol yn cynnwys cynulleidfaoedd amrywiol iawn, o wahanol oedrannau, diwylliannau, daearyddiaeth ac anghenion, mae'n bwysig bod unrhyw adnoddau neu ddulliau a ddefnyddir i gasglu adborth yn hyblyg ac yn gynhwysol. Gall teilwra dulliau i'r cyd-destunau a'r cymunedau penodol y mae pob gorsaf yn gweithio gyda nhw helpu i wella mynediad, lleihau rhwystrau, ac osgoi data sy'n gwyro tuag at y grwpiau mwyaf hygrych. Gall hyn, yn ei dro, arwain at ddarlun mwy cywir a chynrychioladol o fudd cymdeithasol pob gorsaf.

3.5 Mesur Budd Cymdeithasol: Anghenion y Sector

Mae ymatebion gan orsafoedd yn tynnu sylw at ddiddordeb cryf mewn gwella arferion mesur budd cymdeithasol ar draws y sector. Mae'r cymorth a ddymunir yn cynnwys cyfuniad o hyfforddiant strwythuredig, adnoddau hygrych, fframweithiau mesur safonol y diwydiant, ac adnoddau ychwanegol i helpu gorsafoedd i gofnodi eu budd cymdeithasol heb lethu eu capasiti sydd eisoes dan bwysau. Yn bwysig, mae gorsafoedd hefyd am gael cyfleoedd i gydweithio a rhannu gwybodaeth, gan sicrhau nad ydynt yn gweithio ar eu pen eu hunain ond yn elwa ar brofiad ar y cyd ar draws y sector a gyda sectorau eraill (er enghraifft y sector academaidd).

Ffigur 3.6: Anghenion Cefnogaeth o ran Mesur Budd Cymdeithasol



3.5.1 Hyfforddiant mewn Mesur a Gwerthuso Effaith

Nododd llawer o orsafoedd fod angen hyfforddiant strwythuredig arnynt ar sut i fesur a gwerthuso budd cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys dysgu am ddulliau ymchwil meintiol ac ansoddol, fel arolygon, cyfweiliadau manwl, grwpiau ffocws, ac astudiaethau achos. Mae galw hefyd am weithdai ymarferol ar sut i gasglu, dadansoddi a chyflwyno data mewn ffyrdd sy'n cyfleu budd cymdeithasol yr orsaf yn effeithiol. Soniodd rhai gorsafoedd, er eu bod eisoes yn cofnodi agweddau ar fudd cymdeithasol, eu bod yn cael trafferth ffurfioli a safoni eu dull gweithredu.

Ymhellach, nodwyd hyfforddiant ar adrodd ar fudd cymdeithasol yn aml. Roedd hyn yn cynnwys trosi canfyddiadau yn adroddiadau sy'n werthfawr i gyllidwyr, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr. Mae gorsafoedd eisiau cymorth i ddeall sut mae troi eu data'n dystiolaeth neu'n eiriolaeth gymhellol sy'n eu helpu i sicrhau cyllid ac incwm. Mae angen arweiniad arnynt hefyd ar ddangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion Ofcom: o dan eu trwyddedau, rhaid i bob gorsaf ddarparu gwasanaeth sy'n cyflawni'r "amcanion budd cymdeithasol" a nodir yn ei Phrif Ymrwymadau.⁵

3.5.2 Fframweithiau Safonol

Mynegodd sawl gorsaf yr angen am fframwaith clir, safonol yn y diwydiant, ar gyfer mesur budd cymdeithasol. Mae llawer eisiau arweiniad ar sut i fodloni gofynion budd cymdeithasol Ofcom ([Ofcom, 2024](#)), gan gynnwys arferion gorau ar gyfer dogfennu ac adrodd. Byddai methodoleg gyson a chydabyddedig yn darparu eglurder ac yn sicrhau bod pob gorsaf yn gweithio o fewn strwythur y cytunwyd arno. Nod yr ymchwil hwn yw darparu sylfaen ar gyfer fframwaith i gefnogi dull gweithredu mwy unedig ar draws y sector.

Mae rhai gorsafoedd yn awgrymu y byddai canllawiau neu dempled strwythuredig yn ddefnyddiol, gan eu helpu i gofnodi ac adrodd am fudd cymdeithasol mewn ffordd sy'n cydfynd â disgwyliadau rheoleiddio. Mae eraill yn nodi, heb fframwaith y cytunwyd arno, y gall gorsafoedd ei chael hi'n anodd cymharu eu heffaith neu egluro eu gwerth i gyrff allanol, gan gynnwys cyllidwyr a phartneriaid posibl. Byddai fframwaith safonol hefyd yn darparu cyfleoedd i gyfuno data ar lefel sector, a allai gefnogi gwaith eiriolaeth gan gyrff y sector i sicrhau buddsoddiad strategol ar lefel sector cyfan.

Yn benodol, gallai tystiolaeth gref o fudd cymunedol helpu i sicrhau a chynyddu dyraniadau o'r [Gronfa Radio Cymunedol](#), ac agor ffrydiau cyllido newydd gan adrannau'r llywodraeth ar wahân i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gallai hyn gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau (drwy allgymorth cyflogaeth a sgiliau), yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (ar gyfer addysg iechyd y cyhoedd), yr Adran Addysg (ar gyfer rhaglenni ieuencid a dysgu), y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (drwy gydlyniant cymunedol a chymorth tai) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (drwy gynlluniau cynhwysiant yn y sector cyfiawnder). Gan ddangos cysylltiadau clir rhwng gweithgareddau gorsafoedd ac amcanion polisi ehangach, byddai gorsafoedd mewn sefyllfa well i gyflwyno'r achos dros fuddsoddiad strategol.

⁵ [Ofcom \(2024\)](#)

3.5.3 Offer Digidol a Dadansoddeg Data er mwyn Mesur Budd Cymdeithasol

Mae llawer o orsafoedd yn cydnabod potensial **offer dadansoddeg ddigidol** i'w helpu i fesur budd cymdeithasol, ond mae angen hyfforddiant a chymorth arnynt i'w defnyddio'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Dadansoddeg cyfryngau cymdeithasol** i asesu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad cynulleidfaoedd.
- **Tracio data gwrandawyr**, yn enwedig ar DAB+, lle mae rhai gorsafoedd yn ei chael hi'n anodd mesur pwy sy'n gwrandao yn gywir.
- **Systemau arolygon ac adborth** i gasglu mewnbwn strwythuredig gan eu cynulleidfa.
- **Dangosfyrddau effaith** sy'n cyflwyno data budd gymdeithasol yn weledol mewn fformat hygrych.

Mae rhai gorsafoedd eisoes yn defnyddio offer fel meddalwedd [Evide](#), ac eraill angen arweiniad ar ddewis a gweithredu'r llwyfannau gorau ar gyfer eu hanghenion. Yr her i lawer yw dod o hyd i atebion hawdd eu defnyddio, cost-effeithiol lle nad oes angen adnoddau ychwanegol sylweddol i'w cynnal neu lle mae costau trwydded yn rhy uchel.

3.5.4 Dysgu gan Gymheiriaid, Cydweithio a Rhannu Gwybodaeth

Mynegodd gorsafoedd ddiddordeb mewn cydweithio â gorsafoedd, prifysgolion neu sefydliadau ymchwil eraill i ddatblygu arferion gorau ar gyfer mesur budd cymdeithasol. Awgrymwyd rhwydweithiau dysgu gan gymheiriaid er mwyn galluogi gorsafoedd i rannu gwybodaeth a methodolegau. Soniodd eraill am weithio gyda sefydliadau addysg uwch i gael mynediad at arbenigedd a gallu proffesiynol mewn asesu budd cymdeithasol. Awgrymodd ymatebwyr y gallai adnoddau wedi'u cyd-greu, rhwydweithiau sector, neu brosiectau peilot wedi'u hariannu helpu i annog diwylliant o rannu arferion o ran mesur budd cymdeithasol, lleihau unigrwydd a meithrin hyder ar draws y sector. Mae rôl glir i gyrff yn y sector hwyluso a chefnogi hyn.

4. Canllawiau Gwerthuso

Mae'r adran hon yn cyflwyno opsiynau i'r sector wella ymarfer o ran mesur y budd cymdeithasol y maent yn ei ddarparu ac, wrth wneud hynny, i roi gorsafoedd radio cymunedol mewn sefyllfa well i gyfleu eu budd cymdeithasol i ddarpar gyllidwyr a buddsoddwyr. **Mae'n ymateb yn uniongyrchol i'r themâu a amlinellwyd yn yr arolwg o'r sector a drafodwyd yn yr adran flaenorol.**

Pwyntiau cryno

- Mae **arolygon gwrandawyr** yn helpu gorsafoedd radio cymunedol i ddeall eu cynulleidfaoedd, asesu ymgysylltiad, a chasglu tystiolaeth o ganlyniadau cymdeithasol fel cysylltiad â'r gymuned, mynediad at wybodaeth leol, a chynhwysiant. Mae'r arolwg gwrandawyr a dreialwyd ar gyfer yr ymchwil hwn yn dangos potensial y dull hwn o gasglu gwybodaeth am arferion gwrandawyr a'r manteision cymdeithasol sy'n deillio o wrando. Mae hefyd yn nodi anghenion cymorth gorsafoedd i'w galluogi i weithredu'r dull hwn yn effeithiol.
- Mae gwirfoddolwyr yn ganolog i weithrediadau radio cymunedol a manteision cymdeithasol, ond yn aml nid yw eu profiadau'n cael eu cofnodi'n ddigonol mewn astudiaethau gwerthuso ac ymchwil. Mae **arolwg gwirfoddolwyr** pwrpasol wedi cael ei gynhyrchu gan yr ymchwil hon i fynd i'r afael â'r bwlch hwn. Mae'r arolwg gwirfoddolwyr yn adnodd ymarferol i fesur cyfraniadau amrywiol a chanlyniadau personol gwirfoddoli, gan gynnwys datblygu sgiliau, gwella llesiant, a gwell cysylltiad cymunedol, yn ogystal â chefnogi gorsafoedd i gryfhau cymorth a chynhwysiant i wirfoddolwyr.
- Mae **templed astudiaeth achos** syml a hyblyg wedi cael ei greu i helpu gorsafoedd i gofnodi a chyfleu straeon diddorol am eu buddiannau cymdeithasol. Wrth ddefnyddio'r templed ar raddfa fawr ar draws y sector, mae gan hyn y potensial i greu cronfa o astudiaethau achos i gefnogi dadansoddiad thematig manylach ar draws amrywiaeth o feysydd budd cymdeithasol.
- Mewn ymateb i adborth gan y sector, mae **cyfrifiannell gwerth cymdeithasol** syml a hygyrch wedi cael ei chreu i helpu gorsafoedd radio cymunedol i fesur a chyfleu eu budd cymdeithasol gan ddefnyddio technegau prisio credadwy sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol. Mae'r gyfrifiannell yn defnyddio mesurau o'r Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol (TOMS) i sicrhau cysondeb a phrisiad economaidd o weithgareddau sy'n ymwneud â sgiliau a chyflogaeth leol a chefnogaeth y trydydd sector.
- Mae **Damcaniaeth Newid** lefel uchel wedi cael ei darparu i ddangos sut y gall gweithgareddau radio cymunedol arwain at ganlyniadau cymdeithasol ehangach fel cydlyniant cymunedol, cyflogadwyedd a chyfranogiad dinesig. Mae Damcaniaeth Newid yn adnodd gweledol a naratif sy'n mapio'r llwybr o weithgareddau i ganlyniadau, gan helpu i egluro sut a pham y disgwylir i newid ddigwydd. Mae'r fersiwn hon yn defnyddio'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth a'i bwriad yw helpu

gorsafoedd i fynegi'n glir y canlyniadau cymdeithasol a'r manteision y maent yn cyfrannu atynt—er mwyn myfyrio'n fewnol ac i'w defnyddio mewn trafodaethau gyda chyllidwyr, partneriaid a rhanddeiliaid.

Mae'r ffeithlun dros y dudalen yn crynhoi prif gydrannau'r canllawiau ymarferol ar fudd cymdeithasol radio cymunedol.

Ffigur 4.1: Canllawiau ymarferol radio cymunedol

Mesur Budd Cymdeithasol Radio
Cymunedol: **Canllaw ymarferol ar gyfer radio cymunedol**

1. Holiadur grandawyr
Er mwyn deall proffil y gynulleidfa yn well, eu patrymau ymgysylltu a beth mae grandawyr yn ennill trwy tiwnio mewn

Mesur:

- Demograffig y gynulleidfa
- Cysylltedd lleol
- Math a graddfa'r effaith ar y grandawyr



2. Holiadur gwirfoddolwyr
Er mwyn mesur gwerth cymdeithasol a phersonol cyfrannu i wirfoddolwyr.



Mesur:

- Proffil gwirfoddolwyr a'u cymhellion
- Cysylltedd lleol
- Cyfraniadau tuag at datblygu sgiliau

3. Astudiaethau achos
Er mwyn galluogi archwiliad manwl i sut mae gorsafoedd yn creu effaith.



Mesur:

- Canlyniadau cymdeithasol i unigolion, grwpiau a chymunedau
- Effeithiau ehangach ar ardaloedd lleol

4. Cyfrifiannell gwerth cymdeithasol
Er mwyn galluogi gorsafoedd i fesur a chyfrifo gwerth cymdeithasol yn defnyddio dull safonol



Mesur:

- Budd cymdeithasol i fuddiolwyr fel y di-waith, myfyrwyr, triogolion lleol a sefydliadau

5. Theori newid
Fframwaith i helpu mesur enillion cymdeithasol ac effaith dros amser



Adnabod:

- Y mewnbynnau angenrheidiol
- Canlyniadau ac effeithiau targed a sut i'w mesur

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Tudalen 28

4.1 Arolwg Gwrandawyr

4.1.1 Rhesymeg

Gall arolygon gwrandawyr fod yn adnodd gwerthfawr i orsafoedd radio cymunedol ddeall yn well pwy yw eu cynulleidfaoedd, sut maen nhw'n ymgysylltu â chynnwys, a pha wahaniaeth mae'r orsaf yn ei wneud i'w bywydau.

Drwy gasglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan wrandawyr, gall gorsafoedd ddechrau dangos tystiolaeth o agweddau allweddol ar eu gwerth: maint a natur eu cyrhaeddiad, i ba raddau mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu ag allbwn yr orsaf, a pha ganlyniadau mae cymunedau'n eu profi o ganlyniad. Gallai hyn gynnwys gwrandawyr yn teimlo mwy o gysylltiad â'u hardal leol, clywed lleisiau a straeon sy'n adlewyrchu eu rhai eu hunain, cael gafael ar wybodaeth leol bwysig, neu ddysgu pethau newydd drwy raglenni arbenigol.

Mae arolygon gwrandawyr hefyd yn ffordd allweddol i orsafoedd ddangos eu budd cymdeithasol yn allanol. I gyllidwyr a rheoleiddwyr, gall adborth gwrandawyr helpu i ddangos sut mae gorsafoedd yn sicrhau budd cymdeithasol ac yn cyflawni rhwymedigaethau eu trwydded.

4.1.2 Themâu a chwestiynau'r arolwg

Er mwyn deall budd cymdeithasol radio cymunedol i unigolion a chymunedau yn well, roedd yr arolwg gwrandawyr wedi'i seilio ar themâu allweddol sy'n adlewyrchu cyfraniad unigryw'r sector. Cafodd y cwestiynau eu dylunio i gyd-fynd â meini prawf budd cymdeithasol Ofcom ([Ofcom, 2024](#)), yn ogystal â nodau ehangach sy'n ymwneud â datblygu cymunedol, rhannu gwybodaeth yn lleol, a llesiant.

Roedd yr arolwg hefyd yn seiliedig ar yr adolygiad llenyddiaeth a'r arolwg o'r sector, gan helpu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r dystiolaeth bresennol a'r blaenoriaethau presennol yn y dirwedd radio cymunedol. Roedd yr arolwg yn edrych ar **bum thema trosfwaol**:

- Arferion Gwrando ac Ymgysylltu
- Cymhelliant i Wrando
- Cydgysylltedd a Dealltwriaeth
- Mynediad at Gyfleoedd a Gwasanaethau Lleol
- Data Demograffig

Mae rhagor o fewnwelediad am bob thema, yn ogystal â chwestiynau enghreifftiol a'u rhesymeg benodol, ar gael yn yr Atodiad.

4.1.3 Dull y Cynllun Peilot

Cafodd arolwg gwrandawyr ei ddatblygu a'i dreialu gyda sampl o bedair gorsaf radio gymunedol. Dewiswyd y gorsafoedd hyn ar sail eu hargaeledd a'u parodrwydd i gymryd rhan. I gyd-fynd ag ymchwil presennol i'r sector, defnyddiodd yr arolwg themâu a chwestiynau o'r arolwg '[Gwrando'n Lleol](#)' gan Dr Alison Hulme mewn cydweithrediad ag NLive Radio. Prif nod y cynllun peilot oedd profi proses yr arolwg—asesu eglurder cwestiynau, darpariaeth ddigidol, a pha mor dda yr oedd yn integreiddio i lifau gwaith gorsafoedd—yn hytrach na chynhyrchu canfyddiadau ystadegol gadarn. Fodd bynnag,

llwyddodd i ddangos y potensial i offeryn safonol gasglu safbwyntiau gwrandawyr ar eu hymgysylltiad â radio cymunedol a'i fudd cymdeithasol a chymunedol ehangach.

Gofynnwyd i bob gorsaf a oedd yn cymryd rhan ddosbarthu'r arolwg i'w cynulleidfya, gan gyrraedd gwrandawyr ar yr awyr a'r rheini sy'n ymgysylltu â chynnwys all-lein, drwy eu sianeli cyfathrebu arferol, gan gynnwys cylchlythyrau e-bost, crybwyll ar yr awyr, a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Er mwyn gwneud y broses hon mor syml â phosibl, darparwyd negeseuon pwrpasol wedi'u paratoi ymlaen llaw ar y cyfryngau cymdeithasol a delweddau cysylltiedig, wedi'u teilwra ar gyfer X, Instagram a Facebook, i orsafoedd eu haddasu a'u rhannu (gweler Ffigurau 4.1 a 4.2). Roedd hyn yn cynnwys testun awgrymedig a gynnlluniwyd i annog cyfranogiad ac i dynnu sylw at werth adborth gwrandawyr.

Ffigur 4.2 Post Cyfryngau Cymdeithasol X/Twitter Seahaven FM



Ffigur 4.3 Post Cyfryngau Cymdeithasol Facebook Bro Radio



4.1.4 Ymateb y Gwrandawyr


Cafodd yr arolwg peilot 28 o ymatebion ar draws y pedair gorsaf radio cymunedol a gymerodd ran. Dim ond dwy o'r pedair gorsaf a hyrwyddodd yr arolwg yn weithredol drwy eu sianeli cyfryngau cymdeithasol, sy'n debygol o gyfyngu ar gyrhaeddiad ac ymgysylltiad. Ar ben hynny, roedd yr arolwg yn fyw am gyfnod cymharol fyr o dair wythnos, gan gynnig amser cyfyngedig i adeiladu momentwm. Ar sail y profiad hwn, argymhellir caniatáu amserlen hirach o dri mis o leiaf ar gyfer arolygon yn y dyfodol, ochr yn ochr â strategaeth hyrwyddo fwy strwythuredig a allai gynnwys negeseuon rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol a chyfeiriadau ar yr awyr. Byddai hyn yn helpu i gynyddu gwelededd a gwella cyfraddau ymateb.

Er bod y gyfradd ymateb i'r cynllun peilot yn is na'r disgwyl, mae'r data a gasglwyd yn dal i roi mewnwelediad gwerthfawr i brofiadau a chanfyddiadau gwrandawyr radio cymunedol. Mae'r ymatebion yn adlewyrchu amrywiaeth o leisiau ac yn cynnig tystiolaeth ddangosol o sut mae radio cymunedol yn cyfrannu at lesiant unigolion, cysylltiad cymdeithasol, mynediad at wybodaeth, ac ymdeimlad o berthyn. Er nad yw'r canfyddiadau hyn yn ystadegol gynrychioliadol, maent yn helpu i ddangos yr effaith wirioneddol y gall radio cymunedol ei chael ar fywydau pobl.

4.1.5 Prif Ganfyddiadau

Mae'r adran hon yn cyflwyno gwybodaeth allweddol o'n harolwg peilot o wrandawyr. Er gwaethaf y gyfradd ymateb isel, mae'r canfyddiadau'n cynnig enghraifft o'r math o ddata cyfoethog ac ystyrlon y gall gorsafoedd ei gasglu gan eu cynulleidfaoedd. Nid cynhyrchu data cynrychioliadol ystadegol oedd nod y cynllun peilot hwn, ond profi adnodd yr arolwg ac archwilio ei botensial ar gyfer casglu enghreifftiau amlwg o fudd cymdeithasol. Mae'r canlyniadau'n rhoi syniad o sut mae gwrandawyr yn ymgysylltu â'u gorsaf leol, beth maen nhw'n ei werthfawrogi, a sut mae gorsafoedd yn cyfrannu at lesiant unigolion, cysylltedd cymunedol, a datblygiad lleol. Ceir manylion llawn y dadansoddiad yn [Atodiad 2](#).

Ffigur 4.4: Crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg gwrandawyr



1. Arferion Gwrando

- Mae 89% o'r ymatebwyr (25/28) wedi bod yn gwrando ar eu gorsaf radio gymunedol ers dros flwyddyn—gan dynnu sylw at deyrngarwch hirsefydlog y gynulleidfa.
- Mae dwy ran o dair (18/28) o wrandawyr yn gwrando bob dydd, ac mae bron pob un (96%) yn gwrando o leiaf sawl gwaith yr wythnos, gan ddangos bod gorsafoedd yn rhan annatod o drefn ddyddiol.
- Mae hanner (13/26) yn dilyn eu gorsaf ar gyfryngau cymdeithasol, mae 46% (12) wedi gwirfoddoli, ac mae 31% (8) wedi cyfrannu'n weithredol ar yr awyr – gan ddangos lefelau uchel o ymgysylltu y tu hwnt i wrando.

2. Cymhellion i Wrando

- Mae 82% (23/28) yn gwrando i gael cerddoriaeth, sy'n golygu mai dyma'r prif reswm dros wrando, ond mae gwerth cynnwys yn mynd ymhell y tu hwnt i adloniant.
- Mae 71% (20/28) yn dibynnu ar yr orsaf am newyddion a gwybodaeth hyperleol, ac mae'r un gyfran yn gwrando er mwyn clywed am ddigwyddiadau lleol – gan gadarnhau rôl gymunedol unigryw'r orsaf.
- Mae 61% (17) yn gwrando i deimlo cysylltiad â'u hardal, ac mae 39% (11) yn cyfeirio at gwmnïaeth ac ymlacio—sy'n tanlinellu gwerth emosiynol a chymdeithasol.
- Mae elfen gyfranogol gref yn amlwg: Mae 54% (15) yn gwrando i glywed lleisiau lleol, ac mae 36% (10) yn ei ddefnyddio i ddysgu neu ymuno â thrafodaethau.

3. Cydgysylltedd a Dealltwriaeth

- Mae 86% (24/28) yn teimlo mwy o gysylltiad â'u cymuned oherwydd yr orsaf, ac mae 75% (21) yn dweud eu bod yn teimlo mwy o falchder lleol a chred mewn gweithredu ar y cyd.
- Mae 61% (17) yn dweud eu bod yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol ar ôl gwrando, ac mae 93% (26) yn teimlo eu bod yn cael mwy o wybodaeth am wasanaethau lleol.
- Mae 61% (17) yn teimlo bod yr orsaf yn eu helpu i ddeall safbwyntiau pobl eraill yn well, gan ddangos ei rôl o ran hyrwyddo cynhwysiant ac empathi.

4. Busnesau a Sefydliadau Lleol

- Mae 89% (25/28) yn dweud bod eu gorsaf wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o fusnesau a sefydliadau lleol; roedd 93% (26) o'r farn bod y wybodaeth yn ddefnyddiol.
- Roedd 64% (18) wedi gweithredu ar yr hyn roeddent wedi'i glywed, ac roedd 82% (23) yn ymddiried mwy mewn cynnwys busnes lleol pan glywir am hynny ar yr orsaf.
- Roedd 41% (11/27) wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â busnes neu sefydliad o ganlyniad—gan ddangos pŵer yr orsaf i sbarduno canlyniadau economaidd a chymunedol yn y byd go iawn.

5. Cyflogaeth

- Mae 61% (17/28) eisiau mwy o gynnwys cyflogaeth neu hyfforddiant ar yr awyr, sy'n dangos y galw am gymorth.
- Mae 54% (15) eisoes wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol am gyflogaeth drwy'r orsaf.
- Cafodd 29% (8) gyfle (e.e. swydd, hyfforddiant sgiliau) yn uniongyrchol o ganlyniad i wrando—tystiolaeth o ganlyniadau pendant i unigolion.

- Mae 54% (15) yn fwy tebygol o ymddiried mewn gwybodaeth sy'n gysylltiedig â swydd neu weithredu arni pan ddaw o'u gorsaf gymunedol.

6. Iechyd

- Mae 81% (22/27) yn ystyried neu byddent yn ystyried bod cynnwys sy'n gysylltiedig ag iechyd yn ddefnyddiol—sy'n dangos awydd cryf ymysg cynulleidfaoedd i gyfathrebu ynghylch iechyd.
- Cafodd 50% (13/26) wybodaeth ddefnyddiol am iechyd drwy'r orsaf ac roeddent yn fwy tebygol o ymddiried ynddi nag o ffynonellau eraill.
- Dywedodd traean (9/27) fod eu hiechyd wedi gwella oherwydd y cynnwys a glywir ar y radio—gan dynnu sylw at y potensial ar gyfer effaith ar iechyd y cyhoedd.

7. Ymgysylltu Diwylliannol

- Dysgodd 82% (23/28) am ddigwyddiadau diwylliannol, celfyddydol neu dreftadaeth lleol drwy eu gorsaf.
- Dywedodd 68% (19) fod gwrando wedi cynyddu eu cyfranogiad personol mewn gweithgareddau celfyddydol a threftadaeth.
- Mae 68% (19) yn gwrando'n benodol ar gyfer cynnwys celfyddydol neu ddiwylliannol—gan ddangos chwilfrydedd diwylliannol gweithredol ymysg gwrandawyr.

8. Gwirfoddoli, Ymgysylltu Dinesig a Democratiaeth

- Mae 64% (18/28) yn dweud bod gwrando wedi eu cymell i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal.
- Mae 64% (18) yn dweud eu bod yn deall mwy am sut i gymryd rhan mewn prosesau democrataidd oherwydd yr orsaf.
- Cafodd 62% (16/26) eu hysbrydoli i ystyried neu ddechrau gwirfoddoli, a chafodd 69% (18) ymwybyddiaeth o achosion cymdeithasol – tystiolaeth o bŵer yr orsaf i feithrin gweithredu dinesig a chymdeithasol.

4.1.6 Argymhellion ar gyfer defnyddio arolygon gwrandawyr


Pan fyddant wedi'u dylunio a'u defnyddio'n dda, gall yr arolygon hyn roi mewnwelediad gwerthfawr i sut mae gorsafoedd yn cefnogi cysylltiad, dysgu, cyfranogiad a newid personol neu gymunedol cadarnhaol. Mae'r argymhellion canlynol yn cynnig arweiniad ymarferol i orsafoedd sy'n awyddus i ddatblygu neu wella eu harolygon gwrandawyr eu hunain fel rhan o'r gwaith o fesur ac arddangos budd cymdeithasol. Dylai gorsafoedd radio cymunedol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data berthnasol wrth gasglu a phrosesu data personol drwy arolygon o'r fath, gan gynnwys glynu wrth ofynion GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data.

Argymhelliad 1: Hyrwyddo'r arolwg yn rheolaidd

Mae arolygon gwrandawyr yn elwa o hyrwyddo parhaus. Yn ein cynllun peilot, yr oedd y cyfraddau ymateb yn is na'r disgwyl—yn rhannol oherwydd mai dim ond hanner y gorsafoedd a oedd yn cymryd rhan oedd yn hyrwyddo'r arolwg ar gyfryngau cymdeithasol, a dim ond tair wythnos oedd y ffenestr ar gyfer derbyn ymatebion. **Er mwyn casglu set ddata fwy cynrychioliadol ac ystyrlon, rydym yn argymhell cadw arolygon ar agor am o leiaf dri**

mis. Yn ystod y cyfnod hwn, dylai gorsafoedd bostio am yr arolwg yn rheolaidd ar draws llwyfannau, ei rannu yn ystod darllediadau perthnasol, ac annog cyflwynwyr, gwirfoddolwyr a phartneriaid cymunedol i helpu i ledaenu'r gair.

Ffigur 4.5: Y broses o ddatblygu a dosbarthu arolygon



Argymhelliad 2: Cynnwys cwestiynau sy'n cyd-fynd â themâu budd cymdeithasol

Dylunio arolygon i gasglu ymatebion ar draws meysydd allweddol budd cymdeithasol, gan gynnwys:

- **Cysylltedd cymunedol** (e.e. teimlo'n fwy cysylltiedig, clywed lleisiau lleol)
- **Mynediad at wasanaethau lleol** (e.e. iechyd, cyflogaeth, sgiliau, digwyddiadau diwylliannol)
- **Newid personol** (e.e. mwy o hyder, ymwybyddiaeth, gwirfoddoli)
- **Ymddiriedaeth a gweithredu** (e.e. ymddiried mewn gwybodaeth a glywir drwy'r orsaf a gweithredu arni)

Defnyddiwch iaith syml y gallir uniaethu â hi a chynnwys cwestiynau graddfa Likert (1–5) i fesur dyfnder y budd cymdeithasol. Drwy ddefnyddio graddfeydd, gallwch hefyd ailadrodd yr arolwg yn rheolaidd i olrhain newidiadau dros amser

Argymhelliad 3: Holi am ganlyniadau

Ewch y tu hwnt i “Ydych chi'n mwynhau gwrando?” i “**Beth sydd wedi newid** o ganlyniad i wrando?” Er enghraifft:

- Ydych chi wedi gwneud rhywbeth newydd oherwydd yr orsaf?
- Ydy'r orsaf wedi eich helpu i ddysgu, cysylltu neu weithredu? Mae hyn yn darparu tystiolaeth bwerus o fudd cymdeithasol.

Argymhelliad 4: Defnyddio demograffeg i ddeall pwy rydych yn eu cyrraedd

Casglu gwybodaeth ddemograffig sylfaenol (oedran, rhyw, ethnigrwydd, anabledd, lleoliad, incwm) i helpu:

- Olrhain amrywiaeth eich cynulleidfa
- Deall pa grwpiau fydd yn elwa fwyaf
- Nodi pwy allai gael eu tangynrychioli neu eu tanwasanaethu

Gwnewch y cwestiynau hyn yn ddewisol ac eglurwch yn glir **pam** eich bod yn eu gofyn. Gall diffyg eglurder digonol ynghylch diben yr arolwg arwain at ostyngiad yn lefelau ymddiriedaeth gwrandawyr tuag at y gwasanaeth, a dylid ystyried hynny yn arbennig yn achos gwrandawyr o ddemograffeg darged.

Argymhelliad 5: Defnyddio lle ar gyfer straeon ac adborth ansoddol

Cynnwys un neu ddau gwestiwn penagored fel:

- “A yw’r orsaf wedi gwneud gwahaniaeth i chi’n bersonol? Os ydyw, sut?”
- “Allwch chi rannu enghraifft o rywbeth rydych chi wedi’i wneud neu ei ddysgu drwy’r orsaf?” Mae’r ymatebion ysgrifenedig byr hyn yn cynnig tystiolaeth ansoddol gyfoethog i ddod ag ystadegau’n fyw.

4.2 Arolwg gwirfoddolwyr

Yn 2023, roedd dros 20,000 o wirfoddolwyr yn y sector radio cymunedol, gyda 130 o oriau gwirfoddolwyr bob wythnos fesul gorsaf ar gyfartaledd. Rhoddodd y sector cyfan hyfforddiant i dros 7,000 o wirfoddolwyr yn 2023.⁶ Fel yr amlinellwyd yn yr adolygiad o lenyddiaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn, ceir cyfoeth o dystiolaeth sy’n profi effaith gadarnhaol gwirfoddoli ar yr unigolion hynny sy’n ymgymryd ag ef ac ar gymdeithas yn fwy cyffredinol. Er mwyn galluogi gorsafoedd i ddangos tystiolaeth well o’r budd cymdeithasol maen nhw’n ei greu i’w gwirfoddolwyr, cafodd arolwg gwirfoddolwyr ei greu i gofnodi profiadau, cyfraniadau a chanlyniadau gwirfoddolwyr sy’n gweithio yn y sector. Mae’r arolwg gwirfoddolwyr llawn i’w weld yn [Atodiad 5](#).

Mae gwirfoddolwyr wrth galon radio cymunedol. Mae eu rolau, sy’n amrywio o ddarlledu a chymorth technegol i allgymorth a hyfforddiant, yn ganolog i weithrediadau gorsafoedd a budd cymdeithasol. Ac eto, yn aml nid yw eu lleisiau’n cael eu cynrychioli’n ddigonol mewn adroddiadau a gwerthusiadau ffurfiol. Er mwyn sicrhau darlun mwy cyflawn o werth radio cymunedol, roedd yn bwysig rhoi arweiniad ar sut i gasglu gwybodaeth uniongyrchol gan wirfoddolwyr.

⁶Ofcom 2024 ‘Cyfryngau’r Genedl:Y DU 2024’.

Cynlluniwyd yr arolwg gwirfoddolwyr i archwilio sawl thema allweddol:



Cymhellion i wirfoddoli a sut y dechreuodd gwirfoddolwyr gymryd rhan yn eu gorsaf leol.



Datblygu sgiliau a dysgu, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant a gafwyd a manteision canfyddedig o ran cyflogadwyedd neu dwf personol.



Lles a budd cymdeithasol, fel mwy o hyder, ymdeimlad o bwrpas, neu lai o unigrwydd.



Amrywiaeth a chynhwysiant, sy'n ein helpu i ddeall pa mor gynhwysol a chynrychioliadol yw profiadau gwirfoddolwyr ar draws gwahanol orsafoedd.



Adborth a syniadau ar gyfer gwella, sy'n rhoi cyfle i wirfoddolwyr fyfyrion ar eu profiad a sut gallai gorsafoedd eu cefnogi neu ymgysylltu â nhw ymhellach.

Gallai casglu'r data hwn ar raddfa fawr ac annog gorsafoedd i rannu eu canfyddiadau alluogi'r sector i greu darlun cliriach a chyfunol o'r sylfaen gwirfoddolwyr ar draws radio cymunedol. Mae hyn yn arbennig o werthfawr o ran cefnogi ymdrechion i gryfhau cynhwysiant ac amrywiaeth drwy helpu gorsafoedd i ddeall a yw eu sylfaen gwirfoddolwyr yn adlewyrchu'r cymunedau a'r cynulleidfaoedd maen nhw'n eu gwasanaethu. Gall hefyd helpu i nodi lle gallai fod bylchau neu gyfleoedd i ehangu cyfranogiad. Gall gwybodaeth ar draws y sector hefyd gefnogi dysgu ar y cyd, eiriolaeth a datblygu strategol, gan alluogi radio cymunedol i ddangos ei gyfraniad at werth cymdeithasol a chynhwysiant yn fwy effeithiol.

Dylai gorsafoedd radio cymunedol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data berthnasol wrth gasglu a phrosesu data personol, gan gynnwys GDPR y DU a'r Ddeddf Diogelu Data.

4.3 Templod Astudiaeth Achos

4.3.1 Rhesymeg

Mae'r dull astudiaeth achos yn caniatáu i orsafoedd dynnu sylw at straeon penodol sy'n dangos sut mae eu gwaith yn cefnogi cysylltiad, cynhwysiant, grymuso a hunaniaeth leol. Gall y straeon hyn helpu i ddangos effaith mewn ffyrdd sy'n taro tant gyda chyllidwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach, yn enwedig pan fydd data meintiol yn gyfyngedig neu pan fydd yr effaith yn bersonol neu'n hirdymor. Mae'r defnydd o astudiaethau achos yn cael ei gydnabod yn Llyfr Magenta Trysorlys EF, sy'n darparu canllawiau'r llywodraeth ganolog ar werthuso.⁷ Gallant gofnodi sefyllfaoedd bywyd go iawn yn fanwl a helpu i ddeall ffenomena cymhleth. Maent yn gweithio'n dda ar y cyd â dulliau eraill neu'n eu hategu, fel arolygon ac, yn hollbwysig, gellir eu hystyried yn ddull ymchwil hygrych ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol.

Cysylltwyd â deg gorsaf i ofyn am eu caniatâd i ddatblygu astudiaeth achos. Cafwyd caniatâd gan bedair gorsaf. Gan ymateb yn uniongyrchol i ymatebion o'r arolwg o'r sector, cynhyrchwyd templod astudiaeth achos i helpu gorsafoedd i ddod â'u gwaith at ei gilydd mewn fframwaith strwythuredig y gellir ei rannu â darpar gyllidwyr a buddsoddwyr. Datblygwyd y templod i alluogi dealltwriaeth ddyfnach, sy'n fwy seiliedig ar naratif o'r budd cymdeithasol sydd gan orsafoedd radio cymunedol am eu gwrandawyr, eu gwirfoddolwyr a chymunedau lleol.

Dyluniwyd y templod astudiaeth achos i fod yn syml, yn hyblyg ac yn gymharol ddi-faich i orsafoedd ei gwblhau. Mae'n annog gorsafoedd i gofnodi pwy oedd yn cymryd rhan, beth ddigwyddodd, a beth newidiodd o ganlyniad, gan eu hannog i gynnwys dyfyniadau a myfyrdodau uniongyrchol gan y rheini yr effeithiwyd arnynt. Mae'r templod astudiaeth achos a anfonwyd at orsafoedd i'w weld dros y dudalen, ac mae enghreifftiau o astudiaethau achos ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol i'w gweld yn [Atodiad 6](#). Gellir defnyddio astudiaethau achos hefyd mewn ceisiadau am gyllid, adroddiadau, neu eu cyhoeddi ar wefannau gorsafoedd i ddangos eu budd cymdeithasol.

Mae annog gorsafoedd radio cymunedol i gynhyrchu eu hastudiaethau achos eu hunain ac yna eu coladu ar lefel sector yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r rhain fel adnodd ar gyfer dadansoddiad thematig o agweddau penodol ar fantais neu fudd cymdeithasol.⁸ Gyda'i gilydd, gall hyn fod yn adnodd cyfeirio gwerthfawr i'r sector. Dylai gorsafoedd radio cymunedol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data berthnasol wrth gasglu a phrosesu data personol mewn astudiaethau achos o'r fath.

⁷Trysorlys EF (2020). [Magenta Book. March 2020 Central Government guidance on evaluation](#).

Er enghraifft, gweler [Year of Stories 2022 Evaluation Report](#) a gyhoeddwyd gan Visit Scotland. Roedd Year of Stories 2022 yn flwyddyn lle cafodd straeon a gafodd eu hysbrydoli, eu creu neu eu hysgrifennu yn yr Alban eu harddangos a'u dathlu gyda rhaglen o weithgareddau a luniwyd i gefnogi twristiaeth y wlad, digwyddiadau a sectorau cysylltiedig.

De-gliciwch i roi logo
cleient yn ei le neu dilëwch
os nad oes angen

Enw'r Orsaf Radio

Trosolwg o'r Prosiect/Gweithgaredd

Pethau i'w hystyried:

- Beth oedd y nodau a'r amcanion?
- At bwy yr oedd wedi'i anelu (e.e. cymunedau neu grwpiau penodol)?
- Beth wnaeth yr orsaf mewn gwirionedd, neu beth wnaeth ei gyflawni? (e.e. sioeau, hyfforddiant, allgymorth)

Angen Cymunedol

Pethau i'w hystyried:

- Beth oedd y mater, yr her neu'r cyfle lleol yr ymatebodd eich prosiect iddo?
- Sut gwnaethoch chi ganfod yr angen hwn? (e.e. adborth, gwybodaeth leol, ymchwil)
- A yw hyn yn cysylltu â chenhadaeth neu amcanion effaith eich gorsaf?
- Pwy yw'r prif fuddiolwyr, a sut maent yn elwa? Ar ba raddfa?

Os yw'n berthnasol, dylech gynnwys:

- Unrhyw dystiolaeth neu ddata (ffurfiol neu anffurfiol) a helpodd i lunio neu gefnogi'r prosiect – pa ddulliau ymchwil a ddefnyddiwyd?
- Gwybodaeth allweddol sy'n egluro pam roedd y mater yn bwysig a sut roedd eich gorsaf mewn sefyllfa dda i ymateb

Mae'r adran hon yn helpu i fframio eich gwaith o fewn darlun mwy—pam y gwnaethoch chi hynny, a pham ei fod yn bwysig.

Pwy oedd yn cyfranogi? Beth ddigwyddodd?

Pethau i'w hystyried:

- Pwy gymerodd ran, a faint o bobl a gyfranogodd neu a gyrhaeddwyd?
- A wnaethoch chi gyrraedd unrhyw grwpiau a dangynrychiolir neu grwpiau ar y cyrion?
- A gafodd unrhyw bartneriaethau eu ffurfio neu eu cryfhau?
- Pa weithgareddau a gynhaliwyd? (e.e. sioeau radio, hyfforddiant, digwyddiadau, allgymorth)
- Sut gwnaethoch chi ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned?
- Beth oedd amserlen y prosiect?

Mae'r adran hon yn helpu i roi darlun clir o'r bobl a'r gweithgareddau dan sylw, ac yn dangos sut cafodd y prosiect ei gyflawni yn eich cymuned.

Enw'r Orsaf Radio

De-gliciwch i roi logo cleient
yn ei le neu dilêwch os nad
oes angen

Canlyniadau ac Effaith

Pethau i'w hystyried:

- Beth newidiodd o ganlyniad i'r gweithgaredd hwn?
- Pa fanteision tymor byr neu ganolig a welwyd? (e.e. sgiliau, hyder, cysylltiad)
- Unrhyw ganlyniadau annisgwyl?
- Sut wnaeth hyn gyfrannu at nodau ehangach eich gorsaf—neu les eich cymuned?
- Wnaethoch chi ddefnyddio unrhyw offer gwerthuso syml? (e.e. arolygon gwrandawyr, ffurflenni ar ôl y digwyddiad)
- Oes gennych chi unrhyw ddata i ategu hyn? (e.e. oriau gwirfoddoli, niferoedd hyfforddi)
- Pa dystiolaeth allech chi ei chasglu yn y dyfodol?

Mae'r adran hon yn eich helpu i gofnodi newidiadau a manteision eich gwaith, gan ddarparu fframwaith ar gyfer gwerthuso a mesur effaith ar yr un pryd.

Hyperddolen: i luniau, dangosyddion, gwefannau perthnasol etc.

Lleisiau o'r Gymuned

Pethau i'w hystyried:

- A oes dyfyniadau, straeon neu adborth gan y rhai sy'n cyfranogi? Unrhyw adborth gan wrandawyr, cyfranogwyr neu bartneriaid?
- Beth ddywedodd pobl am y profiad, yn eu geiriau eu hunain?
- Allwch chi rannu unrhyw straeon unigol penodol (gyda chaniatâd)?

Dylech hefyd gynnwys:

- Lluniau, clipiau sain, dolenni i'r cyfryngau (lle bo rhai ar gael)
- Canolbwyntiwch ar ddangosyddion ystyrlon (e.e. dyfyniad, stori bersonol, niferoedd sydd wedi ymgysylltu)
- Ym mha fformat y gallai'r dystiolaeth hon fod? (e.e. tystebau, cofnodion presenoldeb)

"Lle enghreifftiol ar gyfer dyfyniad gan wrandawr/buddiolwr" - Gwrandawr

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

4.4 Cyfrifiannell Gwerth Cymdeithasol

Fel rhan o'r ymchwil hwn, ac mewn ymateb uniongyrchol i adborth gan orsafoedd radio cymunedol, mae **cyfrifiannell gwerth cymdeithasol sylfaenol** wedi cael ei chynhyrchu. Mae gorsafoedd wedi mynegi'n gyson yr angen am offeryn syml a hygyrch i'w helpu i bennu a mynegi'r budd cymdeithasol maen nhw'n ei greu drwy eu gweithgareddau. Er bod llawer o orsafoedd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn eu cymunedau ac yn sicrhau budd cymdeithasol sylweddol, yn aml nid oes ganddynt yr amser, yr adnoddau na'r arbenigedd technegol i gymhwyso fframweithiau gwerthuso cymdeithasol cymhleth.

Fel yr amlinellwyd yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF,⁹ sy'n rhoi arweiniad ar sut i arfarnu polisïau, rhaglenni a phrosiectau, mae arfarnu 'gwerth' cymdeithasol yn seiliedig ar egwyddorion economeg lles ac mae'n ymwneud ag effeithlonrwydd lles cymdeithasol cyffredinol, nid dim ond effeithlonrwydd economaidd y farchnad. Mae gwerth cymdeithasol yn cynnwys yr holl gostau a manteision sylweddol sy'n effeithio ar les a llesiant y boblogaeth, nid dim ond effeithiau ar y farchnad. Er enghraifft, mae effeithiau amgylcheddol, diwylliannol, iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder a diogelwch wedi'u cynnwys. Gellir defnyddio Dadansoddiad Cost a Budd Cymdeithasol (SCBA) i asesu effaith gwahanol weithgareddau ar les cymdeithasol. Yn y dull hwn, mae'r holl gostau a manteision yn cael eu gwerthuso mewn termau ariannol.

Pwrpas cynhyrchu cyfrifiannell sylfaenol yw rhoi **adnodd ymarferol a hawdd ei ddefnyddio** i orsafoedd radio cymunedol sy'n eu galluogi i fesur a chyfrifo eu budd cymdeithasol mewn termau clir a chredadwy. Gall hyn gefnogi dysgu mewnol, cyfathrebu allanol, a helpu i gyflwyno achos cryfach i gyllidwyr, partneriaid a rheoleiddwyr. Er mwyn sicrhau cysondeb a hygyrdd, mae'r gyfrifiannell yn defnyddio metrigau a gwerthoedd procsi o **lwyfan mesur sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol**, gan gyd-fynd ag egwyddorion a methodolegau gwerth cymdeithasol sefydledig.

Dylid nodi, er bod y rhan fwyaf o fodelau'n cyfeirio at 'werth cymdeithasol', fel y fframwaith TOMS cenedlaethol, argymhellir bod y term 'budd cymdeithasol' yn cael ei ddefnyddio yn unol â chanllawiau Ofcom a'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan hyrwyddo cysondeb ar draws y sector.

4.4.1 Cymhwyso'r Fframwaith TOMS Cenedlaethol i Radio Cymunedol

Fel y dangosir yn Nhabl 4.1, mae'r gyfrifiannell yn defnyddio'r System TOM Mynediad Agored (Themâu, Canlyniadau, Mesurau) sy'n fframwaith mesur sy'n seiliedig ar ddata'r llywodraeth.¹⁰ Mae'r gyfrifiannell yn cynnig ffigurau enghreifftiol sy'n seiliedig ar weithgareddau go iawn a ddarperir gan orsafoedd—fel oriau gwirfoddoli, digwyddiadau lleol, neu gyfleoedd hyfforddi ar yr awyr. Mae pob gweithgaredd yn gysylltiedig â chanlyniad cydnabyddedig ac yn cael gwerth ariannol safonol o'r System TOM, gan roi darlun cliriach i orsafoedd o'r gwerth maent yn ei greu i bobl a chymunedau. Mae'r mesurau a'r gwerthoedd uned yn cael eu safoni a'u cydnabod yn genedlaethol drwy'r System TOM, gan roi hygyrdd i'r adnodd pan gaiff ei ddefnyddio at ddibenion adrodd neu gyllido.

⁹Trysorlys EF (2022). 'The Green Book'. Diweddarwyd 16 Mai 2024.

¹⁰System TOM Mynediad Agored Porth Gwerth Cymdeithasol. Mae'r adnodd hwn yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ar gais gan y Porth Gwerth Cymdeithasol.

Mae'r gyfrifiannell yn canolbwyntio ar ddau brif faes lle mae radio cymunedol fel arfer yn creu gwerth:

- **Gwaith** – gan gynnwys datblygu sgiliau, cyflogadwyedd, a gwirfoddoli
- **Cymuned** – gan gynnwys ymgysylltu, cynhwysiant a lles lleol

Tabl 4.1: Mesurau Dangosol o Werth Cymdeithasol mewn Radio Cymunedol

Thema	Canlyniad	Mesur	Unedau	Unedau	Gwerth uned	Cyfanswm Gwerth
Gwaith	Darparu sgiliau a phrofiad ar gyfer gwaith da	Cefnogaeth bersonol i helpu pobl ddi-waith i gael gwaith	Nifer yr oriau (cyfanswm hyd y sesiwn) Nifer y mynychwyr	10	£110.00	£1,100.00
Gwaith	Darparu cyfleoedd gwaith da	Lleoliadau gwaith di-dâl ystyrllon pan fo rhywun Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant	Nifer yr wythnosau	20	£96.53	£1,931.00
Gwaith	Darparu cyfleoedd gwaith da	Lleoliadau gwaith ystyrllon â thâl	Nifer yr wythnosau	4	£412.38	£1,649.52
Gwaith	Datblygu sgiliau a phrofiad ar gyfer gwaith yn y dyfodol	Cefnogaeth i fyfyrwyr mewn sefydliadau addysgol lleol	Nifer yr oriau gwirfoddoli gan staff	60	£17.48	£1,048.80
Gwaith	Datblygu sgiliau a phrofiad ar gyfer gwaith yn y dyfodol	Cefnogaeth i alluogi ymweliadau ar gyfer plant ysgol neu drigolion lleol	Nifer yr oriau gwirfoddoli gan staff	40	£17.48	£699.20
Cymunedol	Adeiladu cymunedau gwydn	Cefnogaeth i fudiadau gwirfoddol, cymunedol a chymunedol (VCSFEs) drwy wirfoddoli	Nifer yr oriau gwirfoddoli gan staff	104	£17.48	£1,817.92
Cymunedol	Adeiladu cymunedau gwydn	Cefnogaeth i brosiectau cymunedol lleol trwy wirfoddoli	Nifer yr oriau gwirfoddoli gan staff	120	£17.48	£2,097.60

					Cyfanswm Gwerth	£10,343.64
--	--	--	--	--	----------------------------	-------------------

Ffynhonnell: Cymerwyd y mesurau a’r gwerthoedd o System TOM Mynediad Agored y Porth Gwerth Cymdeithasol.

Mae'r System TOM, sy'n cael ei chydabod a'i defnyddio gan awdurdodau lleol a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus, yn darparu ystod lawer ehangach o Themâu, Canlyniadau, Mesurau a gwerthoedd procsi ar gyfer sefydliadau sy'n dymuno prynu trwydded. Mae llwyfannau gwerth cymdeithasol tebyg eraill ar gael hefyd. At ddibenion yr ymchwil hon, cyfeiriwyd at y System TOM gan ei bod yn cynnig y wybodaeth Mynediad Agored ac o ystyried ei defnydd gan awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus sy'n gyllidwyr posibl i orsafoedd radio cymunedol.

Ar sail adborth o'r arolwg o'r sector, mewnbwn gan y Grŵp Cyfeirio a thystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth, maes allweddol arall lle mae gorsafoedd radio cymunedol yn cynhyrchu gwerth i'r gymuned leol yw'r proffil a'r cyrhaeddiad y maent yn eu galluogi am ddim i fudiadau VCSFE yn y sectorau gwirfoddol, cymunedol, cymdeithasol, ffydd a menter lleol. Mae'r adolygiad o amserlenni priodol gorsafoedd radio cymunedol yn tynnu sylw at yr eitemau nodwedd rheolaidd a'r amser ar yr awyr a roddir i hyrwyddo gwaith mudiadau VCSFE lleol.

Mae hyn, fel y dangosir yn yr [astudiaeth Gwrando'n Lleol ar draws y DU](#), yn chwarae rhan bwysig o ran helpu sefydliadau o'r fath i gyrraedd a chysylltu gwrandawyr â ffynonellau cymorth yn eu cymuned leol (sydd ei hun yn creu budd cymdeithasol). Mae'r amser hwn ar yr awyr yn cael ei ddarparu am ddim fel arfer ond gallai fod â gwerth amser ar yr awyr masnachol cyfatebol. O'r herwydd, mae cyfrifo'r munudau ar yr awyr a ddarperir i sefydliadau VCSFE yn faes canlyniadau arall y gellir ei fapio'n gryf i waith y sector radio cymunedol.

Un o'r heriau yw neilltuo cost uned addas fesul munud ar yr awyr. Mae defnyddio cyfraddau hysbysebu yn y sectorau radio cymunedol neu fasnachol fel procsi yn un opsiwn, ond gall hyn fod yn gymhleth oherwydd gall cyfraddau amrywio yn seiliedig ar niferoedd cynulleidfaoedd a slotiau amser ar yr awyr. Mae sefydlu gwerth uned credadwy ar gyfer munudau ar yr awyr yn rhywbeth y byddai angen i gyrrff sector gytuno arno i gefnogi'r agwedd hon ar y gyfrifiannell.

Mae Tabl 4.2 isod yn rhoi enghraifft ymarferol o'r gwerth y gellid ei gofnodi gan ddefnyddio'r mesur hwn. Mae hyn yn tybio bod gorsaf sampl yn rhoi sylw i fudiadau VCSFE am 240 munud (4 awr) yr wythnos am werth uned o £5 y funud. Wedi'i raddio ar gyfer 52 wythnos y flwyddyn mae hyn yn cynhyrchu 12,480 munud y flwyddyn gan greu gwerth o £62,400 i fudiadau VCSFE.

Tabl 4.2: Gwerth amser ar yr awyr i sefydliadau VCSFE lleol

Maes gweithgarwch	Canlyniad	Mesur	Unedau	Gwerth uned	Cyfanswm Gwerth
Cymunedol	Gwell cyrhaeddiad a phroffil o fudiadau VCSFE	Darparu munudau ar yr awyr i fudiadau VCSFE i drafod a chyflwyno eu gwaith	12,480	£5.00	£62,400

Yn yr enghraifft ymarferol hon, darperir gwerth uned o £5 y funud fel enghraifft. Codir cyfradd o oddeutu £2 am bob 1,000 o wrandawyr am [hysbysebion radio](#) fel arfer. Felly, er enghraifft, os oes gan sioe 100,000 o wrandawyr am 10am, byddai lle am 30 eiliad bryd hynny yn costio £200 a lle am 1 funud yn costio £400.

Mae ein harolwg sector yn dangos, pan oedd gorsafoedd yn darparu data ar eu niferoedd cynulleidfa misol, roedd y rhan fwyaf yn perthyn i'r grŵp gwrandawyr misol 10,001 – 49,999. Os byddwn yn defnyddio pwynt canol 25,000 o wrandawyr, yna gan ddefnyddio'r dull costio hwn ar gyfer hysbysebu ar y radio, byddai lle 30 eiliad yn £50 ac 1 munud yn £100. Mae hyn yn awgrymu y gallai gwerth uned o £5 y funud fod yn gymedrol. Bydd angen i'r sector neu orsafoedd unigol wneud rhagor o waith gan ddefnyddio'r gyfrifiannell gwerth cymdeithasol i sefydlu cost gredadwy y funud.

4.5 Damcaniaeth Newid

Er bod llawer o orsafoedd yn gallu disgrifio eu gweithgareddau, mae bwlch yn aml o ran dangos tystiolaeth o sut mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at ganlyniadau cymdeithasol ehangach fel cydlyniant cymunedol, cyflogadwyedd a chyfranogiad dinesig.

Er mwyn helpu i bontio'r bwlch hwn, rydym yn darparu fframwaith lefel uchel—a elwir weithiau'n Ddamcaniaeth Newid (ToC)—sy'n nodi llwybr clir o'r hyn y mae gorsafoedd yn ei wneud i'r gwahaniaeth y maent yn ei greu. Mae Theori Newid yn egluro sut a pham y disgwylir i weithgareddau penodol (fel darlledu, hyfforddiant neu allgymorth) arwain at newidiadau neu ganlyniadau penodol ym mywydau a chymunedau pobl.

Bwriedir i'r fframwaith hwn fod yn fan cychwyn neu'n ganllaw y gall gorsafoedd ei addasu i gyd-fynd â'u nodau, eu gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael. Nid yw'n fodel sy'n addas i bawb, ond mae'n adnodd hyblyg sy'n helpu gorsafoedd i feddwl am y perthnasoedd achos ac effaith y tu ôl i'w gwaith a gwneud y cysylltiadau hyn yn fwy gweladwy a dealladwy i eraill.

Drwy ddefnyddio ac addasu'r fframwaith hwn, gall gorsafoedd wneud y canlynol:

- Pwyso a mesur sut mae eu gweithgareddau'n cyfrannu at newid unigol a chymunedol.
- Defnyddio iaith gyffredin i ddisgrifio gwerth cymdeithasol ar draws y sector.
- Dylunio offer mesur ymarferol (e.e. arolygon neu gyfrifiannellau gwerth cymdeithasol) sy'n cyd-fynd â'u nodau.
- Cryfhau eu hachos wrth ymgysylltu â chyllidwyr, rheoleiddwyr a phartneriaid lleol.

Drwy ddefnyddio ac addasu'r fframwaith hwn, gall gorsafoedd ddangos manteision cymdeithasol dyfnach eu gwaith yn well, fel grymuso lleisiau sydd ar y cyrion, cefnogi llwybrau at gyflogaeth, a meithrin cydlyniant cymdeithasol.

4.5.1 Damcaniaeth Newid Drafft

Mae'r Ddamcaniaeth Newid drafft dros y dudalen yn darparu trosolwg lefel uchel o sut mae gorsafoedd radio cymunedol yn cyfrannu at fudd cymdeithasol. Mae wedi cael ei ddatblygu gan gyfeirio at lenyddiaeth a thystiolaeth bresennol, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag ymchwil ehangach ar rôl ac effaith radio cymunedol.

Tabl 4.3: Damcaniaeth Newid Budd Cymdeithasol Radio Cymunedol

Mewnbwn	Gweithgareddau	Allbynnau	Canlyniadau	Effeithiau hirdymor
- Amser ac ymrwymiad gwirfoddolwyr - Seilwaith a chyfleusterau gorsafoedd - Cyllid neu gymorth ymarferol - Partneriaethau cymunedol a gwybodaeth leol - Offer technegol a thrwyddedau darlledu	- Cynhyrchu a darlledu cynnwys lleol a diwylliannol berthnasol - Hyfforddi a mentora gwirfoddolwyr - Cefnogi datblygu sgiliau a chyflogadwyedd - Hyrwyddo lleisiau lleol a materion cymunedol - Darparu gwaith allgymorth a phartneriaeth - Cynnal digwyddiadau a rhaglenni a arweinir gan y gymuned	- Oriau darlledu cynnwys gwreiddiol yn y gymuned - Nifer y gwirfoddolwyr a hyfforddwyd neu a gefnogwyd - Nifer y digwyddiadau neu ymgyrchoedd cymunedol a gynhaliwyd - Nifer yr oriau o gefnogaeth bersonol i helpu pobl ddi-waith i gael gwaith. - Nifer y lleoliadau gwaith di-dâl pan yn NEET. - Nifer yr oriau a neilltuwyd i gefnogi pobl ifanc i gael gwaith (e.e. cyngor ar lunio CV, ffug gyfweiliadau, cyfarwyddyd gyrfaoedd) - Nifer y lleoliadau gwaith ystyrllon â thâl. - Nifer yr oriau gwirfoddoli gan staff yn cefnogi myfyrwyr mewn sefydliadau addysg lleol. - Nifer yr oriau gwirfoddoli gan staff i alluogi ymweliadau ar gyfer plant ysgol neu drigolion lleol. - Nifer yr oriau gwirfoddoli gan staff ar gyfer sefydliadau VCSFE. - Nifer yr oriau gwirfoddoli gan staff i gefnogi prosiectau cymunedol lleol drwy wirfoddoli. - Darparu munudau ar yr awyr i fudiadau VCSFE i drafod a chyflwyno eu gwaith	- Mwy o hyder, sgiliau a chyflogadwyedd ymysg gwirfoddolwyr - Mwy o barodrwydd am gyflogaeth ymysg pobl ifanc - Mwy o fynediad at hyfforddiant a chymwysterau achrededig - Cynrychioli a chynnwys lleisiau amrywiol yn well - Rhwydweithiau cymunedol cryfach a chydlyniant cymdeithasol - Ymdeimlad gwell o hunaniaeth a balchder lleol - Mwy o ymwybyddiaeth o faterion a gwasanaethau lleol - Mwy o amlygrwydd ac ymwybyddiaeth o'r sector VCSFE o amser darlledu ar yr awyr - Gwellu capasiti a chyrhaeddiad mudiadau VCSFE lleol - Partneriaethau cryfach rhwng darparwyr gwasanaethau lleol a radio cymunedol - Lefelau uwch o wirfoddoli cymunedol a chyfranogiad dinesig	- Gwellu lles unigolion a chymunedau - Llai o arwahanrwydd cymdeithasol ac anghydraddoldeb - Cryfhau democratiaeth leol a chyfranogiad dinesig - Cymunedau mwy cydnerth, gwybodus a chysylltiedig - Cydnabod bod radio cymunedol yn gyfrannwr gwerthfawr i werth cymdeithasol - Gostyngiad mewn diweithdra ymysg pobl ifanc a NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) - Cyfoethogi diwylliannol a gwarchod hunaniaethau lleol

Fel y nodwyd yn yr arolwg o'r sector, mae cyllidwyr yn fwyfwy awyddus i weld tystiolaeth o effaith gynlluniedig a meddwl strategol. Gall gorsafoedd addasu ac adeiladu ar y Ddamcaniaeth Newid lefel uchel i ddatblygu eu fersiynau eu hunain ar gyfer prosiectau neu gynigion penodol. Mae hyn yn helpu i gysoni eu gwaith â blaenoriaethau cyllido lleol neu genedlaethol a dangos bwriadoldeb.

Mae'r Ddamcaniaeth Newid yn darparu sylfaen strwythuredig ar gyfer nodi beth i'w fesur. Drwy gysylltu mewnbynnau a gweithgareddau â chanlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir, mae'n helpu gorsafoedd i feddwl pa allbynnau a dangosyddion i'w tracio—gan gynnwys nifer y gwirfoddolwyr, oriau hyfforddiant ieuenctid, neu bartneriaethau cymunedol. Mae hyn yn cryfhau eu gallu i werthuso eu gwaith a dangos budd cymdeithasol dros amser.

4.5.2 Rhwystrau a Thybiaethau

Mae nodi rhwystrau a thybiaethau yn rhan allweddol o wneud Theori Newid yn realistig ac yn ddefnyddiol. Dylai gorsafoedd fod yn ymwybodol o rwystrau a thybiaethau i wneud y canlynol:

- **Bod yn realistig:** Mae adnabod tybiaethau a rhwystrau yn helpu gorsafoedd i gynllunio mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'u cyd-destun go iawn.
- **Meithrin gwytnwch:** Drwy nodi lle gallai pethau fynd o chwith, gall gorsafoedd greu cynlluniau wrth gefn / lliniaru risgiau.
- **Gwella dysgu a gwerthuso:** Os na chyflawnir canlyniadau, mae deall pa dybiaethau na wiredwyd yn darparu gwersi gwerthfawr.

Y prif rwystrau

Dyma'r risgiau neu'r heriau a allai atal y canlyniadau a ddymunir rhag digwydd:



1. Ansicrwydd cyllido a grantiau tymor byr

Yn cyfyngu ar gynllunio tymor hir, tanseilio cysondeb o ran gweithgareddau a staffio.



2. Gorweithio ymysg gwirfoddolwyr neu ddiffyg cadw staff

Mae llawer o orsafoedd yn dibynnu'n drwm ar wirfoddolwyr, a gall cynnal yr egni hwnnw yn y tymor hir fod yn anodd heb gymorth strwythuredig.



3. Dim llawer o amser ar gyfer monitro a gwerthuso

Heb y gallu i fesur canlyniadau, efallai y bydd gorsafoedd yn ei chael hi'n anodd dangos budd cymdeithasol



4. Allgáu digidol neu ddiffyg mynediad at radio/cyfryngau

Gall rhai cymunedau wynebu rhwystrau wrth geisio cael gafael ar gynnwys oherwydd rhaniadau digidol, iaith neu fformat.



5. Anghenion lleol yn symud dros amser

Gall demograffeg, blaenoriaethau a heriau cymunedol esblygu, ac mae angen mecanweithiau ar orsafoedd i aros yn ymatebol ac yn berthnasol.

Tybiaethau allweddol

Dyma'r pethau rydyn ni'n tybio fydd yn wir er mwyn i'r Ddamcaniaeth Newid weithio yn ôl y bwriad:



1. Mae gan orsafoedd y capasiti a'r adnoddau i gyflawni'n gyson

Mae'n tybio lefel o gyllid ac amser staff/gwirfoddolwyr nad yw bob amser yn bodoli efallai.



2. Mae aelodau o'r gymuned eisiau ymgysylltu â'r orsaf

Mae'n tybio bod diddordeb, ymddiriedaeth a pherthnasedd parhaus ymysg cymunedau amrywiol.



3. Mae hyfforddiant yn arwain at gyflogaeth neu ddilyniant

Mae'n tybio bod meithrin sgiliau'n arwain yn uniongyrchol at swyddi neu gyfleoedd addysg, sy'n dibynnu ar amodau ehangach y farchnad lafur ac amgylchiadau unigol.



4. Bydd partneriaid a rhanddeiliaid yn cydweithio'n effeithiol

Mae'n tybio perthnasoedd lleol cryf a chyd-ddealltwriaeth, sy'n gallu amrywio'n sylweddol ar draws ardaloedd.



5. Mae cyllidwyr a llunwyr polisi yn gwerthfawrogi canlyniadau radio cymunedol

Mae'n tybio bod y canlyniadau y mae gorsafoedd yn eu cynhyrchu (e.e. cysylltiad cymdeithasol, ymgysylltu dinesig) yn cael eu cydnabod a'u blaenoriaethu gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

5. Gweithredu a Gwaddol

Nod y prosiect ymchwil hwn yw darparu sail ar gyfer fframwaith sy'n caniatáu i orsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom ddangos yn glir y rôl werthfawr maen nhw'n ei chwarae yn y sector radio – i gyllidwyr, rheoleiddwyr a chymunedau fel ei gilydd. Mae'r gorsafoedd hyn yn chwarae rhan hollbwysig yn nhirwedd ddarlledu'r DU, gan gynnig cynnwys cynhwysol a hyperleol a darparu llwyfan i leisiau sydd ar y cyrion. Mae'r offer a'r adnoddau a ddatblygwyd drwy'r prosiect hwn wedi'u teilwra'n benodol i gefnogi'r gwaith hwnnw.

Mae adrannau blaenorol yr adroddiad hwn yn edrych ar ffyrdd o fesur a gwerthuso'n effeithiol y budd cymdeithasol a ddarperir gan radio cymunedol. Darperir y rhain ar hyn o bryd fel opsiynau ac adnoddau canllaw. Bydd gweithredu unrhyw un o'r opsiynau neu fabwysiadu'r adnoddau a awgrymir yn gofyn am gytundeb yn y sector ar sut y bwirir ymlaen â hyn.

Mae gan rai o'r adnoddau a'r dulliau a amlinellir yn yr ymchwil hwn oblygiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys costau trwyddau ar gyfer llwyfan arolygu addas ar gyfer cynnal yr arolwg gwrandawyr neu'r arolwg gwirfoddolwyr. Gall hefyd gynnwys costau sy'n gysylltiedig â chreu gwefan benodol neu lwyfan rhannu ffeiliau lle gall gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom gael gafael ar offer, adnoddau a chanllawiau yn ogystal â lanlwytho unrhyw dystiolaeth neu ddata maen nhw wedi'u cynhyrchu, fel astudiaethau achos.

Bydd angen arbenigedd a chapasiti technegol i ddadansoddi data a gesglir gan orsafoedd unigol ac i ddeall ystyriaethau diogelu data. Mae hyn yn tynnu sylw at angen ehangach i feithrin gallu a rhannu gwybodaeth ar draws y sector.

Canfu'r ymchwil hefyd **fylchau yn y sylfaen dystiolaeth bresennol.** Mae achos cryf dros sicrhau cyllid ymchwil neu gymorth grant i adeiladu ar y gwaith hwn a chael dealltwriaeth ddyfnach o'r manteision cymdeithasol a ddarperir gan y sector, ac i brofi a mireinio ymhellach yr offer a ddatblygwyd.

6. Casgliadau

Mae gorsafoedd radio cymunedol yn chwarae rhan bwysig o ran rhoi llais i gymunedau lleol ledled y DU. Maent yn llwyfan pwysig i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, gan annog hunaniaeth leol, diwylliant ac ymgysylltu cymdeithasol. Mae'r gorsafoedd hyn yn cael eu gyrru'n bennaf gan wirfoddolwyr ac maent yn cynnig cymysgedd unigryw o gynnwys wedi'i gynhyrchu'n lleol sy'n adlewyrchu diddordebau ac anghenion amrywiol eu cymunedau. Yn ogystal â darparu adloniant, mae radio cymunedol yn cyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol, addysg, cyfranogiad dinesig, a datblygu economaidd lleol.

Prif amcan yr ymchwil oedd awgrymu dull gweithredu sy'n ymarferol i orsafoedd radio cymunedol fesur a dangos eu buddiannau cymdeithasol. Ar hyn o bryd, nid oes fframwaith safonol ar gyfer cofnodi budd cymdeithasol yn y sector radio cymunedol.

Mae llenyddiaeth sy'n ymwneud â radio cymunedol yn y DU yn dangos cyfraniad y sector at sicrhau budd cymdeithasol mewn cysylltiad â'r pedair thema, sef cyflogaeth a'r economi, gwirfoddoli, ymgysylltu dinesig a democrataidd, iechyd a lles, a chysylltedd a dealltwriaeth.

Mae gorsafoedd yn nodi ystod eang o ofynion gan gyllidwyr, megis astudiaethau achos ansoddol a data canlyniadau strwythuredig. Mae gwybodaeth o arolwg o'r sector yn dangos bod ychydig dros hanner y gorsafoedd ar hyn o bryd yn mesur y budd cymdeithasol maen nhw'n ei ddarparu i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae ychydig dros hanner hefyd heb hyfforddiant ffurfiol na phrofiad mewn mesur effaith ymysg staff a gwirfoddolwyr. Nid oes gan y rhan fwyaf o orsafoedd radio cymunedol yr amser, y cyllid na'r staff i flaenoriaethu mesur budd cymdeithasol.

Mae ymatebion gan orsafoedd yn tynnu sylw at ddiddordeb cryf mewn gwella arferion mesur budd cymdeithasol ar draws y sector. Mae'r cymorth a ddymunir yn cynnwys cyfuniad o hyfforddiant strwythuredig, adnoddau hygyrch, fframweithiau mesur safonol y diwydiant, ac adnoddau ychwanegol i helpu gorsafoedd i gofnodi eu heffaith. Yn bwysig, mae gorsafoedd hefyd am gael cyfleoedd i gydweithio a rhannu gwybodaeth, gan sicrhau nad ydynt yn gweithio ar eu pen eu hunain ond yn elwa ar brofiad ar y cyd ar draws y sector a gyda sectorau eraill (er enghraifft y sector academiaidd).

Mewn ymateb, roedd yr ymchwil yn cynnig rhywfaint o arweiniad ymarferol ac opsiynau i gefnogi'r sector radio cymunedol i wella ymarfer o ran mesur y budd cymdeithasol a ddarperir i gymunedau. Mae hyn yn cynnwys offer arolwg gwrandawyr a gwirfoddolwyr safonol, cyfrifiannell gwerth cymdeithasol pwrpasol, templed astudiaeth achos, adolygiad llenyddiaeth a Theori Newid lefel uchel.

Mae gan rai o'r adnoddau a'r dulliau hyn oblygiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys costau trwydded ar gyfer llwyfan arolygu addas ar gyfer cynnal yr arolwg gwrandawyr neu'r arolwg gwirfoddolwyr. Gall hefyd gynnwys costau sy'n gysylltiedig â chreu gwefan benodol neu lwyfan rhannu ffeiliau lle gall gorsafoedd radio cymunedol sydd wedi'u trwyddedu gan Ofcom gael gafael ar offer, adnoddau a chanllawiau yn ogystal â lanlwytho unrhyw dystiolaeth neu ddata maen nhw wedi'u cynhyrchu, fel astudiaethau achos. Bydd angen arbenigedd a chapasiti technegol i ddadansoddi data a gesglir gan orsafoedd unigol. Mae hyn yn tynnu sylw at angen ehangach i feithrin gallu a rhannu gwybodaeth ar draws y sector.

7. Llyfryddiaeth

Baker, S. (2007). 'Young people and community radio in the northern region of Adelaide, South Australia', in *Popular Music and Society*, vol. 30, p. 575–590. doi:10.1080/03007760600835389

Bloustien, G., Peters, M., & Luckman, S. (2008). *Sonic synergies: Music, technology, community, identity*. Aldershot: Ashgate Publishing.

Broadcasting Authority of Ireland (2020). 'Community Radio – Delivering Social Benefit' report. Ar gael yn: BAI publishes report highlighting social benefits of community radio.

Chávez, V., & Soep, E. (2005). 'Youth radio and the pedagogy of collegiality'. *Harvard Educational Review*, 75, 409–434. doi:10.17763/haer.75.4.827u365446030386

Gaynor, N. & O'Brian, A. (2017). 'Community Radio, democratic participation and the public sphere', in *Irish Journal of Sociology*, vol.25 (1). Ar gael yn: Community radio, democratic participation and the public sphere.

Government Social Research (GSA) Scotland (2020). "'We are Community Builders, Part of The Fabric': A Review of Community Radio'. Ar gael yn: Social Research: "We are Community Builders, Part of The Fabric": A Review of Community Radio.

Hey, N., Martin, S., Musella, M., & Bignall-Donnelly, R. (2022). *What works social capital evidence review: Belonging, Cohesion & Social Support*, Briefing, October 2022, What Works Centre for Wellbeing.

Hulme, A. (2024). 'Listening Locally Across the UK'. Ar gael yn: [Listening locally across the UK](#).

Jochum, V., Davies, J., Dobbs, J., & Hornung, L. (2019). 'Time Well Spent: A national survey on the volunteer experience', conducted by NCVO. Ar gael yn: [Volunteer impacts - Time Well Spent](#).

Kranich, K., & Patterson, W. (2008). 'Hook 'em with technology, keep 'em with relationships'. *Youth Media Reporter*, 2, 24–28. Cyrchwyd o [Youth Media Reporter](#).

Kyneswood, Benjamin Paul (2014). 'Young Volunteers in Community Radio: Volunteering as a Learning Process'. *Sage Research Methods Cases*. Ar gael yn: <https://doi.org/10.4135/978144627305013507672>.

Marsh, Jonathan (2020). Dissertation 'The impact of small-scale digital audio broadcasting (DAB): emerging opportunities for the UK community radio sector'. Ar gael yn: *MARSH Jonathan rep copy 2.pdf*.

Meadows, M. & Foxwell, K. (2011). 'Community broadcasting and mental health: The role of local radio and television in enhancing emotional and social well-being', in *Radio Journal International Studies in Broadcast & Audio Media*, vol.9(2), pp.89-106.

Moylan, K. (2018). 'Accented radio: Articulations of British Caribbean experience and identity in UK community radio', *Global Media and Communication*, vol.14 (3), p.283-299.

OECD (2021). *The Well-Being of Nations: the Role of Human and Social Capital*.

Peterson, M. (2016). 'Living with difference in hyper-diverse areas: How important are encounters in semi-public spaces?', *Social & Cultural Geography*, 1–19. doi: 10.1080/14649365.2016.1210667.

Podkalicka, A., & Staley, J. (2009). 'YouthWorx media: Creative media engagement for 'at risk' young people'. *Journal of Community, Citizen's and Third Sector Media and Communication*, 5, 2–8. Ar gael yn: YouthWorx media: creative media engagement for 'at risk' young people | Semantic Scholar.

Smith, A., Quinn, B., Mamattah, S., Hell, N., McPherson, G., McGillivray, D., & Cox, T. (2021). *The Social Value of Community Events: A Literature Review*, University of the West of Scotland, Paisley.

Smith, et al. (2011). 'Effectiveness of the Radio as a Health Information Source', in *Journal of Radio & Audio Media*, vol.18(2), pp. 196-211.

Vine, D., & Oveson, M. (2024). *Power of Events: Report on the findings from the Spirit of 2012 archive about the impact of events on social cohesion and connection*.

Waite, I., Kashefpakdel, E., & Patel, S. (2024). *Double Disadvantage: Does the decline in quality work experience impact state school students' access to Russell Group universities?*

Wilkinson, C. (2019). 'On the same wavelength? Hyperdiverse young people at a community radio station', *Social & Cultural Geography*, Vol.20 (9), p.1251-1265.

Atodiad 1 Cwestiynau arolwg gwrandawyr

Roedd yr arolwg yn edrych ar bum thema gyffredinol, pob un â rhesymeg benodol:

1. Arferion Gwrando ac Ymgysylltu

Mae'r arolwg gwrandawyr peilot yn dechrau drwy ofyn i ymatebwyr am eu harferion gwrando, gan gynnwys pa mor hir maen nhw wedi bod yn gwrando, pa mor aml maen nhw'n gwrando, ac a ydyn nhw'n cyfranogi yn yr orsaf (e.e., drwy gyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau, neu wirfoddoli). Mae'r cwestiynau hyn yn rhoi cipolwg sylfaenol ar natur perthynas gwrandawyr â radio cymunedol, gan helpu i wahaniaethu rhwng ymgysylltu goddefol a gweithredol. Mae'r llinell sylfaen hon yn bwysig ar gyfer dehongli cwestiynau dilynol ar effaith.

Cwestiynau enghreifftiol:

Ers faint ydych chi wedi bod yn gwrando ar [enw'r orsaf]?

- Dechreuais wrando yn ystod y 12 mis diwethaf
- Dechreuais wrando dros flwyddyn yn ôl
- Dydw i ddim yn cofio pryd wnes i ddechrau gwrando
- Mae'n well gen i beidio â dweud

I ba raddau fydddech chi'n dweud eich bod yn cyfranogi yn [enw'r orsaf]? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- | | |
|--|--|
| ○ Weithiau bydda i'n ffonio neu'n cysylltu â'r orsaf i gymryd rhan mewn trafodaethau | ○ Rydw i wedi bod yn wirfoddolwr yn yr orsaf |
| ○ Rydw i'n ei dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol | ○ Arall, rhowch fanylion: |
| ○ Rydw i wedi cymryd rhan mewn un neu ragor o'i digwyddiadau cyfryngau cymdeithasol | ○ Dydw i ddim yn cymryd rhan |
| | ○ Ddim yn siŵr |
| | ○ Mae'n well gen i beidio â dweud |

2. Cymhelliant i Wrando

Mae'r arolwg yn gofyn i ymatebwyr pam eu bod yn gwrando, boed hynny i glywed cerddoriaeth, gwybodaeth leol, cwmni, neu i deimlo cysylltiad â'u cymuned. Mae deall y cymhellion dros wrando yn helpu i asesu i ba raddau mae radio cymunedol yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd ac yn darparu dewis arall yn lle gwasanaethau masnachol neu genedlaethol. Mae hefyd yn cynnig cipolwg ar rôl emosiynol a chymdeithasol gorsafoedd ym mywydau gwrandawyr.

Cwestiwn enghreifftiol:

Pam fydddech chi'n dweud eich bod yn gwrando ar [enw'r orsaf]?

- Ar gyfer y gerddoriaeth
 - Am y cwmni
 - I gael yr wybodaeth ddiweddaraf (newyddion, diweddariadau ac ati)
 - I glywed am ddigwyddiadau lleol
 - I wrando ar y sesiynau ffonio i mewn neu'r trafodaethau
 - I deimlo cysylltiad â'm cymuned leol
 - I ymlacio neu ddadflino
-
- I ddysgu rhywbeth newydd
 - I glywed lleisiau lleol
 - Arall

3. Cydgysylltedd a Dealltwriaeth

Ffocws allweddol yr arolwg oedd asesu a yw radio cymunedol yn annog ymdeimlad o gysylltiad, perthyn a chyd-ddealltwriaeth. Mae'r arolwg yn gofyn i ymatebwyr a oedd eu gorsaf wedi eu helpu i deimlo'n fwy cysylltiedig ag eraill, deall gwahanol safbwyntiau, dod yn fwy gweithgar yn eu cymuned, neu deimlo'n falch o ble maen nhw'n byw.

Cwestiwn enghreifftiol:

Ar raddfa o 1 'anghytuno'n gryf' i 5 'cytuno'n gryf' i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y datganiadau hyn yn wir amdanoch chi:

Datganiad	1 Anghytuno'n gryf	2	3	4	5 Cytuno'n gryf	Ddim yn siŵr
Mae gwrando ar [enw'r orsaf] wedi gwneud i mi deimlo'n fwy cysylltiedig â'm cymuned						
Mae gwrando ar [enw'r orsaf] wedi fy helpu i wneud ffrindiau newydd/cwrdd â phobl newydd						
Mae gwrando ar [enw'r orsaf] wedi fy ngwneud yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn pethau yn fy nghymuned leol						
Mae gwrando ar [enw'r orsaf] wedi fy ngwneud yn fwy ymwybodol o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan, neu'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal gan, y cyngor/awdurdod lleol						

Mae gwrando ar [enw'r orsaf] wedi fy ngwneud yn falch o fyw yn fy ardal leol						
--	--	--	--	--	--	--

4. Mynediad at Gyfleoedd a Gwasanaethau Lleol

Gan gydnabod y rôl y mae llawer o orsafoedd cymunedol yn ei chwarae o ran lledaenu gwybodaeth, mae'r arolwg yn cynnwys adrannau ar bedwar maes penodol: cyflogaeth a sgiliau, busnesau ac elusennau lleol, gwasanaethau iechyd, ac ymgysylltu diwylliannol. Ym mhob achos, mae'r arolwg yn gofyn a oedd gwrandawyr wedi cael gwybodaeth, a oeddent yn ymddiried ynddi neu'n gweithredu arni, ac a oedd yn arwain at ganlyniadau pendant fel cael gwaith neu ddefnyddio gwasanaeth lleol. Mae hyn yn golygu bod modd dadansoddi ymatebion i brofi gwerth a chyrhaeddiad ymarferol radio cymunedol fel ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy.

Cwestiwn enghreifftiol:

Ar raddfa o 1 'anghytuno'n gryf' i 5 'cytuno'n gryf' i ba raddau ydych chi'n teimlo bod y datganiadau hyn yn wir amdanoch chi:

Datganiad	1 Anghytuno'n gryf	2	3	4	5 Cytuno'n gryf	Ddim yn siŵr
Cyflogaeth						
Rydw i wedi clywed am gyfleoedd cyflogaeth a sgiliau drwy wrando						
Rydw i wedi cael cyfleoedd gwaith a/neu sgiliau o ganlyniad i glywed amdanyn nhw ar [enw'r orsaf]						
Busnesau a Sefydliadau Lleol						
Rydw wedi cael gwybod am fusnesau/sefydliadau/elusennau lleol drwy wrando ar [enw'r orsaf]						
Rwyf wedi ymgysylltu â busnesau/mudiadau/elusennau lleol o ganlyniad i glywed amdanynt ar [enw'r orsaf]						
Iechyd						
Rydw wedi cael gwybodaeth am iechyd a gwasanaethau iechyd drwy wrando ar [enw'r orsaf]						
Mae gwrando ar [enw'r orsaf] wedi fy helpu'n bersonol i gael gwybodaeth am iechyd a gwasanaethau iechyd						
Rydw i wedi gwella fy iechyd o ganlyniad i glywed am wasanaethau iechyd ar [enw'r orsaf]						

Ymgysylltu Diwylliannol						
Mae gwranddo ar [enw'r orsaf] wedi fy helpu i glywed am weithgareddau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth yn fy ardal leol						
Mae gwranddo ar [enw'r orsaf] wedi cynyddu fy ymgysylltiad â gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth yn fy ardal leol						
Gwirfoddoli, Ymgysylltu Dinesig a Democratiaeth						
Mae gwranddo ar [enw'r orsaf] wedi nghymhell i gymryd mwy o ran yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol						
Mae gwranddo ar [enw'r orsaf] wedi cynyddu fy ngwybodaeth a'm dealltwriaeth o wleidyddiaeth leol a sut mae cymryd rhan ynddi						

5. Data Demograffig

Yn ogystal â'r cwestiynau thematig, roedd yr arolwg hefyd yn casglu gwybodaeth ddemograffig allweddol i helpu i ddeall pwy sy'n ymgysylltu â radio cymunedol a sut gallai'r effeithiau amrywio ar draws gwahanol grwpiau. Casglwyd data ar oedran, rhyw, ethnigrwydd, statws anabled a lleoliad, ynghyd â chwestiynau am gyflogaeth a lefelau incwm.


Mae'r prif bwyntiau a ddaeth o'r data demograffig i'w gweld yn [Atodiad 4](#).

Atodiad 2 Dadansoddiad arolwg gwrandawyr

Arferion Gwrando

Mae'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i'r arferion gwrando a'r lefelau ymgysylltu ymysg cynulleidfaoedd radio cymunedol. Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur A2.1 isod, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (22/25) eu bod wedi bod yn gwrando ar eu gorsaf radio gymunedol leol ers dros flwyddyn, gyda dim ond nifer fach (3/25) yn ansicr pryd roeddent wedi dechrau gwrando, a dim un yn dweud eu bod wedi dechrau yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn awgrymu perthynas gref a pharhaus rhwng gorsafoedd a'u cynulleidfaoedd.


Ffigur A2.1 Ers faint mae gwrandawyr wedi bod yn gwrando ar eu gorsaf



Ffynhonnell: Arolwg gwrandawyr Wavehill. N=25

O ran amllder, mae radio cymunedol yn amlwg yn chwarae rhan reolaidd ym mywydau pobl. Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur A2.2 dros y dudalen, dywedodd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr (15/25) eu bod yn gwrando bob dydd, a dywedodd 5/25 arall eu bod yn gwrando sawl gwaith yr wythnos. Dim ond un person ddywedodd nad oedd yn gwrando'n aml, ac ni ddywedodd neb nad oeddent byth yn gwrando. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos cynulleidfa gyson, gyda gorsafoedd yn gweithredu fel presenoldeb dyddiol yn nhrefniadau llawer o wrandawyr.


Ffigur A2.2 Pa mor aml mae gwrandawyr yn gwrando ar eu gorsaf



Ffynhonnell: Arolwg gwrandawyr Wavehill. N=25

Roedd cyfranogiad y gwrandawyr yn ymestyn y tu hwnt i wrando goddefol. Fel y dangosir yn Ffigur A3.3, dywedodd ychydig o dan hanner (11/25) eu bod yn dilyn yr orsaf ar gyfryngau cymdeithasol, a dywedodd yr un gyfran eu bod wedi gwirfoddoli yn yr orsaf – gan ddangos natur gyfranogol bwysig y sector. Roedd cyfanswm o 8 o wrandawyr wedi cysylltu â'r orsaf i ymuno yn y trafodaethau, ac roedd un person wedi mynychu digwyddiadau cymdeithasol a drefnwyd gan yr orsaf. Dywedodd un ymatebydd nad yw'n cymryd rhan o gwbl, gan danlinellu natur ryngweithiol y sector ymhellach.

Ffigur A2.3 Sut mae gwrandawyr yn cymryd rhan yn eu gorsaf



Ffynhonnell: Arolwg gwrandawyr Wavehill. N=25

Cymhellion i Wrando


Mae'r data'n tynnu sylw at y rhesymau niferus pam mae pobl yn dewis gwrando ar radio cymunedol. Fel y dangosir yn Ffigur A2.4 dros y dudalen, daeth cerddoriaeth i'r amlwg fel y rheswm mwyaf cyffredin, gydag 20 o bob 25 o ymatebwyr yn dewis hynny, gan danlinellu pwysigrwydd rhaglenni cerddoriaeth fel atyniad allweddol i gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, aeth y cymhellion y tu hwnt i adloniant.

Dyweddodd cyfanswm o 18 o wrandawyr eu bod yn gwrando i gael y wybodaeth ddiweddaraf, a dywedodd nifer cyfartal fod clywed am ddigwyddiadau lleol yn rheswm. Mae hyn yn adlewyrchu rôl unigryw radio cymunedol o ran darparu newyddion a gwybodaeth hyperleol nad ydynt efallai ar gael mewn mannau eraill.

Roedd cymhellion emosiynol a chymdeithasol hefyd yn amlwg. Dywedodd 14 o wrandawyr eu bod yn gwrando i deimlo cysylltiad â'u cymuned leol, a soniodd 10 am gwmni a soniodd cyfran gyfartal am wrando i ymlacio. Mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu rôl yr orsaf fel cydymaith cymdeithasol ac fel ffynhonnell gysur, yn enwedig i'r rheini a allai deimlo'n ynysig.

Roedd rôl gyfranogol ac addysgol yr orsaf hefyd i'w gweld yn yr ymatebion. Dywedodd naw o bobl eu bod yn gwrando ar sesiynau ffonio i mewn neu drafodaethau, dywedodd wyth eu bod yn gwrando i ddysgu rhywbeth newydd, ac roedd 13 yn gwerthfawrogi clywed lleisiau lleol ar yr awyr. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod galw mawr am gynnwys sydd wedi'i wreiddio'n lleol ac sy'n adlewyrchu profiad go iawn y gynulleidfa.

Ffigur A2.4 Cymhellion gwrandawyr dros wrando ar eu gorsaf



Ffynhonnell: Arolwg gwrandawyr Wavehill. N=25


Cydgysylltedd a Dealltwriaeth

Mae canlyniadau'r arolwg gwrandawyr yn awgrymu bod radio cymunedol yn chwarae rhan bwysig o ran annog ymdeimlad o gysylltiad ac ymwybyddiaeth gymdeithasol ymysg cynulleidfaoedd. Fel sy'n cael ei ddangos ar Ffigur A2.5 dros y dudalen, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (21 allan o 25) fod gwrando ar eu gorsaf leol yn gwneud iddynt deimlo'n fwy cysylltiedig â'u cymuned. Yn yr un modd, awgrymodd 19 o ymatebwyr ei fod yn cynyddu eu balchder yn lle maent yn byw, a theimlai 18 ei fod yn cryfhau eu cred yng ngrym gweithredu ar y cyd i wella eu cymdogaeth.

Mae'n ymddangos bod y gorsafoedd hefyd yn cefnogi ymgysylltu dinesig a chymunedol. Roedd 18 o'r ymatebwyr yn cytuno bod gwrando yn eu gwneud yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, a dywedodd 23 o'r 25 ei fod yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o wasanaethau lleol neu fentrau dan arweiniad y cyngor.

Mae'r data hefyd yn awgrymu bod radio cymunedol yn helpu i ehangu gorwelion cymdeithasol gwrandawyr. Er mai dim ond nifer llai (10 allan o 25) a ddywedodd ei fod wedi eu helpu'n uniongyrchol i wneud ffrindiau newydd, roedd ychydig dros hanner (14) yn cytuno ei fod wedi eu helpu i ddeall safbwyntiau pobl eraill yn well, sy'n ddangosydd allweddol o botensial y sector i hyrwyddo empathi, cynhwysiant a chyd-ddealltwriaeth. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at gyfraniad y sector at greu cymunedau mwy cysylltiedig, gwybodus a chymdeithasol.

Ffigur A2.5 Cysylltedd a Deall Deilliannau



Ffynhonnell: Arolwg gwrandawyr Wavehill. N=25


Busnesau a Sefydliadau Lleol

Mae ymatebion yr arolwg yn dangos y rôl werthfawr mae radio cymunedol yn ei chwarae o ran hyrwyddo busnesau lleol, elusennau a mudiadau cymunedol.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur A2.6 isod, roedd mwyafrif helaeth y gwrandawyr (22 allan o 25) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi cael gwybod am sefydliadau lleol drwy eu gorsaf, gyda nifer tebyg (23) yn dweud bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol iddynt. I lawer, roedd yr ymwybyddiaeth hon yn trosi'n ymgysylltu ystyrlon: Roedd 20 o ymatebwyr yn cytuno bod yr orsaf wedi eu helpu'n bersonol i gael gwybodaeth am fusnesau neu sefydliadau lleol, a dywedodd 18 eu bod yn fwy tebygol o weithredu ar y wybodaeth honno pan fo'n deillio o'r orsaf, o'i gymharu â ffynonellau eraill.

Yn bwysig, daeth ymddiriedaeth hefyd i'r amlwg fel ffactor allweddol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (20 allan o 25) eu bod yn fwy tebygol o ymddiried mewn gwybodaeth am sefydliadau lleol pan oedd yn cael ei rhannu drwy eu gorsaf gymunedol. Dywedodd dros hanner (15 allan o 25) eu bod wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau lleol o ganlyniad i glywed amdanynt ar y radio, boed hynny drwy roi, defnyddio eu gwasanaethau, neu brynu ganddynt.

Ffigur A2.6 Canlyniadau Busnesau a Sefydliadau Lleol



Ffynhonnell: Arolwg gwrandawyr Wavehill. N=25

Cyflogaeth


Mae gorsafoedd radio cymunedol hefyd yn dangos potensial o ran cefnogi mynediad at gyflogaeth a datblygu sgiliau. Er nad dyma brif swyddogaeth y rhan fwyaf o orsafoedd, mae ymatebion yr arolwg yn awgrymu bod gorsafoedd eisoes yn chwarae rhan yn y maes hwn— a bod gwrandawyr yn agored i'w weld yn cael ei ddatblygu ymhellach.

Fel y dangosir yn Ffigur A2.7, roedd cyfanswm o 15 allan o 25 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddai'n ddefnyddiol iddynt glywed mwy o wybodaeth am gyfleoedd cyflogaeth a sgiliau ar eu gorsaf leol. Dywedodd tua hanner (15 allan o 25) eu bod yn bersonol wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol o'r math hwn drwy wrando.

Er bod llai o ymatebwyr wedi nodi canlyniadau uniongyrchol, roedd 7 o wrandawyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod wedi cael cyfleoedd cyflogaeth neu sgiliau o ganlyniad uniongyrchol i'r hyn roeddent wedi'i glywed ar y radio – sy'n dangos budd amlwg i rai.

Roedd ymddiriedaeth a gweithredu yn dilyn tueddiadau tebyg: Roedd 13 o ymatebwyr yn fwy tebygol o ymddiried mewn gwybodaeth am gyflogaeth a sgiliau ac roedd 10 yn fwy tebygol o weithredu ar yr wybodaeth hon pan fo'n deillio o'u gorsaf gymunedol, gan dynnu sylw at statws dibynadwy'r gorsafoedd hyn ymysg eu cynulleidfaoedd.

Ffigur A2.7 Deilliannau cyflogaeth a sgiliau




Ffynhonnell: Arolwg gwrandawyr Wavehill. N=25

Iechyd

Mae'n ymddangos bod radio cymunedol hefyd yn bwysig o ran rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud ag iechyd a chefnogi ymwybyddiaeth gwrandawyr o wasanaethau lleol. Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur A2.8, dywedodd 19 o 24 eu bod yn ystyried neu y byddent yn ystyried y byddai'n ddefnyddiol clywed gwybodaeth am iechyd a'r gwasanaeth iechyd ar eu gorsaf. Mae hyn yn arwydd o awydd cryf i gyfathrebu'n hygyrch ac yn ddibynadwy ar bynciau iechyd. Roedd hanner yr holl ymatebwyr (12 allan o 24) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn bersonol wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol am iechyd a gwasanaethau iechyd drwy'r orsaf. Dywedodd yr un nifer eu bod yn fwy tebygol o ymddiried yn yr wybodaeth hon a gweithredu arni pan fo'n deillio o'u gorsaf gymunedol leol o'i gymharu â ffynonellau eraill—gan danlinellu gwerth yr orsaf fel negesydd dibynadwy.

Yn bwysig, soniodd 7 o wrandawyr am effaith gadarnhaol uniongyrchol ar eu hiechyd eu hunain o ganlyniad i glywed cynnwys sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys tri a oedd yn cytuno'n gryf bod eu hiechyd wedi gwella. Er bod y niferoedd hyn yn gymharol fach, maent yn darparu tystiolaeth y gall radio cymunedol gyfrannu at ganlyniadau llesiant unigol, yn enwedig wrth weithio mewn partneriaeth â darparwyr iechyd lleol.

Ffigur A2.8 Deilliannau iechyd



Ffynhonnell: Arolwg gwrandawyr Wavehill. N=24


Ymgysylltu Diwylliannol

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod gorsafoedd radio cymunedol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth ar lefel leol. Fel y dangosir yn Ffigur A2.9, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (20 allan o 25) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod gwrando ar eu gorsaf leol wedi eu helpu i glywed am ddigwyddiadau a chyfleoedd diwylliannol yn eu hardal. Mae hyn yn awgrymu bod y gorsafoedd yn gweithredu'n llwyddiannus fel llwyfannau ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr (16 allan o 25) hefyd fod yr orsaf wedi cynyddu eu hymgysylltiad personol â gweithgareddau celfyddydol a threftadaeth lleol—gan dynnu sylw at y dylanwad y gall radio cymunedol ei gael ar gyfranogiad gwirioneddol, nid dim ond ymwybyddiaeth. Dywedodd naw o bobl eu bod yn “cytuno'n gryf” bod eu hymgysylltiad diwylliannol wedi cynyddu o ganlyniad i wrando.

Ar ben hynny, dywedodd 16 o 25 o wrandawyr eu bod yn gwrando'n rheolaidd i gael gwybod yn benodol am gynnwys celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth, gan ddangos bod hyn yn nodwedd o ddarlledu cymunedol sy'n cael ei gwerthfawrogi ac y mae galw mawr amdani gan lawer.

Ffigur A2.9 Deilliannau Ymgysylltu Diwylliannol



Ffynhonnell: Arolwg gwrandawyr Wavehill. N=25


Gwirfoddoli, Ymgysylltu Dinesig a Democratiaeth

Mae ymatebion yr arolwg yn awgrymu bod radio cymunedol yn cael dylanwad ystyrllon ar ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad dinesig gwrandawyr. Fel y dangosir yn ffigur A2.10, roedd cyfanswm o 16 o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod gwrando ar eu gorsaf leol wedi eu cymell i gymryd mwy o ran mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal. Mae hyn yn tynnu sylw at botensial radio cymunedol i annog cyfranogiad democrataidd ar lefel leol drwy dynnu sylw at faterion sy'n bwysig i drigolion.

Effeithiwyd yn gadarnhaol hefyd ar wybodaeth a dealltwriaeth o wleidyddiaeth leol, gyda 15 o wrandawyr yn dweud bod yr orsaf wedi helpu i gynyddu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am sut i gymryd rhan mewn prosesau democrataidd lleol. Mae hyn yn adlewyrchu safle unigryw radio cymunedol fel ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth leol hygyrch a pherthnasol.

O ran budd cymdeithasol yn ehangach, dywedodd cyfran fawr o'r ymatebwyr (16 allan o 24) fod yr orsaf wedi codi eu hymwybyddiaeth o achosion cymdeithasol, gan eu hysbrydoli i ddysgu mwy ac archwilio ffyrdd o greu newid cadarnhaol. Mae'n ymddangos bod yr orsaf hefyd yn cefnogi llwybrau i wirfoddoli'n lleol – cytunodd 13 o wrandawyr eu bod wedi cael eu cymell i ystyried neu fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli o ganlyniad i wrando.

Ffigur A2.10 Deilliannau Gwirfoddoli, Ymgysylltu Dinesig a Democrataidd



Ffynhonnell: Arolwg gwrandawyr Wavehill. N=24

Atodiad 3 Cwestiynau arolwg o'r sector

C1. A fydddech cystal â darparu'r canlynol:

- ☐ Enw'r orsaf:
- ☐ Rhif(au) Trwydded Ofcom - dim ond rhifau trwydded perthnasol ar gyfer radio cymunedol y dylech eu cynnwys, h.y. CRXXXXXXX neu CDPXXXXXX:

C2. A fydddech cystal â darparu'r canlynol:

- ☐ Enw:
- ☐ Eich rôl yn yr orsaf:

C3. Sut mae eich gorsaf yn darlledu? (e.e. analog, ar-lein, DAB ac ati)

C4. A yw eich gorsaf yn elusen gofrestredig?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn siŵr

[Os ydy] C5. Rhowch eich rhif elusen:

C6. Pa fath o sefydliad ydych chi?

- ☐ Sefydliad Corfforedig Elusennol
- ☐ Cwmni Cyfyngedig drwy Warant gyda Statws Elusennol
- ☐ Cymdeithas Anghorfforedig
- ☐ Ymddiriedolaeth Elusennol
- ☐ Cwmni Budd Cymunedol
- ☐ Arall, nodwch:

C7. A yw eich gorsaf yn rhan o riant-gwmni ehangach neu'n annibynnol?

- ☐ Rhan o riant-gwmni ehangach
- ☐ Annibynnol
- ☐ Ddim yn siŵr

C8. A yw eich gorsaf yn rhan o unrhyw gyrff masnach? [er enghraifft, y CMA, UKCRN, CRN Cymru ac ati.]

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn siŵr

C9. Rhowch grynodedb o'r prif feysydd budd cymdeithasol rydych chi'n eu darparu ar gyfer y cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu drwy eich gweithgareddau ar yr awyr. Er

enghraifft, gallai hyn gynnwys darlledu i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol neu fynd i'r afael â materion cymunedol.

C10. Rhwngch grynoded o'r prif feysydd budd cymdeithasol rydych chi'n eu darparu ar gyfer y cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu drwy eich **gweithgareddau oddi-ar yr awyr**. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cynnig hyfforddiant neu addysg i unigolion nad ydynt yn cael eu cyflogi gan eich gwasanaeth, cynnwys aelodau o'r gymuned yng ngweithrediadau'r orsaf, neu gynnal digwyddiadau cymunedol.

C11. A yw eich gorsaf ar hyn o bryd yn mesur y budd cymdeithasol i'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn siŵr

C12. Pa rai o'r dulliau a ganlyn ydych chi'n eu defnyddio? [Dewiswch bob un sy'n berthnasol]

- ☐ Nifer y gwirfoddolwyr a'r oriau gwirfoddoli
- ☐ Nifer y prentisiaethau
- ☐ Nifer y lleoliadau profiad gwaith
- ☐ Nifer yr achosion lleol a gefnogwyd neu weithgareddau i arddangos gwaith mudiadau Gwirfoddol a Chymunedol, mudiadau Ffydd a Mentrau Cymdeithasol
- ☐ Nifer yr oriau a neilltuwyd i helpu pobl ifanc i gael gwaith (e.e. sgysiau/arweiniad gyrfaoedd, ffug gyfweliadau, paratoi CV)
- ☐ Nifer yr ymgyrchoedd cenedlaethol a gefnogwyd
- ☐ Nifer y munudau o amser ar yr awyr a ddarparwyd i fudiadau Gwirfoddol a Chymunedol, mudiadau Ffydd a Mentrau Cymdeithasol
- ☐ Nifer y busnesau lleol a gafodd eu harddangos neu eu hyrwyddo
- ☐ Nifer y digwyddiadau cymunedol y cymerwyd rhan ynddynt (oddi ar yr awyr)
- ☐ Nifer yr ymgyrchoedd lleol i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol yn eu cymuned

- ☐ Nifer y rhaglenni neu nodweddion oedd yn canolbwyntio ar amrywiaeth / oedd yn rhoi llwyfan i leisiau newydd
- ☐ Nifer y rhaglenni neu nodweddion â diben cymdeithasol diffiniedig
- ☐ Astudiaethau achos gan wrandawyr
- ☐ Arolygon/polau ar-lein a gafodd eu gwneud drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Arall (nodwch)

C13. Sut byddech chi'n disgrifio lefel eich arbenigedd neu'ch profiad yn eich gorsaf o ran mesur y fantais neu'r budd cymdeithasol i'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu?

- ☐ Llawer o brofiad
- ☐ Tipyn o brofiad
- ☐ Ychydig o brofiad
- ☐ Dim profiad o gwbl
- ☐ Ddim yn siŵr

C14. A yw staff/gwirfoddolwyr yn eich gorsaf wedi cael unrhyw hyfforddiant neu brofiad blaenorol o ddulliau o fesur mantais neu fudd cymdeithasol?

- ☐ Do
- ☐ Naddo
- ☐ Ddim yn siŵr

C15. Rhowch fanylion yr hyfforddiant neu'r profiad y mae staff/gwirfoddolwyr wedi'i gael yn y gorffennol o ran mesur budd neu fantais gymdeithasol:

C16. Pa hyfforddiant neu gefnogaeth fyddai'n helpu eich gorsaf i fesur budd neu fantais gymdeithasol?

C17. Rhowch drosolwg o ba dystiolaeth neu ddata, os o gwbl, y mae eich cyllidwyr wedi gofyn i chi eu darparu fel amod mewn perthynas ag unrhyw gyllid

C18. Pa fathau o gyllidwyr sydd wedi gofyn am y wybodaeth hon?

C19. A fu gan gyllidwyr fwy o ddiddordeb mewn darparu budd cymdeithasol ar yr awyr neu oddi ar yr awyr?

C20. Beth fyddai'n eich helpu i gyflwyno'r achos dros fuddsoddi i gyllidwyr?

C21. Pa ddata sydd gan eich gorsaf am nifer neu broffil eich gwrandawyr?

C22. Oes gennych chi amcangyfrif o nifer gwrandawyr eich gorsaf?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Ddim yn siŵr

C23. Rhewch yr amcangyfrif hwn os oes modd:

C24. Sut cafodd yr amcangyfrif hwn ei fesur?

C25. Oes gennych chi unrhyw syniadau ac uchelgeisiau o ran mesur y budd cymdeithasol neu'r fantais i'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu?

C26. Pa rwystrau, os o gwbl, ydych chi'n eu hwynebu wrth fesur y budd cymdeithasol neu'r fantais i'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu?

C27. Sut y gellid goresgyn y rhwystrau hyn?

Atodiad 4 Canlyniadau arolwg gwrandawyr

Demograffeg: Prif Bwyntiau

Oedran

Roedd y nifer fwyaf o ymatebwyr yn y grwpiau oedran **55-64 a 65-74**, gyda **9 o bobl** ym mhob grŵp.

- 25–34: 3 o ymatebwyr
- 35–44: 1 ymatebydd
- 45–54: 4 o ymatebwyr
- Nid oedd yr un ymatebydd o dan 25 oed.

Rhywedd

- Nododd 17 o ymatebwyr eu bod yn **ddynion**
- Nododd 11 eu bod yn **fenywod**
- Ni ddewisodd neb hunaniaeth arall o ran rhywedd

Incwm: Roedd yr ymatebion wedi'u gwasgaru ar draws categorïau incwm, ond roedd y rhan fwyaf rhwng **£15,000 a £50,000**. Dywedodd rhai fod incwm y cartref dan £15,000, ac ni ddywedodd neb eu bod yn ennill dros £100,000.

Iechyd: Dywedodd nifer fach o ymatebwyr (4 o 22) fod ganddynt **gyflwr, salwch neu anabledd hirdymor**, ond nid oedd gan y mwyafrif gyflwr o'r fath.

Ethnigrwydd: Nododd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr eu bod yn **Wyn (26 allan o 28)**, gyda chynrychiolaeth gyfyngedig o grwpiau ethnig eraill.

Cyfeiriadedd rhywiol: Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn **heterorywiol neu'n strêr (25 allan o 28)**, ac roedd yn well gan 3 beidio â datgelu.

Atodiad 5 Arolwg Gwirfoddolwyr

1. Profiad Gwirfoddoli

- Ers faint ydych chi wedi gwirfoddoli yn [enw'r orsaf]?
-

2. Cymhelliant i Wirfoddoli

Beth wnaeth eich cymell i wirfoddoli yn [enw'r orsaf]? (*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*)

- | | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none">○ Roeddwn i eisiau gwella pethau/helpu pobl○ Roeddwn i eisiau cwrdd â phobl/gwneud ffrindiau○ Roedd yr achos yn bwysig iawn i mi○ Roedd yn gysylltiedig ag anghenion fy nheulu/ffrindiau○ Roeddwn i'n teimlo bod angen yn fy nghymuned○ Roeddwn i'n meddwl y byddai'n rhoi cyfle i mi ddysgu sgiliau newydd | <ul style="list-style-type: none">○ Roeddwn i'n meddwl y byddai'n rhoi cyfle i mi ddefnyddio fy sgiliau presennol○ Mae'n fy helpu i symud ymlaen yn fy ngyrfa○ Mae helpu pobl yn rhan o fy athroniaeth bywyd○ Rhoddodd gyfle i mi gael cymhwyster cydnabyddedig○ Roedd gen i amser sbâr i wneud hynny○ Roeddwn i'n teimlo nad oedd neb arall ar gael i wneud hynny○ Dim un o'r rhain |
|--|--|

3. Sut clywsoch chi am gyfleoedd gwirfoddoli yn [enw'r orsaf]?

4. Ydych chi'n gwirfoddoli gydag unrhyw fudiadau eraill?

☐ Ydw ☐ Na

5. Tua faint o oriau ydych chi wedi'u treulio yn helpu [enw'r orsaf] yn ystod y 4 wythnos diwethaf?

6. Canlyniadau Gwirfoddoli

Sut ydych chi wedi elwa o'ch rôl wirfoddoli yn [enw'r orsaf]? (*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*)

- Gwell iechyd a lles
- Gwell boddhad mewn bywyd
- Mwy o hunan-barch
- Gwell cysylltedd cymdeithasol
- Meithrin sgiliau newydd
- Balchder yn fy nghymuned
- Cwrdd â phobl o wahanol gefndiroedd neu ddiwylliannau
- Gwell dealltwriaeth o safbwyntiau pobl eraill
- Dim un o'r rhain

7. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol:

"Mae fy rôl wirfoddol wedi arwain at fanteision o ran fy iechyd a'm lles."

- ☐ Cytuno'n gryf
 ☐ Cytuno
 ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
 ☐ Anghytuno
☐ Anghytuno'n gryf

8. Ydy gwirfoddoli gyda [enw'r orsaf] wedi eich cymell i chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli eraill yn eich cymuned?

- ☐ Do
 ☐ Na
 ☐ Ddim yn siŵr

8. Amdanoch Chi (*Dewisol – at ddibenion monitro*)

- Oedran
- Cefndir ethnig
- Rhywedd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- A oes gennych chi salwch neu anabledd tymor hir?
- Statws gweithio

Atodiad 6 Astudiaethau achos enghreifftiol

Astudiaeth achos, enghraifft 1: Rother Radio

Rother Radio



Trosolwg o'r Prosiect/Gweithgaredd

Mae Rother Radio yn Gwmni Budd Cymunedol sy'n darlledu drwy DAB+ ar Raddfa Fach ar draws Sheffield a Rotherham, yn ogystal ag ar-lein, drwy seinyddion clyfar ac apiau symudol. Prif nod yr orsaf yw defnyddio darlledu a hyfforddiant yn y cyfryngau fel ffordd o wella cyflogadwyedd, cysylltiad cymdeithasol a datblygiad personol – yn enwedig ymysg pobl ifanc a grwpiau agored i niwed neu ddifreintiedig. Drwy sioeau, allgymorth a hyfforddiant wedi'i dargedu, mae'r orsaf yn creu llwyfan ar gyfer creadigrwydd, llais a chyfleoedd yn rhanbarth De Swydd Efrog.

Angen Cymunedol

Sefydlwyd Rother Radio i fynd i'r afael â bwlch yn y ddarpariaeth cyfryngau lleol, yn enwedig ar gyfer cymunedau yng nghanol a gogledd Rotherham nad oedd ganddynt lais radio cymunedol penodol. Mae'r orsaf yn gweithio gydag ysgolion, colegau ac asiantaethau ieuenctid i gyrraedd pobl sydd mewn perygl o gael eu hynysu'n gymdeithasol neu sy'n wynebu rhwystrau i gyfleoedd. Drwy ganfod angen drwy wybodaeth leol, adborth a phartneriaethau sefydliadol, mae'r orsaf wedi siapio ei chenhadaeth o ran mynd i'r afael ag allgáu, materion iechyd meddwl, a mynediad cyfyngedig at ddiwydiannau creadigol. Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd yn gryf â nodau effaith ehangach yr orsaf o hyrwyddo llesiant, cynhwysiant a chydlyniant cymunedol.

Pwy oedd yn cyfranogi? Beth ddigwyddodd?

Mae Rother Radio yn ymgysylltu â rhwydwaith eang o wirfoddolwyr—llawer ohonynt â phrofiad blaenorol ym maes radio cymunedol neu fasnachol—ac yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu iddynt. Mae'r orsaf wedi gweithio gyda phobl ifanc yn Ysgol Winterhill, gan helpu i gyflwyno sgiliau cyfryngau a chodi ymwybyddiaeth o yrfaedd ym maes darlledu. Mae gwirfoddolwyr hefyd yn cymryd rhan mewn nifer cynyddol o ddigwyddiadau cymunedol, gan gynnwys Pride Rotherham (lle roedd dros 5,500 o bobl yn bresennol), Carefest, Brinsworth Fete, a Sam's 1 Life Army Mission. Mae'r digwyddiadau hyn yn darparu llwyfannau i Rother Radio ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol, darparu darllediadau allanol, a rhoi mwy o lais i elusennau lleol a mentrau cymunedol.

Mae'r orsaf hefyd yn cefnogi cynrychiolaeth LHDTTC+ drwy raglenni a phartneriaethau pwrpasol, gan sicrhau llwyfan ehangach ar gyfer cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.

Canlyniadau ac Effaith

Gellir gweld effaith Rother Radio mewn amrywiaeth o ganlyniadau tymor byr a thymor canolig. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o hyder a sgiliau bywyd ymysg pobl ifanc, llwybrau cryfach i gyflogaeth a gwirfoddoli, a gwell cynrychiolaeth i grwpiau sydd ar y cyrion. Mae'r orsaf yn darparu cymorth ymarferol i unigolion feithrin llythrennedd emosiynol, datblygu sgiliau technegol, a gwneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol.

Er nad yw wedi cofrestru gyda RAJAR eto oherwydd y gost, mae'r orsaf yn monitro nifer y gwrandawyr drwy ddadansoddiadau ar-lein, apiau a seinyddion clyfar, gydag amcangyfrif o 75,867+ o wrandawyr yn Ch4 2024. Mae'r tîm hefyd yn tracio demograffeg a chyfranogiad gwirfoddolwyr, ac mae'n archwilio dulliau newydd i ddeall a dangos budd cymdeithasol yn well. Mae adborth gan ysgolion a phartneriaid cymunedol yn awgrymu bod Rother Radio yn cael ei ystyried yn wasanaeth cyfryngau lleol credadwy a hygyrch, gan helpu i gysylltu pobl, magu hyder a chefnogi llesiant.

[Hyperddolen: i luniau, dangosyddion, gwefannau perthnasol etc.](#)

Lleisiau o'r Gymuned

*"Lle enghreifftiol ar gyfer dyfyniad gan wrandawr/buddiolwr" -
Gwrandawr*

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

Crest Community Radio



Trosolwg o'r Prosiect/Gweithgaredd

Lansiwyd Crest Community Radio ym mis Ionawr 2025 fel gorsaf ar-lein 24 awr sydd wedi ymrwymo i ddarparu cynnwys cynhwysol, diddorol a chymdeithasol ymwybodol ar gyfer y gymuned leol. Sefydlwyd y prosiect gan Crest Cooperative Charity i ddarparu mwy nag adloniant yn unig—ei nod oedd cynnig hyfforddiant yn y cyfryngau, cynyddu lleisiau ymylol, a chefnogi lles drwy raglenni sy'n berthnasol yn lleol.

Prif amcanion yr orsaf oedd:

- Cynnig llwyfan ar gyfer mynegiant a sgwrs gymunedol.
- Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn y cyfryngau i bobl leol.
- Codi ymwybyddiaeth o heriau cymdeithasol fel iechyd meddwl, anabledd a thlodi.
- Cryfhau cysylltiadau cymunedol drwy gynnwys cydweithredol sy'n cael ei arwain gan bobl.

Angen Cymunedol

Cafodd yr orsaf ei chreu mewn ymateb i nifer o heriau cymunedol sy'n gorgyffwrdd yn yr ardal leol, gan gynnwys:

- Ynysu cymdeithasol.
- Mynediad cyfyngedig at gyfleoedd creadigol neu broffesiynol i oedolion ag anghenion ychwanegol.
- Diffyg llwyfannau i drafod materion fel iechyd meddwl, tlodi a bylchau mewn gwasanaethau lleol yn agored.
- Ymddieithriad pobl ifanc a'r angen am brofiad gwaith ystyrlon.

Cafodd yr anghenion hyn eu nodi drwy waith parhaus yr elusen a gwybodaeth leol ddofn, ochr yn ochr ag adborth cymunedol anffurfiol a gwybodaeth a gasglwyd drwy wasanaethau cymorth Crest Cooperative. Roedd yr orsaf radio'n cael ei hystyried yn estyniad naturiol ac arloesol i genhadaeth gymdeithasol bresennol Crest—gan gynnig llais, gwelededd a llwybrau datblygu i'r rheini a oedd yn aml yn cael eu heithrio.

Mae'r prif fuddiolwyr yn cynnwys:

- Oedolion ag anghenion ychwanegol sy'n chwilio am hyder, trefn reolaidd a sgiliau cyflogadwyedd.
- Pobl ifanc yn ennill profiad cynnar yn y cyfryngau a phrofiad gweinyddol drwy leoliadau ysgol.
- Y gymuned ehangach, sy'n elwa o raglenni perthnasol a hyrwyddo gwasanaethau lleol.

Ers ei lansio:

- Mae tua **400 o wrandawyr rheolaidd** yn gwrando bob mis, ac mae nifer y cynulleidfaoedd yn cynyddu'n gyson.
- Mae myfyrwyr ysgol lleol wedi cymryd rhan mewn **profiad gwaith gweinyddol a phrofiad gwaith sy'n gysylltiedig â chynhyrchu**.
- Mae oedolion ag anghenion ychwanegol wedi cymryd rhan mewn **hyfforddiant sgiliau cyfryngau**.

Crest Community Radio



Canlyniadau ac Effaith

Yn ystod ei fisoedd cyntaf, mae Crest Community Radio eisoes wedi cael effaith amlwg. Mae nifer gwrandawyr yr orsaf yn cynyddu'n gyson, gyda thros 400 o ymgysylltiadau misol yn cael eu tracio ar hyn o bryd drwy ddadansoddi ffrydio. Mae'r momentwm cynnar hwn yn adlewyrchu'r awydd am raglenni lleol, cynhwysol a pherthnasol sy'n ymdrin yn uniongyrchol â diddordebau ac anghenion y gymuned.

Y tu hwnt i wrando, mae'r orsaf yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Mae aelodau o'r gymuned yn ennill profiad ymarferol ac yn datblygu sgiliau cyfathrebu a chyfryngau drwy gymryd rhan mewn cynllunio sioeau, darlledu, cynhyrchu podlediadau a gwaith stiwdio. I lawer o wirfoddolwyr a buddiolwyr—yn enwedig oedolion ag anghenion ychwanegol—mae hyn wedi meithrin ymdeimlad newydd o hyder, strwythur a pherchnogaeth greadigol.

Mae Crest Community Radio hefyd yn dod yn llwyfan ar gyfer sgysiau pwysig. Drwy ei raglenni, mae'n mynd ati i feithrin deialog ynghylch heriau lleol allweddol, gan gynnwys tlodi, iechyd meddwl, anabledd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Drwy roi llais i brofiadau go iawn a hyrwyddo gwasanaethau lleol, mae'r orsaf yn helpu i leihau stigma a chodi ymwybyddiaeth o faterion na fyddent yn cael eu clywed fel arall.

[Hyperddolen: Crest Co-operative Launch Radio Station! - Crest](#)

Lleisiau o'r Gymuned

*"Lle enghreifftiol ar gyfer dyfyniad gan wrandöwr/buddiolwr" -
Gwandöwr*

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

Avondale SCIO



Trosolwg o'r Prosiect/Gweithgaredd

Mae Avondale Radio SCIO yn orsaf radio ar-lein sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned yn Ne Swydd Lanark, yr Alban. Ei nod craidd yw darparu llwyfan i leisiau lleol a meithrin cydlyniant cymunedol drwy ddarlledu a myfyrio cynhwysol. Mae cyfryngau prif ffrwd yn aml yn methu â rhoi sylw i faterion lleol, ond mae'r orsaf yn cynnig rhaglenni darlledu ar wahanol rolau y tu ôl i'r llenni yn y cyfryngau, gan gynnwys sgiliau technegol i drigolion. Mae Avondale Radio yn canolbwyntio ar allgáu cymdeithasol a materion lleol drwy ddarparu cyfleoedd na fyddent efallai ar gael fel arall. Mae hyn yn cynnwys unigolion o gymunedau gwledig ynysig, pobl sy'n profi tlodi ac allgáu, a'r rheini sy'n cael eu hamlygu i weithwyr allweddol.

Mewn lleoliadau ymarferol, mae'r orsaf yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau:

- Sioeau cymunedol rheolaidd
- Hyfforddiant darlledu i wirfoddolwyr
- Cyngor technegol a chynhyrchu

Angen Cymunedol

Sefydlwyd Avondale Radio mewn ymateb i ardal ag angen aciwt am gyfrwng sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn cynyddu lleisiau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Canfuwyd yr angen hwn drwy wybodaeth leol, syniadau gan Breswylwyr Avondale fel grwpiau cymunedol ar sail rhaglenni cefnogi ardal leol a oedd yn bodoli.

Nod yr orsaf yw mynd i'r afael â'r bwlch hwn drwy roi mynediad i'r SCIO at wybodaeth, cymorth a chefnogaeth mynediad cyfyngedig, fel hyfforddiant digidol. Mae'n cynnig llwyfan cynhwysol lle gall pobl ddysgu sgiliau newydd sy'n berthnasol i gyflogaeth.

Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â chenhadaeth Avondale Radio SCIO: rhoi llais i'r rheini nad ydynt yn cael eu clywed yn aml – trigolion gwledig, pobl 65 oed a hŷn, unigolion ynysig sy'n cysylltu drwy ddarlledu.

Pwy oedd yn cyfranogi? Beth ddigwyddodd?

Mae'r orsaf yn cael ei rhedeg gan dîm o drigolion lleol ymroddedig. Mae'r holl gyfranogwyr yn cyfrannu fel gwirfoddolwyr yn unig. Maen nhw'n cael eu hyfforddi cyn cymryd rhan mewn darllediadau, sy'n rhoi sylw i bynciau amrywiol fel digwyddiadau newyddion neu sioeau cerddoriaeth sy'n cael eu cynnal gan ddarlledwyr hyfforddedig. Avondale Radio – Yr unig sefydliad hyfforddiant radio sy'n cael ei gydnabod gan Gyngor De Swydd Lanark.

Avondale Radio SCIO



Canlyniadau ac Effaith

Mae Avondale Radio wedi cael effaith glir a chynyddol ar ei chymuned. Mae gwirfoddolwyr wedi datblygu sgiliau newydd ym maes darlledu, golygu a siarad cyhoeddus, gyda llawer yn dweud bod ganddynt fwy o hyder ac ymdeimlad cryfach o gysylltiad cymdeithasol. Mae'r orsaf hefyd wedi darparu llwyfan gwerthfawr ar gyfer ymgyrchoedd lleol, gan helpu i godi ymwybyddiaeth ac ymestyn eu cyrhaeddiad, ar yr un pryd â chefnogi cerddoriaeth leol a mynegiant creadigol.

Er bod gwerthuso ffurfiol wedi bod yn gyfyngedig hyd yma, mae'r orsaf yn tracio cyfranogiad gwirfoddolwyr, data rhaglenni ac ymgysylltiad gwrandawyr yn rheolaidd – gan gyrraedd tua 200,000 o wrandawyr bob mis. Mae'r wybodaeth hon yn tynnu sylw at werth yr orsaf i gyfranogwyr ac i'r gymuned ehangach.

Wrth edrych i'r dyfodol, nod Avondale Radio yw cyflwyno adnoddau gwerthuso syml fel arolygon gwrandawyr a ffurflenni adborth er mwyn casglu a dangos ei effaith yn well.

Hyperddolen: Home - Avondale Radio

Lleisiau o'r Gymuned

*"Lle enghreifftiol ar gyfer dyfyniad gan wrandawr/buddiolwr" -
Gwrandawr*

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

shmuFM



Trosolwg o'r Prosiect/Gweithgaredd

Mae shmuFM yn orsaf radio gymunedol yn Aberdeen, sy'n darlledu drwy analog, ar-lein a DAB ar raddfa fach. Mae'n cael ei weithredu o dan gwmni cyfyngedig drwy warant gyda statws elusennol, ac mae'n rhan o riant-sefydliad ehangach - Station House Media Unit (SHMU).

Mae'r orsaf yn darparu cymysgedd o weithgareddau gan gynnwys sioeau radio sy'n cael eu cynhyrchu'n lleol, cyfleoedd hyfforddi i aelodau o'r gymuned sy'n cael eu recriwtio o ardaloedd targed yr orsaf, a darlledu dan arweiniad gwirfoddolwyr. Mae shmuFM hefyd yn cynnwys aelodau o'r gymuned yn uniongyrchol yn y gwaith o redeg yr orsaf. Mae eu rhaglenni'n cynnwys deunydd sydd â phwrpas cymdeithasol, ffocws ar amrywiaeth, ac mae'n cynnwys hyrwyddo ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol, gan ganolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â thlodi, iechyd meddwl gwael, a newid yn yr hinsawdd.

Angen Cymunedol

Mae shmuFM yn ymateb i ystod eang o anghenion cymdeithasol a diwylliannol yn Aberdeen, yn enwedig ymysg grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Mae'r orsaf yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo gweithredu cymdeithasol, cefnogi pobl ifanc i gael gwaith, a rhoi llwyfan i sefydliadau VCFSE lleol.

Nodwyd yr angen am weithgareddau'r orsaf drwy wybodaeth leol ac ymgysylltu â'r gymuned, gyda chymorth ychwanegol gan **Gronfa Fairer Aberdeen**, sy'n gorff cyllido lleol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae cenhadaeth shmuFM yn cyd-fynd â hyn, gan sicrhau bod lleisiau lleol—yn enwedig y rhai sydd ar y cyrion—yn cael eu clywed a'u cynrychioli.

Ar hyn o bryd mae shmuFM yn archwilio partneriaeth ymchwil gydag academydd lleol i ddeall a dangos tystiolaeth well o'i heffaith ar y gymuned, gan ddangos ymrwymiad i ddealltwriaeth ddyfnach o anghenion lleol a gwerth cymdeithasol yr orsaf.

Pwy oedd yn cyfranogi? Beth ddigwyddodd?

Mae'r orsaf yn dibynnu'n drwm ar gyfranogiad y gymuned. Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan ganolog, gyda gweithgareddau'n amrywio o gynhyrchu a chyflwyno sioeau radio i gefnogi allgymorth cymunedol a hyfforddiant yn y cyfryngau.

Mae prosiectau shmuFM wedi cefnogi:

- Sefydliadau VCFSE lleol drwy ddarparu amser ar yr awyr i hyrwyddo eu gwaith.
- Pobl ifanc, drwy oriau penodol o gymorth sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth fel cyfarwyddyd gyrfaedd a pharatoi CV.
- Ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol sy'n annog gweithredu cymdeithasol a chyfranogiad dinesig.

Canlyniadau ac Effaith

Mae gwaith shmuFM wedi arwain at amrywiaeth o ganlyniadau tymor byr a chanolog:

- **I unigolion:** Mwy o hyder, datblygu sgiliau (yn enwedig yn y cyfryngau a chyfathrebu), a chyflogadwyedd – yn enwedig i bobl ifanc a'r rheini sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth draddodiadol.
- **I sefydliadau:** Mwy o amlygrwydd i achosion lleol a gwell allgymorth cymunedol drwy sylw ar y radio.
- **I'r gymuned:** Cynrychiolaeth gryfach, hunaniaeth leol gryfach, a gwell mynediad at gynnwys cyfryngau perthnasol a chynhwysol.

Mae'r orsaf yn tracio amrywiaeth o fetrigau i ddeall a dangos ei heffaith. Mae'r rhain yn cynnwys nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan a'r oriau maen nhw'n eu cyfrannu, faint o raglenni sy'n cael eu neilltuo ar gyfer amrywiaeth neu ddiben cymdeithasol, yr oriau sy'n cael eu treulio'n cefnogi pobl ifanc – er enghraifft drwy gynlluniau cyflogadwyedd – a nifer yr ymgyrchoedd a nifer y sefydliadau VCFSE sy'n cael sylw ar yr awyr.

Lleisiau o'r Gymuned

"Mae fy sioe radio wythnosol yn rhoi pwrpas i mi mewn bywyd, mae gen i rywbeth i weithio arno, rhywle i fod ac mae'n fy nghadw ar y llwybr cul. Byddai fy mywyd wedi bod yn llawer tywyllach heb shmu" - **Gwrandäwr**

"Rydw i'n newydd-ddyfodiad i'r ddinas ac roeddwn i'n gweld eisiau fy nghartref a'm ffrindiau'n fawr. Yn shmu, des i o hyd i bobl â'r un meddylfryd â fi. Roeddwn i wastad eisiau bod yn DJ radio. Rhoddodd shmu y cyfle hwn i mi. Rydw i'n teimlo fy mod wedi cael fy mendithio." - **Gwrandäwr**

"Mae shmu yn bendant wedi helpu fy lles drwy roi'r hyder i mi gredu ynof fy hun a rhoi pwrpas i mi wrth wneud ffrindiau newydd. Rwy'n teimlo bod y staff ac eraill sy'n dod i shmu yn fy nghefnogi, yn fy neall ac yn fy ngwerthfawrogi." - **Gwrandäwr**

De-gliciwch i amnewid
â lluniau perthnasol

Cysylltu â ni



0330 122 8658



wavehill@wavehill.com



wavehill.com

Dilynwch ni ar ein cyfryngau
cymdeithasol



[@wavehilltweets](https://twitter.com/wavehilltweets)



[wavehill](https://www.linkedin.com/company/wavehill)